# Cyngor Meddygol Cyffredinol

## Adroddiad Blynyddol 2022

Adroddiad blynyddol a chyfrifon yr ymddiriedolwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2022

Cyngor
Meddygol
Cyffredinol

# Cyngor Meddygol Cyffredinol

## Adroddiad Blynyddol 2022

Adroddiad blynyddol a chyfrifon yr ymddiriedolwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2022

Cyflwynir i'r Senedd yn unol ag adran 52A Deddf Meddygol 1983 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Gofal Iechyd a Phroffesiynau Cysylltiedig (Diwygiadau Amrywiol) 2008 (SI No.1774).

Cyngor
Meddygol
Cyffredinol









# Ein hadroddiad blynyddol 2022

Cyngor
Meddygol
Cyffredinol

# Am yr adroddiad hwn

Mae’n hymddiriedolwyr yn cyflwyno’r datganiad ariannol a’r adroddiad hwn ar gyfer y flwyddyn yn gorffen ar 31 Rhagfyr 2022.

Maent yn cadarnhau eu bod wedi ystyried canllawiau'r Comisiwn Elusennau ynghylch budd i'r cyhoedd wrth adolygu ein nodau a'n hamcanion, a'u bod wedi ystyried y canllawiau hyn wrth arfer unrhyw bwerau neu ddyletswyddau neu wrth wneud penderfyniad y mae'r canllawiau yn berthnasol iddo. Mae'r ymddiriedolwyr yn fodlon bob amser ein bod wedi gweithredu er budd y cyhoedd a bod y gweithgareddau fel y'u disgrifir yn yr adroddiad hwn a'r cyfrifon hyn yn bodloni'r gofynion o ran budd y cyhoedd yn llawn, a'u bod yn cefnogi ein diben elusennol.













# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr | 02 |
| Ein rôl yn systemau gofal iechyd y DU | 04 |
| Cipolwg ar 2022 | 06 |
| Cyflawni ein strategaeth | 21 |
| Uchafbwyntiau ar draws y DU | 25 |
| Cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol | 37 |
| Ein strwythur, ein trefniadau llywodraethu, a'n gweithgarwch rheoli | 40 |
| Adolygiad ariannol 2022 | 48 |
| Adroddiad y Pwyllgor Risg ac Archwilio | 53 |
| Adroddiad yr archwilwyr annibynnol i ymddiriedolwyr CMC | 57 |
| Cyfrifon 2022 | 62 |
| Gwybodaeth weinyddol a chyfeirio | 95 |


Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Saesneg hefyd, trwy droi at:
[www.gmc-uk.org/about/how-we-work/corporate-strategy-plans-and-impact/annual-reports](http://www.gmc-uk.org/about/how-we-work/corporate-strategy-plans-and-impact/annual-reports)

# Rhagair

Unwaith eto yn 2022, gwelwyd pwysau di-ball ar y gwasanaeth iechyd ac ar y rhai sy'n ei ddefnyddio ac sy'n ei staffio. Roedd gweithwyr gofal iechyd proffesiynol wedi parhau i ddarparu gofal rhagorol er gwaethaf yr amgylchiadau anodd. Ond wrth i ni deimlo adleisiau'r pandemig o hyd, gwelwyd tueddiadau dros y tymor hwy ynghylch lles a llwyth gwaith yn gwaethygu'r sialensiau presennol. Wrth i gleifion orfod aros am gyfnodau hir am ddiagnosis a thriniaeth, cyfeiriodd meddygon ar draws pob grŵp at orweithio, straen a phroblemau gyda diogelwch cleifion fel rhesymau dros adael y proffesiwn.

Ceir perthynas uniongyrchol rhwng yr amgylchedd y mae meddyg yn gweithio ynddo ac ansawdd y gofal y gallant ei ddarparu. Mae tystiolaeth sylweddol yn dweud wrthym bod galluogi ymarferwyr i sicrhau cyflawniad o'r safon uchaf wrth wraidd canlyniadau da i gleifion. Dyma pam yr oedd hyrwyddo diwylliannau gweithle cadarnhaol a chynnig cymorth ystyrlon i bob meddyg wedi parhau i fod yn rhan ganolog o'n gwaith yn 2022.

Mae meithrin amgylcheddau lle y mae meddygon yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a bod pobl yn gwrando arnynt wedi dod yn rhywbeth arbennig o bwysig wrth i niferoedd cynyddol adrodd am y ffaith eu bod yn anfodlon gyda'u swydd, gan gymryd camau i adael GIG, neu i adael y proffesiwn yn gyfan gwbl. Rydym yn cydweithio'n agos gyda chyflogwyr lleol a phartneriaid cenedlaethol i feithrin arweinyddiaeth dosturiol a chynhwysol fel bod meddygon yn teimlo eu bod yn perthyn a'u bod yn gallu ffynnu.

Mae cyfansoddiad y gofrestr feddygol yn parhau i dyfu ac esblygu. Mae mwy o feddygon ar y gofrestr nag erioed o'r blaen, a cheir cymysgedd eang o grwpiau ethnig. Mae'r rhaniad rhwng y ddau ryw bron yn gyfartal ar draws y pedair cenedl erbyn hyn. Yn y proffesiwn mwy amrywiol hwn, mae agweddau hyblyg tuag at hyfforddiant a lleoli yn hanfodol. Nid yn unig y bydd cydnabod anghenion unigol yn galluogi pob aelod o'r gweithlu i wneud y cyfraniad mwyaf y gallant ei wneud, ond bydd yn helpu i gadw'r gweithwyr proffesiynol profiadol sydd gennym hefyd, sy'n hanfodol ar gyfer gofal diogel i gleifion.

O blith y meddygon a ymunodd â'r gweithle yn 2021, roedd dros hanner ohonynt yn raddedigion meddygol rhyngwladol (GMRhion), o'u cymharu â dim ond 39% o raddedigion o'r DU. Mae sicrhau bod meddygon sydd newydd gyrraedd y DU ac sy'n gorfod gweithio mewn gwahanol system iechyd a chymdeithas, yn teimlo eu bod yn cael eu cynorthwyo a'u cynnwys yn hanfodol, iddyn nhw ac ar gyfer y gofal y maent yn ei ddarparu. Er hyn, mae gwahaniaethu ac anfantais yn tanseilio eu datblygiad a'u perfformiad yn eu harfer o ddydd i ddydd. Yn ystod 2022, aethom ati i gynyddu ein hymdrechion i wella profiadau meddygon o leiafrifoedd ethnig o feddygaeth, gan gynnwys cynnal momentwm ar ein targedau er mwyn gwaredu cyrhaeddiad gwahaniaethol ym maes addysg a hyfforddiant meddygol erbyn 2031 ac anghymesuredd mewn cyfeiriadau addasrwydd i ymarfer erbyn 2026.

Law yn llaw â'r cynnydd mewn niferoedd Graddedigion Meddygol Rhyngwladol (GMRh), gwelwyd cynnydd cyflym ac arwyddocaol yn nifer y rhai sy'n cyflawni swyddi arbenigol ac arbenigol cyswllt (SAS) ac a gyflogir yn lleol (LE). Arferai

meddygon SAS ac LE fod yn rhan dderbyniol iawn, ond bach, o'r gweithlu, ond bellach maent yn gyfranwyr mawr. Croesawyd ein gwaith i wella'r llwybr CESR gan y garfan hon, yn ogystal â'n hymdrechion i ehangu'r cyfleoedd i feddygon SAS, er enghraifft ym maes gofal sylfaenol.

Trwy gydol y flwyddyn, roedd ein timau allgymorth wedi parhau i weithio ar draws y bedair cenedl i roi sylw i bryderon lleol; boed hynny yn weithgarwch cydlynu gyda phartneriaid i gyflwyno ein rhaglen ymsefydlu am ddim ar gyfer GMRhion, sef *Croeso i Arfer yn y DU*, gweithio gyda swyddogion cyfrifol (ROs) i wella'r cymorth ar gyfer meddygon locwm neu i roi ein data ar waith er mwyn targedu ymyriadau.

Mae ein perfformiad fel rheolydd yn hanfodol er mwyn sicrhau ymddiriedaeth y cyhoedd a'r sawl yr ydym yn eu rheoleiddio. Roeddem yn falch o fod wedi cyflawni'r holl safonau a bennwyd gan ein rheolydd, yr Awdurdod Safonau Proffesiynol (PSA) eleni, a phob blwyddyn ers iddynt gael eu cyflwyno.

Fodd bynnag, nid ydym yn ddi-hid. Er mwyn bod y rheolydd mwyaf effeithiol a thosturiol y gallwn fod, mae angen i ni adolygu ein prosesau yn rheolaidd, ynghyd â'u heffaith ar y proffesiwn a'r cyhoedd. Yn 2022, roeddem wedi parhau i bwyso am gamau i ddiwygio'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu'r ffordd yr ydym yn gweithio. Oherwydd y fframwaith cyfreithiol presennol, rydym yn gwario amser ac adnoddau anghymesur yn ymchwilio i feddygon. Ein huchelgais yw trawsnewid y ffordd yr ydym yn rheoleiddio, ac mae'r ffaith bod llywodraeth y DU wedi ymrwymo i ddiweddaru deddfwriaeth fel blaenoriaeth bennaf yn cynnig calondid i ni. Credwn y bydd y newidiadau hyn yn cyflawni rôl bwysig wrth roi sylw i'r sialensiau ehangach ar gyfer y gweithlu.

Er bod hwn yn gyfnod heriol i'r gwasanaeth iechyd, rydym yn parhau i weld rhaglenni gwaith arloesol ac enghreifftiau o arfer gorau. O'u cyflawni yn gywir, mae'r mentrau hyn yn gwneud gwahaniaeth amlwg, wrth i bob gwelliant bach gyfrannu at newid arwyddocaol i feddygon a'r sawl y maent yn eu trin.

Mae ein gallu i sicrhau cynnydd a darparu gofal o ansawdd uchel yn dibynnu ar y cydweithio parhaus gyda'r holl rai o fewn y system iechyd, gan gynnwys y cleifion yr ydym yn eu gwasanaethu. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cryfhau'r bartneriaeth hon ar draws y pedair cenedl, ac edrychwn ymlaen i gydweithio'n agos gyda chydweithwyr unwaith eto yn ystod y flwyddyn i ddod.





**Charlie Massey**
Prif Weithredwr





**Bonesig Dame Carrie MacEwen**
**Cadeirydd**

# Ein rôl yn systemau gofal iechyd y DU

Ni yw rheolydd annibynnol meddygon yn y DU. Ein rôl yw diogelu iechyd, diogelwch a lles cleifion a'r cyhoedd. Rydym yn cyflawni hyn trwy:

- hyrwyddo a chynnal safonau proffesiynol i feddygon
- goruchwylio addysg a hyfforddiant meddygol yn y DU
- gweithredu pan fydd diogelwch cleifion neu hyder y cyhoedd mewn meddygon mewn perygl.

## Sut ydym yn cadw cleifion yn ddiogel

Mae cadw cleifion yn ddiogel a diogelu hyder y cyhoedd mewn meddygon wrth wraidd ein gwaith.

- Rydym yn gosod y safonau ar gyfer meddygon. Mae'n safonau yn diffinio'r hyn sy'n gwneud meddyg da. Maent yn nodi'r gwerthoedd proffesiynol, y wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiad sy'n ofynnol gan bob meddyg sy'n gweithio yn y DU. Er mwyn datblygu ein safonau a'n canllawiau, byddwn yn ymgynghori gyda chleifion, meddygon, cyflogwyr ac addysgwyr.
- Rydym yn goruchwylio pob cam mewn addysg a hyfforddiant israddedig ac ôl-raddedig meddygon yn y DU. Rydym yn sicrhau bod meddygon yn cael yr addysg a'r hyfforddiant y mae ei angen arnynt er mwyn darparu gofal o ansawdd uchel trwy gydol eu gyrfaoedd. Rydym yn gwneud hyn trwy bennu'r canlyniadau y mae angen i raddedigion eu sicrhau a chymeradwyo cwricwla ar gyfer addysg ôl-raddedig. Yn ogystal, rydym yn monitro amgylcheddau hyfforddiant er mwyn cynorthwyo dysgu diogel ac effeithiol.
- Rydym yn rheoli cofrestr feddygol y DU. Rydym yn archwilio cymwysterau meddygon cyn iddynt ymuno â'r gofrestr. Yn ôl yr angen, byddwn yn archwilio eu sgiliau. Yn ogystal, rydym yn holi ysgolion meddygol neu gyflogwyr blaenorol er mwyn darganfod a oes ganddynt unrhyw bryderon am allu meddyg i ymarfer yn ddiogel.
- Rydym yn sicrhau bod meddygon yn cadw eu gwybodaeth a'u sgiliau yn gyfredol. Rydym yn gwneud hyn trwy gyfrwng ailddilysu, sef system sy'n sicrhau bod pob meddyg yn cael arfarniad blynyddol a'u bod yn dilyn y safonau a bennwyd gennym. Mae ailddilysu yn rhan sylfaenol o lywodraethu clinigol, ac rydym yn cynorthwyo hyn hefyd trwy gyfrwng y cyngor y mae ein timau allgymorth yn ei roi i swyddogion cyfrifol (ROs) rheng flaen. Mae'r broses yn cynnig sicrwydd i gleifion a'r cyhoedd bod meddygon yn y DU yn rhan o system a lywodraethir. Yn ogystal, mae'n cynorthwyo gweithgarwch i adnabod a rheoli pryderon yn gynnar.
- Rydym yn ymchwilio i bryderon am feddygon ac yn gweithredu yn eu cylch. Pan fydd rhywun yn mynegi pryder i ni am feddyg, byddwn yn asesu a yw'n bodloni ein trothwy er mwyn ymchwilio iddo. Os ydyw, byddwn yn ymchwilio. Ar ddiwedd yr ymchwiliad, byddwn yn penderfynu pa gamau y mae angen i ni eu cymryd. Gall hyn gynnwys peidio cymryd unrhyw gamau, rhoi cyngor neu rybudd, cyfyngu ar arfer meddyg, neu gytuno gyda nhw a'u cyflogwr y byddant yn ailhyfforddi neu'n gweithio dan oruchwyliaeth. Mewn rhai sefyllfaoedd, byddwn yn cyfeirio'r achos at y Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol (MPTS). Mae MPTS yn cynnal gwrandawiadau tribiwnlys sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch a yw meddygon yn ffit i wneud gwaith meddygol. Mae'n atebol i Gyngor CMC ac i Senedd y DU, ond mae'n gweithredu ar wahân i rôl ymchwilio CMC, ac mae ei wrandawiadau tribiwnlys yn hollol annibynnol wrth wneud penderfyniadau. Mae'n paratoi ei adroddiad blynyddol ar wahân ei hun.

# Ein perfformiad

Bob blwyddyn, mae'r Awdurdod Safonau Proffesiynol (PSA) yn asesu ein perfformiad fel rheolydd. Caiff hwn ei fesur ar draws ein pedair swyddogaeth graidd: addysg a hyfforddiant; cofrestru; canllawiau a safonau; ac addasrwydd i ymarfer.

Cadarnhaodd asesiad blynyddol diweddaraf PSA ein bod wedi llwyddo i fodloni ei 18 Safon Rheoleiddio Da yn ystod 2021-22. Rydym yn falch o'r ffaith ein bod wedi llwyddo i fodloni'r 18 safon a bennwyd gan PSA ers iddynt gael eu cyflwyno yn 2012. Mae hyn yn golygu ein bod yn sicrhau perfformiad o safon uchel fel rheolydd, ac mae'n adlewyrchu'r ymrwymiad yn ein gwaith at safonau megis:

- tryloywder
- diogelu'r cyhoedd
- amseroldeb
- cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

| Safonfau cyffredinol | Canllawiau a safonau | Addysg a hyfforddiant |
|---|---|---|
| 5 allan o 5 | 2 allan o 2 | 2 allan o 2 |

| Cofrestru | Addasrwydd i ymarfer | Cyfanswm y safonau a fodlonwyd |
|---|---|---|
| 4 allan o 4 | 5 allan o 5 | 18 allan o 18 |

# Cipolwg ar 2022



# Y gofrestr feddygol

Mae'r holl ffigurau yn cyfeirio at y sefyllfa ar 31 Rhagfyr 2022 a 2021, oni bai y nodir fel arall. Trowch at archwiliwr Data CMC i ddysgu mwy am addysg ac arfer meddygon yn y DU.

**Cyfanswm y meddygon ar y gofrestr**




**Twf yn nifer y meddygon cofrestredig 2012-2022**




**Lleoliad graddio**



### Meddygon ar y gofrestr yn ôl lleoliad*




### Meddygon ar y gofrestr yn ôl ethnigrwydd




* Caiff lleoliad tarddiadol meddygon cofrestredig ei gyfrifo gan ddefnyddio'r hierarchaeth ganlynol:
1. lle y maent yn gweithio ar sail data ynghylch hanes ymarfer GIG
2. eu lleoliad hyfforddi wedi'i seilio ar yr Arolwg hyfforddiant cenedlaethol
3. lleoliad eu corff dynodedig
4. eu cyfeiriad cofrestredig.

Caiff meddygon cofrestredig sydd wedi'u lleoli yn Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manw eu cynnwys yn y ffigurau sy'n cyfeirio at Loegr.

### Meddygon ar y gofrestr yn ôl rhyw




**Cyfanswm y meddygon ar y Gofrestr Meddygon Teulu**

# 78,619

I lawr **1.3%** er 2021 (**79,685**)

Roedd **63,267** (80.5%) yn byw yn **Lloegr**.

Roedd **2,268** (2.9%) yn byw yng **Ngogledd Iwerddon**.

Roedd **7,419** (9.4%) yn byw yn **Yr Alban**.

Roedd **3,313** (4.2%) yn byw yng **Nghymru**.

Roedd **2,352** (3%) wedi'u lleoli **y tu allan i'r DU** neu nid oeddent wedi darparu digon o wybodaeth er mwyn i ni allu nodi eu lleoliad.

**Cyfanswm y meddygon ar y Gofrestr Arbenigol***

# 107,327

I fyny **0.3%** er 2021 (**107,009**)

Roedd **81,472** (76%) yn byw yn **Lloegr**.

Roedd **2,610** (2.4%) yn byw yng **Ngogledd Iwerddon**.

Roedd **8,289** (7.7%) yn byw yn **Yr Alban**.

Roedd **4,104** (3.8%) yn byw yng **Nghymru**.

Roedd **10,852** (10.1%) wedi'u lleoli **y tu allan i'r DU** neu nid oeddent wedi darparu digon o wybodaeth er mwyn i ni allu nodi eu lleoliad.

**Yn 2022, dyfarnom:**

**21,255**

**o geisiadau mynediad i'r gofrestr am y tro cyntaf.**

Mae hwn

6.4% ↑

yn uwch na'r nifer yn 2021 (**19,977**).

Roedd **7,819** (36.8%) gan feddygon a oedd yn meddu ar **PMQ o'r DU.**

Roedd **2,033** (9.6%) gan feddygon a oedd wedi graddio yn **AEE** neu yn y **Swistir**.

Roedd **11,403** (53.6%) gan feddygon a oedd wedi sicrhau cymhwyster yng **ngweddill y byd.**



**3,309**

**o geisiadau i ymuno â'r gofrestr Meddygon Teulu.**

Mae hwn

0.5% ↓

yn is na'r nifer yn 2021 (**3,326**).

Roedd **2,186** (66%) gan feddygon a oedd yn meddu ar **PMQ o'r DU.**

Roedd **174** (5.3%) gan feddygon a oedd wedi graddio yn **AEE** neu yn y **Swistir**.

Roedd **949** (28.7%) gan feddygon a oedd wedi sicrhau cymhwyster yng **ngweddill y byd.**



**4,799**

**o geisiadau i ymuno â'r Gofrestr Arbenigol.**

Mae hwn

4% ↑

yn uwch na'r nifer yn 2021 (**4,613**).

Roedd **3,146** (65.6%) gan feddygon a oedd yn meddu ar **PMQ o'r DU.**

Roedd **563** (11.7%) gan feddygon a oedd wedi graddio yn **AEE** neu yn y **Swistir**.

Roedd **1,090** (22.7%) gan feddygon a oedd wedi sicrhau cymhwyster yng **ngweddill y byd.**



## Bwrdd asesiadau proffesiynol ac ieithyddol (PLAB)

Fel arfer, bydd angen i feddygon sy'n graddio y tu allan i'r DU, AEE, neu'r Swistir gymryd ein prawf Bwrdd Asesiadau Proffesiynol ac Ieithyddol (PLAB) er mwyn ymuno â chofrestr feddygol y DU.* Mae gofyn sefyll y prawf mewn dwy ran (PLAB 1, a gyflwynir mewn canolfannau asesu ar draws y byd, a PLAB 2, a gynhelir mewn un o'n canolfannau profi ym Manceinion).

### PLAB 1

Roedd **14,470**

**o ymgeiswyr wedi sefyll PLAB 1 yn 2022,** cynnydd o 38.7% o'i gymharu â'r sefyllfa yn 2021 **(10,431).**

Roedd **10,259** (70.9%) wedi pasio'r arholiad.

### PLAB 2

Roedd **13,533**

**o ymgeiswyr wedi sefyll PLAB 2 yn 2022,** cynnydd o 56.5% o'i gymharu â'r sefyllfa yn 2021 **(8,648).**

Roedd **8,775** (64.8%) wedi pasio'r arholiad.

* Mae eithriadau i hyn yn cynnwys graddedigion meddygol rhyngwladol a ymunodd â'r gofrestr ar ôl iddynt gael eu noddi gan sefydliadau gofal iechyd, neu ar sail cymwysterau ôl-raddedig. Yn y ddau achos hwn, rhaid i feddygon ddarparu tystiolaeth o'u cymhwysedd a'u sgiliau o hyd. Am ragor o wybodaeth am y gwahanol lwybrau er mwyn ymuno â'r gofrestr, trowch at www.gmc-uk.org/registration-and-licensing/join-the-register/before-you-apply/evidence-to-support-your-application.

# Gosod safonau a'u cynnal

## Aiddilysu

Rhaid i bob meddyg trwyddedig sy'n gwneud gwaith meddygol yn y DU brofi eu bod yn bodloni ein safonau bob pum mlynedd trwy gyfrwng proses a elwir ailddilysu. Mae ailddilysu yn cynorthwyo meddygon i ddatblygu eu harfer, mae'n ysgogi gwelliannau ym maes llywodraethu clinigol, ac mae'n cynnig hyder i gleifion bod meddygon yn addas i ymarfer.

**Yn 2022 cawsom**

**50,462**

**o argymhellion ailddilysu.**

*Gan ddibynnu lle y maent yn gweithio, gall meddygon unigol gael mwy nag un argymhelliad.*

**42,164** o'r argymhellion wedi'u cyflwyno gan gyrff dynodedig wedi'u lleoli yn **Lloegr**.

**1,532** wedi'u cyflwyno gan gyrff dynodedig wedi'u lleoli yng **Ngogledd Iwerddon**.

**4,286** wedi'u cyflwyno gan gyrff dynodedig wedi'u lleoli yn **Yr Alban**.

**2,257** wedi'u cyflwyno gan gyrff dynodedig wedi'u lleoli yng **Nghymru**.*

**Ailddilyswyd 40,568 o feddygon yn 2022.**

Roedd **33,696** yn byw yn **Lloegr**.

Roedd **1,172** yn byw yng **Ngogledd Iwerddon**.

Roedd **3,513** yn byw yn **Yr Alban**.

Roedd **1,743** yn byw yng **Nghymru**.

Roedd **444** wedi'u lleoli y **tu allan i'r DU** neu nid oeddent wedi darparu digon o wybodaeth er mwyn i ni allu nodi eu lleoliad.

Gwnaethom benderfyniad am

**96.2%**

o'r argymhellion a gawsom yn ystod 2022 **cyn pen 5 diwrnod gwaith** o'u cael, **gan ragori ar ein targed o 95%**.

**9,082** Cymerdwyom y cam o ohirio **dyddiadau cyflwyno at ddibenion ailddilysu** 9,082 o feddygon.

**841** Penderfynom **dynnu trwydded** 841 o feddygon ar ein cofrestr yn ôl oherwydd eu bod wedi methu ailddilysu.†

* Nid yw'r 145 sy'n weddill yn gysylltiedig â lleoliad penodol gan eu bod o ganlyniad i brosesau gweinyddol sy'n angenrheidiol er mwyn cyfuno data.

† Os na fydd meddyg yn bodloni gofynion ailddilysu, os byddant yn rhoi gwybodaeth dwyllodrus, neu os na fyddant yn darparu tystiolaeth yr oedd y cais i'w darparu yn rhesymol, mae'r gyfraith yn caniatáu i ni dynnu eu trwydded yn ôl. Mae'r broses hon yn wahanol i'r broses o'u tynnu oddi ar y gofrestr, er enghraifft, yn dilyn gwrandawiad MPTS.

## Allgymorth

### Darparodd ein timau allgymorth hyfforddiant am ein safonau ar gyfer:

**22,210**
**o feddygon** mewn **829 sesiwn** a

Mae hwn yn gynnydd o **31%** ⬆ o'i gymharu â'r sefyllfa yn 2021 (16,974).

**12,205**
**o fyfyrwyr meddygol** mewn **109 sesiwn** ar draws y DU

Mae hwn yn gynnydd o **49%** ⬆ o'i gymharu â'r sefyllfa yn 2021 (8,218).

Dywedodd **93%** o'r meddygon a **98%** o'r myfyrwyr a werthusodd un o'n gweithdai allgymorth ar draws y DU bod **eu gwybodaeth am rôl a safonau CMC wedi gwella**.

Dywedodd **84%** o'r meddygon a **94%** o'r myfyrwyr a werthusodd sesiwn ar draws y DU ei bod **wedi gwella eu hargraff o CMC**.

### Atebodd ein tîm ymholi am safonau:

**440**
ymholiad am ein canllawiau.

Mae hwn yn ostyngiad o **28.6%** ⬇ o'i gymharu â'r sefyllfa yn 2021 (**616**).

Roedd tua **52%** o'r ymholiadau **gan feddygon** (2021: 54%)




Roedd **34%** gan **aelodau'r cyhoedd** (2021: 34%)

Roedd **14%** **gan eraill,** gan gynnwys staff o sefydliadau proffesiynol, myfyrwyr a'r heddlu (2021: 12%).

Yn ogystal, mae ein timau allgymorth yn darparu gweithdai sy'n ceisio helpu meddygon y mae **ymarfer yn y DU yn brofiad newydd iddynt**, i addasu i weithio yn systemau gofal iechyd y DU.

Yn 2022, darparodd y tîm **251 o weithdai *Croeso i arfer yn y DU***, a oedd wedi cynnwys **8,829 o feddygon** –mae hyn **36%** yn uwch na'r nifer yn 2021 (**6,471**).

Cynhaliodd ein cynghorwyr cyswllt cyflogwyr

**1,313**
o gyfarfodydd gyda swyddogion cyfrifol.

Yn ogystal, rhoddont gyngor addasrwydd i ymarfer mewn perthynas â

**2,467**
o feddygon.

# Goruchwylio addysg a hyfforddiant meddygol

## Sicrhau ansawdd

Rydym yn rheoleiddio'r holl gamau mewn addysg a hyfforddiant israddedig ac ôl-raddedig meddygon yn y DU. Rydym yn pennu safonau a chanlyniadau disgwyliedig ac rydym yn cyflawni gwaith sicrhau ansawdd (SA) er mwyn sicrhau y cynhelir safonau.

Mae ein prosesau sicrhau ansawdd rhagweithiol yn hyrwyddo ac yn annog rheolaeth leol pryderon am ansawdd a diogelwch addysg a hyfforddiant meddygol israddedig ac ôl-raddedig. Mae ein proses fonitro estynedig yn helpu i roi sylw i bryderon difrifol pan fydd gofyn cael cymorth ychwanegol.

Yn 2022, cynhaliom **258** o ymweliadau SA addysg.

Mae hyn **24%** ↑ yn uwch na'r nifer yn 2021 (**208**).

Roedd **203** o'r ymweliadau yn **Lloegr**.
Roedd **8** o'r ymweliadau yng **Ngogledd Iwerddon**.
Roedd **33** o'r ymweliadau yn **Yr Alban**.
Roedd **14** o'r ymweliadau yng **Nghymru**.

Roedd **209** ohonynt yn **ymweliadau SA i ysgolion meddygol newydd, ysgolion meddygol sefydledig, neu amgylcheddau clinigol** lle y cynhelir addysg a hyfforddiant meddygol.

Roedd **49** ohonynt yn **ymweliadau monitro estynedig**, a oedd yn ceisio hyrwyddo'r broses o ddatrys pryderon ynghylch ansawdd hyfforddiant ôl-raddedig yn lleol.

O'n hymweliadau SA, canfuom:
- **27** maes **arfer da neu sy'n gweithio'n dda.**
- **19** maes lle y **bodlonwyd ein safonau**, ond lle y **nodom welliannau** y byddai modd eu gwneud.
- **4** maes yr oedd **gofyn sicrhau gwelliant** ynddynt.*

O ganlyniad i'n hymweliadau monitro estynedig:
- **Uwchgyfeiriwyd 12** achos a oedd yn ymwneud ag addysg ôl-raddedig **i'n proses monitro estynedig.**
- Llwyddwyd i **ddatrys 8 achos monitro estynedig** a uwchgyfeiriwyd yn flaenorol.

Rydym yn cynnal system adrodd am ansawdd adweithiol hefyd, lle y mae modd codi materion sy'n effeithio ar amgylcheddau addysg a hyfforddiant a'u monitro.  Mae'r system yn caniatáu i ysgolion meddygol a sefydliadau hyfforddiant ôl-raddedig godi materion a rhoi diweddariadau am y camau i'w datrys. Os na chaiff y materion eu datrys neu os byddant yn gwaethygu, bydd modd uwchgyfeirio achosion i'n proses fonitro estynedig.

* Nid yw pob ymweliad SA yn arwain at ganfyddiadau penodol fel y rhai a restrir yma – mewn rhai achosion, ni chanfyddir unrhyw beth o bwys, gan nad oes unrhyw beth wedi newid ers yr ymweliad blaenorol, neu ni chanfuwyd unrhyw beth a oedd yn werth ei nodi (hy mae'r addysg a'r hyfforddiant yn gweithio fel y disgwyl).

# Cynorthwyo'r bobl yr ydym yn eu gwasanaethu

Yn 2022, cawsom
**1,916**
o **gwynion** am ein gwasanaeth.

Mae hwn yn gynnydd o
**1.7%** ↑
o'i gymharu â'r sefyllfa yn 2021 (**1,884**).

**Yn 2022, cafodd ein gwasanaeth cyswllt cleifion 230 o gyfarfodydd gyda chleifion a oedd wedi mynegi pryder gyda ni.**

**92%** o'r rhai a oedd wedi ymateb i arolwg ar ôl mynychu cyfarfod cyswllt cleifion gyda ni yn fodlon neu'n fodlon iawn gyda'r profiad o gyfarfod gyda chleifion.

**97%** yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod staff cyswllt cleifion yn dangos empathi ynghylch eu sefyllfa.

**95%** yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn fodlon bod eu pryderon wedi cael eu deall yn ystod y cyfarfod.

**95%** yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod y cyfarfodydd wedi eu helpu i ddeall pa gamau y gallai CMC eu cymryd.

Atebodd ein canolfan gyswllt
**158,230**
o alwadau a
**123,883**
o negeseuon e-bost neu lythyrau.

Roedd **77%** o'r galwadau a'r negeseuon e-bost a gawsom gan feddygon ac roedd **23%** gan aelodau'r cyhoedd ac eraill.

Yn ogystal, deliodd y ganolfan gyswllt gyda
**28,369**
o sesiynau gwe-sgwrsio.

# Ymchwilio i bryderon a gweithredu yn eu cylch

## Pryderon a fynegwyd am gofrestreion

Mynegwyd **8,893** o bryderon gyda ni yn 2022.

Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad o **2%** gymharu â'r sefyllfa yn 2021 (9.074 o bryderon).

| | |
|---|---|
| 62% | Mynegwyd **62%** mewn perthynas â digwyddiadau a oedd wedi digwydd yn **Lloegr**. Mae hon yn ganran is na'r hyn a welwyd yn 2021 (62.7%). |
| 2% | Mynegwyd **2%** mewn perthynas â digwyddiadau a oedd wedi digwydd **yng Ngogledd Iwerddon** – mae hon yn ganran debyg i'r hyn a welwyd yn 2021 (2.2%). |
| 5% | Mynegwyd **5%** mewn perthynas â digwyddiadau a oedd wedi digwydd yn **Yr Alban** – mae hon yn ganran uwch na'r hyn a welwyd yn 2021 (4.2%). |
| 2% | Mynegwyd **2%** mewn perthynas â digwyddiadau a oedd wedi digwydd **yng Nghymru** – mae hon yn ganran is na'r hyn a welwyd yn 2021 (2.8%). |
| 29% | Ar gyfer **29%** ohonynt, **ni nodwyd lleoliad y digwyddiad, neu roeddent wedi digwydd y tu allan i'r DU** – mae hon yn ganran uwch na'r hyn a welwyd yn 2021 (28.2%). |

## Canran y pryderon a fynegwyd gan y cyhoedd




**O blith yr 8,893 o bryderon a fynegwyd i ni yn 2022, mynegwyd 74.7% ohonynt gan gleifion neu aelodau'r cyhoedd. Mae hyn yn debyg i'r ganran a welwyd yn 2021 (74.8%).**

Canran y pryderon a oedd yn ymwneud â digwyddiadau a oedd wedi digwydd yn **Lloegr** ac a fynegwyd gan y cyhoedd oedd 70.7% (gostyngiad o 72.2% yn 2021).

Yng **Ngogledd Iwerddon**, roedd yn 48.9% (yn debyg i 50.3% yn 2021).

Yn **Yr Alban**, roedd yn 72.3% (cynnydd o 70.6% yn 2021).

Yng **Nghymru**, roedd yn 74.4% (cynnydd o 60.9% yn 2021).

Roedd 84.9% o'r pryderon a gawsom **heb leoliad wedi'i nodi** neu yr oeddent wedi digwydd y **tu allan i'r DU** wedi cael eu mynegi gan y cyhoedd (yn debyg i 84.4% yn 2021).

## Ymateb i bryderon

Nid yw'r holl bryderon a fynegir i ni yn bodloni ein trothwy er mwyn cynnal ymchwiliad. Weithiau, y ffordd orau o ddelio gyda phryderon yw delio â nhw yn lleol neu thrwy gael sgwrs gyda'r meddyg, neu dylid eu dwyn gerbron sefydliad arall. Dim ond pan fydd risg i ddiogelwch cleifion neu i hyder y cyhoedd yn y proffesiwn meddygol y byddwn yn gweithredu.

Mewn achosion penodol, byddwn yn cynnal ymholiadau amodol, lle y byddwn yn ystyried gwybodaeth yn gynnar mewn achos er mwyn cynnig datrysiad cyflymach i gleifion a'r gweithwyr proffesiynol. Os bydd y dystiolaeth yn dangos nad oes unrhyw risg i gleifion yn y dyfodol, ac nad oes angen cymryd camau rheoliadol, ni fyddwn yn symud ymlaen i ymchwiliad llawn. Ar gyfer yr achosion hynny lle y bydd gennym bryderon am ddiogelwch cleifion, byddwn yn cynnal ymchwiliad llawn.

## Ymholiadau amodol

Ystyriwyd **476** (**5.4%**) o'r pryderon a gawsom yn 2022 **dan ymholiad amodol**.

→ Mae hon yr un ganran a welwyd yn 2021 (**5.4%**).

Roedd **373** o'r rhain (78.4%) yn cyfeirio at bryderon a fynegwyd gan **aelodau'r cyhoedd**.

→ Mae hon yn ganran debyg i'r hyn a welwyd yn 2021 (**78%**).

Mewn **396** o'r achosion (**83%**), penderfynom gau'r ymholiad amodol **heb gymryd unrhyw gamau**.

Mewn **63** o'r achosion (**13%**), **penderfynom symud yr achos ymlaen i ymchwiliad.**

Mewn **17** o'r achosion (**4%**), roedd yr ymholiad amodol **ar agor o hyd** ar 20 Mawrth 2023.

## Ymchwiliadau a agorwyd yn 2022

Roedd **788** (**8.9%**) o'r pryderon a gawsom yn 2022 yn bodloni ein trothwy **statudol ar gyfer cynnal ymchwiliad**.

Mae'r ganran hon yn is na'r ganran a welwyd yn 2021 (**10.2%**).

Roedd **174** (**22.1%**) o'r rhain yn cyfeirio at bryderon a fynegwyd gan **aelodau'r cyhoedd**.

Mae'r ganran hon yn is na'r ganran a welwyd yn 2021 (**23.1%**).

## Canlyniadau ymchwiliadau a gwblhawyd yn 2022



## Canlyniadau tribiwnlysoedd y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd Ymarferwyr Meddygol

**Yn 2022, cynhaliodd y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd Ymarferwyr Meddygol 273 tribiwnlys at ei gilydd.**

| | |
|---|---|
| 37% | Mewn 101 achos, penderfynodd y tribiwnlys atal y meddyg a gyfeiriwyd at y tribiwnlys am gyfnod. |
| 24.9% | Mewn 68 achos, **tynnwyd enw'r meddyg oddi ar y gofrestr**. |
| 21.2% | Mewn 58 achos, nid oedd y tribiwnlys wedi canfod **unrhyw amhariad**. |
| 7.7% | Mewn 21 achos, er nad oedd y tribiwnlys wedi canfod unrhyw amhariad, penderfynodd **roi rhybudd**. |
| 6.6% | Mewn 18 achos, gosodwyd **amodau ar arfer y meddyg**. |
| 1.5% | Mewn 4 achos, canfuwd yr amharwyd ar arfer y meddyg, ond **ni chymrwyd unrhyw gamau pellach**. |
| 0.7% | Mewn 2 achos, **roedd meddygon wedi gwneud penderfyniad gwirfoddol i dynnu eu henw oddi ar y gofrestr**. |
| 0.4% | Mewn 1 achos, **cytunodd y meddyg ymrwymo i ymgymeriadau**. |

Pan na fyddwn yn cytuno gyda'r penderfyniadau a wneir gan dribiwnlys ymarferwyr meddygol, gallwn apelio yn eu herbyn.

Yn 2022, gwnaethom **10** apêl. Roedd hyn yr un fath â'r nifer a wnaethpwyd yn 2021. Bu **1** o'n hapeliadau yn aflwyddiannus, a chytunwyd ar **9** ohonynt ar ôl sicrhau caniatâd.

# Cyflawni ein strategaeth



# Ein strategaeth 2021–25

## Bydd pedair thema yn siapio ein holl waith, ac yn ein helpu i gyflawni ein gweledigaeth 10 mlynedd.




## Yr hyn y byddwn yn ei wneud i gyflawni hyn

Gyda'n gilydd, byddwn yn defnyddio'r bedair thema hon i siapio pob agwedd ar ein gwaith, gan gynnwys:

- rheoli cofrestr feddygol y DU ac ailddilysu
- gosod safonau ar gyfer arfer meddygol
- goruchwylio addysg a hyfforddiant meddygol
- ymchwilio i bryderon a gweithredu yn eu cylch.

## Sut y byddwn yn gweithio

Mae ein gwerthoedd yn ein helpu i wireddu ein strategaeth.

- Cydraddoldeb
- Uniondeb
- Rhagoriaeth
- Cydweithio
- Tegwch

Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn rhan annatod o'n holl waith fel rheolydd a chyflogwr.

## Lle'r ydym yn dymuno bod erbyn 2030

Ein gweledigaeth yw bod yn rheolydd amlbroffesiynol effeithiol, perthnasol a thosturiol ar gyfer cleifion, y cyhoedd a gweithwyr meddygol proffesiynol, ac fel cyflogwr.

Ym mis Tachwedd 2020, cyhoeddom ein strategaeth gorfforaethol 2021–25. Fel y cofnodwyd yn eang, mae'r sialensiau y mae maes gofal iechyd a'r proffesiwn meddygol wedi eu hwynebu ar ôl Covid wedi bod yn eithriadol. Felly, er bod yr uchelgais a bennom yn wreiddiol fel rhan o'n strategaeth yn parhau i fod yn berthnasol, rydym wedi asesu mewn ffordd ofalus sut y gallwn gyflawni yn ei herbyn, ac rydym wedi targedu ein hadnoddau at lai o weithgareddau a blaenoriaethau strategol yn fwriadol.

Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn rhan annatod o'n holl waith fel rheolydd ac fel cyflogwr, a gwelwyd y ffocws hwn yn cryfhau yn ystod 2022 wrth i ni ddysgu gwersi o'r pandemig a datblygiadau eraill.

## Cynnydd yn ystod 2022

Mae ein cynllun busnes tair blynedd, yr ydym yn ei adolygu bob chwarter, yn rhoi crynodeb o'r ffordd yr ydym yn targedu ein hadnoddau at ein gweithgareddau sy'n cael yr effaith fwyaf.

Mae ein hadroddiad ED&I: targedau, cynnydd a blaenoriaethau a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn disgrifio'r cynnydd a sicrhawyd yn ystod 2022 ar ein targedau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac fel rheolydd. Mae'r adroddiad yn dangos rhywfaint o gynnydd calonogol, a cheir tystiolaeth o'r ffaith bod gweithgarwch arwyddocaol yn digwydd ar draws systemau gofal iechyd y DU er mwyn rhoi sylw i anghymesureddau, gan ddynodi bod newid hirdymor yn bosibl. Er enghraifft, mae'r patrwm anghymesur o ran cyfeiriadau addasrwydd i ymarfer y byddwn yn eu cael gan gyflogwyr mewn perthynas ag ethnigrwydd meddyg a'r man lle y maent wedi cymhwyso, yn debygol o barhau i ostwng tuag at y targedau a osodom. Gallwn adrodd yn ochelgar bod pedwar o'r pum mesur addysg a hyfforddiant a nodom fel rhan o'n targedau yn dangos rhywfaint o welliant parhaus hefyd – yr eithriad yw pa mor barod y mae meddygon ar gyfer eu swydd gyntaf yn ystod eu blwyddyn sylfaen, a hunanadroddir ganddynt. Ac fel cyflogwr, mae'n debygol y bydd 20% o'n staff yn dod o gefndir ethnig lleiafrifol erbyn 2026 – ond mae angen gwneud gwaith pellach i gyflawni ein targed ynghylch cyflogeion o leiafrifoedd ethnig mewn rolau rheoli. Byddwn yn parhau gyda'n hymdrechion i gynorthwyo'r gwaith hwn.

Trwy gydol 2022, roeddem wedi parhau i gydweithio'n agos gydag Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth y DU ar ei newidiadau arfaethedig i'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu'r ffordd yr ydym ni a rheoleiddwyr gofal iechyd eraill yn gweithredu. Bydd diwygio rheoliadol yn ein helpu i ymateb yn gyflymach ac mewn ffordd fwy hyblyg i ddiogelu cleifion a chynorthwyo meddygon. Felly, mae'n hanfodol i gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer 2030 i fod yn rheolydd amlbroffesiynol effeithiol, perthnasol a thosturiol, yn ogystal â sicrhau cyflawniad mewn perthynas â'n thema strategol sef Sicrhau bod pob cyswllt yn bwysig.

Daeth adolygiad o degwch rheoliadol a gynhaliom yn 2022, ac adolygiad a ystyriodd achos addasrwydd i ymarfer penodol i'r casgliad bod tosturi, cymorth a thegwch yn hollbwysig ar gyfer rheoleiddio effeithiol, ar gyfer ein cofrestreion ac ar gyfer cleifion. Derbyniom argymhellion y ddau adolygiad yn llawn. Rydym naill ai wedi dechrau rhoi sylw iddynt trwy gyfrwng rhaglenni gwaith a oedd yn bodoli eisoes yn 2022, neu rydym yn cychwyn ar waith newydd i sicrhau ein bod yn cyflawni'r holl argymhellion ar draws y ddau adolygiad.

Roedd gan y sialensiau a'r ansicrwydd y mae systemau gofal iechyd y DU a'r proffesiwn meddygol yn eu hwynebu, rôl allweddol wrth siapio ein blaenoriaethau mewn perthynas â'n themâu strategol *Galluogi gweithwyr proffesiynol i ddarparu gofal diogel* a *Datblygu gweithlu meddygol cynaliadwy*. Mewn perthynas â nhw, canolbwyntiom ar flaenoriaethau megis y rhai canlynol yn ystod 2022:

- diweddaru ein prosesau cofrestru yn llwyddiannus er mwyn adlewyrchu diwedd y trefniadau Brexit digyfnewid
- gweithio i gynorthwyo newid deddfwriaethol, gan ganiatáu i ni addasu'r broses ymgeisio ar gyfer Tystysgrifau Cymhwystra ar gyfer Cofrestriad Arbenigol neu fel Meddyg Teulu, fel bod modd i feddygon nad ydynt yn cyflawni rolau hyfforddi ffurfiol ymgeisio hefyd
- ymgynghori'n helaeth ar yr adolygiad o'n canllaw *Arfer meddygol da*. Mae'r canllaw yn nodi'r safonau ar gyfer gofal cleifion ac ymddygiad proffesiynol a ddisgwylir gan yr holl weithwyr meddygol proffesiynol sydd wedi cofrestru gyda ni, ac roeddem yn dymuno sicrhau ei fod yn addas ar gyfer arfer yn y dyfodol. Gan gydnabod y pwysau aruthrol ar feddygon, diweddarom set yr adnoddau a gynigir trwy'r hyb moesegol ar ein gwefan hefyd, er mwyn cynnwys adran holi ac ateb newydd ynghylch sut i weithredu ein canllawiau yn ystod cyfnodau pan welir cryn alw am y gwasanaeth
- parhau i sicrhau cynnydd ar ddatblygiad yr Asesiad Trwyddedu Meddygol (ATM)
  Bydd yr ATM yn profi gwybodaeth graidd, sgiliau ac ymddygiad meddygon y mae ymarfer yn y DU yn brofiad newydd iddynt, gan gryfhau ein gallu i fonitro a chymeradwyo'r safon er mwyn sicrhau mynediad i'r proffesiwn meddygol gydag amser. O 2024, cyflwynir ATM i feddygon sydd wedi graddio mewn gwlad dramor. Bydd angen i fyfyrwyr sy'n graddio o ysgolion meddygol y DU o flwyddyn academaidd 2024-25 ymlaen basio'r asesiad newydd hefyd, fel rhan o'u rhaglen gradd, cyn y gallant ymuno â'r gofrestr.
- sicrhau bod tegwch yn rhan fwy canolog o'n gwaith: yn dilyn yr adolygiad tegwch rheoliadol a gynhaliwyd y llynedd, rydym yn datblygu cynllun gweithredu nawr er mwyn sicrhau tegwch a thryloywder ar draws yr holl benderfyniadau rheoliadol yr ydym yn eu gwneud, ac y maent yn cael effaith fawr.

Law yn llaw â hyn, rydym wedi parhau i ddatblygu a rhannu data, gwaith ymchwil, a dirnadaeth ynghylch addysg ac arfer meddygol er mwyn cynorthwyo datblygiad polisïau a chynlluniau gofal iechyd ehangach ar draws y DU. Amlygodd ein *Hadroddiad Cyflwr addysg ac arfer meddygol yn y DU 2022* y newid parhaus i gyfansoddiad y gweithlu meddygol, gan gynnwys cynnydd o 40% yn nifer y meddygon arbenigol ac arbenigol cyswllt (SAS) ac a gyflogir yn lleol (LE) dros y 5 mlynedd ddiwethaf, cynnydd mewn amrywiaeth ethnig, a'r ffaith bod y cydbwysedd yn newid rhwng recriwtio rhyngwladol a recriwtio o'r DU. Mae'r canfyddiadau hyn wedi cyfrannu at y ddadl ehangach ynghylch polisi, ac mae ganddynt oblygiadau pwysig ar gyfer gweithgarwch cynllunio y gweithlu.

Yn ogystal, llwyddom i sicrhau cynnydd ar thema *Buddsoddi yn ein pobl i ddarparu* ein strategaeth, gan ganolbwyntio ar y canlynol yn benodol:

- sicrhau gwelliannau o ran amrywiaeth ein pobl
- gweithio tuag at achrediad Aur *Buddsoddwyr mewn Pobl*
- rheoli pontio esmwyth i drefniant gweithio hybrid mewn swyddfa.

Rhoddir crynodeb o'n cynlluniau ar gyfer 2023 a thu hwnt yn ein cynllun busnes, sydd ar gael ar ein gwefan.

# Uchafbwyntiau ar draws y DU



# Uchafbwyntiau ar draws y DU

Mae ein timau allgymorth yn ymgysylltu'n uniongyrchol â meddygon, myfyrwyr, cyflogwyr, addysgwyr a rhanddeiliaid eraill yn systemau gofal iechyd y DU.

Yn Lloegr, trefnir y timau i adlewyrchu saith rhanbarth daearyddol GIG Lloegr: ac eithrio Llundain, mae pob tîm Allgymorth yn Lloegr yn cynnwys dau ranbarth GIG a'r systemau gofal integredig y maent yn eu goruchwylio.

Yng Nghymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon, mae'r timau yn gweithio ar draws y genedl honno.

Mae'r dull gweithredu hwn yn sicrhau bod pob rhanbarth neu genedl yn cael eu hystyried ar wahân, fel bod gweithgarwch ymgysylltu a pherthnasoedd cynhyrchiol yn digwydd ar y lefel gywir, trwy gyfrwng timau o faint effeithiol a hydrin.

Mae'r timau yn darparu:

- hyfforddiant am ein safonau a sut i'w gweithredu
- gwybodaeth am ein rôl
- gwybodaeth am y cymorth yr ydym yn ei ddarparu
- cyngor arbenigol am lywodraethu clinigol, diwylliant ac arweinyddiaeth, yn ogystal ag am faterion penodol neu achosion i swyddogion cyfrifol (ROs), clinigwyr sy'n cyflawni swyddi arwain, a'u cyflogwyr.

Yn yr adran hon o'r adroddiad, byddwn yn mynd ar daith o gwmpas y DU i amlygu rhywfaint o'r gwaith a gyflawnwyd gan y timau ar y cyd â phartneriaid yn ystod 2022. Mae pob eitem a amlygir yn helpu i ddangos ehangder ein gwaith allgymorth ac effaith gadarnhaol cymorth rheng flaen amserol ac wedi'i dargedu. Yn ogystal, mae'r enghreifftiau yn dangos gwerth meithrin perthnasoedd cryf a rhannu arbenigedd, gyda'r nod o hyrwyddo diogelwch cleifion a gwella amgylcheddau gwaith i feddygon.










# Cynorthwyo'r broses o ymsefydlu graddedigion meddygol rhyngwladol yn Lloegr

Gall fod nifer o wahaniaethau rhwng gwneud gwaith meddygol yn y DU ac mewn gwledydd tramor, ac mae'n gallu bod yn heriol i nifer gynyddol y meddygon sydd wedi sicrhau cymhwyster rhyngwladol ac sy'n ymuno â gweithlu meddygol y DU i addasu i wahanol ofynion ac i weithio mewn diwylliant newydd.

Er mwyn rhoi sylw i hyn, mae ein timau allgymorth yn cynnig nifer o weithdai a sesiynau i raddedigion meddygol rhyngwladol (GMRhion) a gynlluniwyd i'w helpu i setlo yn eu rolau newydd o fewn systemau gofal iechyd y DU – gan gynnwys ein gweithdai *Croeso i arfer yn y DU*. Mae'r digwyddiadau hanner diwrnod hyn yn cynnig gwybodaeth i feddygon am systemau gofal iechyd y DU, canllawiau ymarferol am wahanol sefyllfaoedd moesegol y byddant yn dod ar eu traws efallai, a chyfleoedd rhwydweithio.

Gan ddatblygu hyn, yn Lloegr, rydym wedi bod yn cydweithio'n agos gyda phartneriaid i ddatblygu cynnig ymsefydlu cynhwysfawr ar gyfer GMRhion, yn ogystal â meddygon sy'n dychwelyd i ymarfer ar ôl cymryd seibiant. Fel rhan o hyn, gweithiom gyda Health Education England (HEE) yn flaenorol i gyd-gynhyrchu eu darpariaeth ymsefydlu i'r rhai a oedd yn dychwelyd, sef *Career Refresh for Medicine*. Ac er 2019, rydym wedi bod yn gweithio gyda thîm Safon Cydraddoldeb Hil Gweithlu Meddygol GIG Lloegr, Cymdeithas Feddygol Prydain (BMA), Cymdeithas Gwarchod Meddygol a HEE i ddatblygu *Croesawu a Gwerthfawrogi Graddedigion Meddygol Rhyngwladol*, sef dull gweithredu newydd sy'n pennu safonau gofynnol ar gyfer ymsefydlu GMRhion. Mae'r pecyn ymsefydlu newydd yn cynnig:

- croeso cynhwysfawr i'r DU
- gogwydd leol
- cymorth ynghylch byw yn y DU, sy'n rhoi sylw i faterion megis cyfrifon banc, siopa a llety
- cyflwyniad i GIG, a gwybodaeth am ei systemau cyfrifiadurol.
- modiwlau cyfathrebu
- modiwlau penodol ar gyfer arbenigeddau meddygol
- ein gweithdy *Croeso i arfer yn y DU*.

Trwy gydol 2022, gweithiom yn agos gyda'n partneriaid i beilota a gwerthuso'r rhaglen ymsefydlu arfaethedig a chynhyrchu fersiwn terfynol i'w lansio. Yn ogystal, cysylltom ag arweinwyr gofal iechyd a chydweithiom gyda sefydliadau meddygon i godi proffil y fenter, gan sicrhau bod yr angen am y dull gweithredu newydd hwn yn cael lle amlwg ar yr agenda genedlaethol.

Lansiwyd y ddarpariaeth ymsefydlu ym mis Mehefin 2022, ac rydym wedi cael adborth cadarnhaol am y gwahaniaeth y mae wedi'i wneud gan GMRhion a chan gyflogwyr sy'n defnyddio'r rhaglen. Ein huchelgais yw y bydd pob cyflogwr yn Lloegr ac ar draws y DU yn cyflwyno hwn er mwyn sicrhau bod carfannau cynyddol y GMRhion sy'n ymuno â'r gweithlu meddygol yn cael eu croesawu a'u cynorthwyo trwy gydol eu taith wrth ymarfer yn y DU.



# De Lloegr

## Gwneud y peth iawn ar gyfer meddygon locwm

Mae meddygon locwm yn allweddol er mwyn galluogi darparwyr gofal iechyd i reoli'r galw am y gwasanaeth mewn ffordd hyblyg ac effeithiol. Mae eu niferoedd wedi bod yn tyfu'n gyson ar draws y DU.

O ganlyniad i natur eu rôl, gall meddygon locwm wynebu rhai sialensiau unigryw. Fel y nodwyd mewn gwaith ymchwil a gyhoeddom yn 2018, rhaid iddynt integreiddio'n gyflym mewn timau y gallai eu harferion gwaith a'u hamgylchedd fod yn wahanol i'r hyn y maent wedi'i brofi yn flaenorol. Efallai na fydd eu gweithgarwch ymsefydlu wastad mor gynhwysfawr ag y mae ar gyfer meddygon eraill, ac fel y mae tystiolaeth yn ein hymchwil *Teg Cyfeirio?* yn dangos, gall symud i dimau newydd yn gyson beri iddynt deimlo'n ynysig neu heb gymorth, ac mewn perygl anghymesur o gael eu cyfeirio.

Yn 2022, gwnaeth ein tîm allgymorth yn Ne Lloegr nifer o ymdrechion wedi'u targedu i wella'r cymorth ar gyfer meddygon locwm a'u cyflogwyr, gan gynnwys trafodaeth strwythuredig gydag ROs a gweithgarwch ymgysylltu wedi'i dargedu yn ystod cyfarfodydd rhwydwaith RO.

Roedd y canlyniadau cadarnhaol o'r gwaith hwn yn cynnwys:

- arweinydd meddygol o Ynysoedd y Sianel yn creu proses cyfweliad ymadael ar gyfer pob meddyg locwm, sy'n caniatáu i sefydliadau gael dirnadaeth o'u profiadau, rhoi adborth am berfformiad, a meithrin diwylliant o fyfyrio a dysgu i bawb
- RO o'r siroedd cartref yn gweithio gyda'u rheolwr staffio meddygol i ddatblygu protocol gweithredol safonol ar gyfer meddygon locwm. Nod y broses yw cynnig profiad gwell i feddygon locwm, a'u helpu i weithio mewn ffordd ddiogel. Er enghraifft, fel rhan o'r protocol, rhaid llenwi rhestr gyfeirio ymsefydlu ffurfiol nawr cyn y penodir locwm asiantaeth, sy'n cynnig sicrwydd gan y rheolwr gwasanaeth perthnasol y caiff mesurau priodol eu cymryd i'w cynorthwyo.

Mae'r cymorth a ddarparir gan ein tîm allgymorth yn Ne Lloegr yn rhan o raglen waith ar draws y DU y mae ein timau allgymorth wedi ei gweithredu ar draws y DU i gynorthwyo meddygon locwm, asiantaethau a'r rhai sy'n comisiynu gwasanaethau locwm. Fel rhan o'r rhaglen hon:

- mae ein cynghorwyr cyswllt cyflogwyr bellach yn trafod y cam o derfynu contractau locwm yn gynnar gydag ROs



- mae ein cynghorwyr cyswllt rhanbarthol a chenedlaethol yn cyflwyno gweithdai cefnogol i feddygon locwm, gan gynnwys ymsefydlu a chymorth ynghylch meysydd heriol megis codi eu llais
- rydym yn datblygu deunyddiau hyfforddi i staff asiantaeth locwm am y cymorth y gallwn ei ddarparu fel rheolydd ac am ein gwaith addasrwydd i ymarfer.







# Llundain

## Gweithio gyda'r sector annibynnol i wella diogelwch cleifion a lles meddygon

Mae'r sector annibynnol yn cyflogi nifer arwyddocaol o feddygon ar draws y DU, ac mae'n amrywiol iawn o ran y gwasanaethau y mae'n eu darparu a maint y sefydliadau dan sylw. Er bod mwyafrif y meddygon yn gweithio o fewn GIG yn bennaf, mae gan nifer ohonynt ail rolau mewn sefydliadau annibynnol. Ac o ystyried y pwysau presennol ar GIG, mae gan y sector preifat rôl i'w chyflawni wrth gynorthwyo adferiad gofal iechyd. Gan bod pencadlys nifer o sefydliadau gofal iechyd preifat mawr yn Llundain, mae ein tîm allgymorth yn Llundain wedi meithrin cysylltiadau cryf gyda'r sector annibynnol, ac mae wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid yn y sector i barhau i ddiogelu a gwella diogelwch cleifion.

Er enghraifft, cyfrannodd ein cynghorwyr cyswllt cyflogwyr ar gyfer yr ardal at ddatblygiad Fframwaith Sicrwydd Ymarferwyr Meddygol y Rhwydwaith Darparwyr Gofal Iechyd Annibynnol (IHPN). Y Fframwaith yw'r canllaw cynhwysfawr cyntaf i lywodraethu clinigol effeithiol ar gyfer ymgynghorwyr yn y sector preifat. Mae'n annog strwythur llywodraethu clinigol 'ward-i-fwrdd' gyda llinellau atebolrwydd clir i fyny ac i lawr y sefydliad. Yn ogystal, mae'n safoni sut y dylid rhoi sylw i faterion perfformiad a'r prif ffyrdd y mae sefydliadau yn recriwtio ac yn contractio meddygon.

Gan bod nifer o feddygon yn gweithio yn GIG ac yn y sector annibynnol, pan lansiwyd y Fframwaith, rhoddodd ein timau allgymorth ddiweddariad i'r holl sefydliadau sy'n gyfrifol am arfarnu ac ailddilysu meddygon hefyd (a elwir yn Gyrff Dynodedig) ar draws y DU am y ffaith ei fod yn cael ei gyflwyno,

gan estyn gwahoddiad i ROs ei drafod.

Ar drywydd tebyg, estynnwyd gwahoddiad hefyd i un o'n cynghorwyr cyswllt cyflogwyr i rannu gwybodaeth ac arbenigedd ynghylch delio â chwynion mewn sesiwn a drefnwyd gan IHPN, law yn llaw â siaradwyr o'r Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd a Gwasanaeth Dyfarnu Cwynion y Sector Annibynnol. Roedd hyn wedi ein galluogi i rannu ein safbwyntiau a'n hargymhellion am reoli pryderon yn gynnar ac mewn ffordd deg gyda chynulleidfa eang ac arbenigol iawn.

Yn aml, gall delio â chwynion yn dda ac yn gynnar roi sylw effeithiol i bryderon cleifion trwy eu datrys yn lleol, a bydd hyn yn y pen draw yn gostwng nifer y pryderon a fynegir i ni. Heb os, mae hyn yn cael effeithiau cadarnhaol ar ddiogelwch cleifion ac ar les meddygon, felly mae'n rhywbeth yr ydym wastad yn ei gefnogi yn awyddus trwy ein gwaith.



# Canolbarth a Dwyrain Lloegr

## Cynorthwyo darparwr Meddygon Teulu i weithredu arfer gorau a diogelu diogelwch cleifion

Ym mis Mehefin 2022, darlledodd rhaglen Panorama y BBC am ymchwiliad i ddarparwr annibynnol mwyaf gwasanaethau Meddygon Teulu GIG yn y DU. Y darparwr hwn yw cyflogwr mwyaf cymdeithion meddygol (CMion) ym maes gofal sylfaenol hefyd. Gwnaethpwyd sawl honiad gan yr ymchwiliad, gan gynnwys pryderon am drosolwg, goruchwyliaeth a llwythi gwaith CMion.

Roedd hyn wedi codi pryderon i ni, yn enwedig ynghylch y rôl oruchwylio a chymorth a gyflawnir gan rai meddygon sy'n gweithio i'r sefydliad.

Roedd cynghorydd cyswllt cyflogwyr yn ein tîm allgymorth ar gyfer Canolbarth a Dwyrain Lloegr wedi troi at RO y sefydliad. Cawsant drafodaeth fanwl am y materion a godwyd yn rhaglen y BBC a sut y gallai'r materion hyn effeithio ar ddiogelwch cleifion.

Roedd yr RO yn agored am y sialensiau o ddarparu gofal sylfaenol, gan gynnwys absenoldeb salwch a phrinder staff, ond cadarnhaodd bod cynlluniau parhad busnes yn bodoli a gynlluniwyd i roi sylw i'r materion hyn. Cadarnhaont hefyd bod cynllun gweithredu wedi cael ei gytuno gyda'r grŵp comisiynu clinigol lleol i roi sylw i'r pryderon a fynegwyd yn ymchwiliad Panorama, a bod y Comisiwn Ansawdd Gofal wedi cytuno bod y darparwr yn sicrhau cynnydd da gyda'r cynllun.

Canlyniad allweddol y sgwrs, fodd bynnag, oedd ei bod wedi arwain at ymgysylltu uniongyrchol rhwng RO y darparwr, ei Brif Swyddog Meddygol

a chydweithwyr CMC sy'n gweithio ar gyflwyno'r broses o reoleiddio CMion.

Roedd y materion a drafodwyd yn cynnwys arfer gorau mewn perthynas â threfniadau llywodraethu, datblygu gyrfa, a chwmpas arfer, a bwriedir cael cyswllt pellach wrth i'r gwaith o weithredu'r broses o reoleiddio cymdeithion meddygol a chymdeithion anesthesia ddatblygu.

Mae hyn yn dangos gwerth ein gwaith allgymorth: ymyriadau cymesur ac wedi'u targedu ar y rheng flaen a gynlluniwyd ar sail anghenion sefydliadau gofal iechyd, gan ymateb yn gyflym yn aml i faterion a godir yn y newyddion neu trwy sianelau eraill, gyda'r nod yn y pen draw o wella amgylcheddau gwaith a diogelu diogelwch cleifion.



# Gogledd Lloegr

## Estyn allan i grwpiau amrywiol

Daeth yr ymgynghoriad am yr adolygiad o'n canllaw *Arfer meddygol da* i ben ym mis Gorffennaf 2022. Cawsom ymateb cadarnhaol iawn, wrth i ychydig dros 4,600 o unigolion gymryd rhan o bob cwr o'r DU.

Mae'r egwyddorion yn y canllaw yn berthnasol i bob meddyg, beth bynnag fo eu rôl, eu lefel, eu maes arbenigol neu'r sector y maent yn gweithio ynddo, a byddant yn berthnasol i gymdeithion meddygol a chymdeithion anesthesia hefyd ar ôl i ni ddechrau rheoleiddio'r proffesiynau hyn.

Oherwydd pwysigrwydd y canllaw, roeddem yn dymuno i'r ymgynghoriad gyrraedd cynulleidfa mor eang ag y bo modd. Cyflawnodd ein tîm allgymorth rôl allweddol yn hyn o beth.

I'n tîm allgymorth CMC ar gyfer Gogledd Lloegr, bu cynnal gweithdai a digwyddiadau am y canllaw newydd yn gyfle gwych i ymgysylltu ag ystod amrywiol o randdeiliaid, gan gynnwys grwpiau ethnig lleiafrifol penodol.

Fel rhan o'r gwaith hwn, cynhaliodd un o'n cynghorwyr cyswllt rhanbarthol ymgynghoriad gyda Chymdeithas Meddygon Iau o'r Swdan y DU, gan ddarparu dwy sesiwn am y canllaw newydd yng nghynhadledd flynyddol Cymdeithas Gofal Sylfaenol Prydeinig o'r Swdan ym Manceinion. Yn ogystal, arweiniom drafodaethau am y canllaw newydd gyda Chymdeithas Feddygol Islamaidd Prydain, a arweiniodd at greu podlediad ar y cyd â'r gymdeithas. Roedd y gweithgareddau hyn wedi gwneud cyfraniad arwyddocaol at feithrin partneriaethau gyda grwpiau amrywiol yng ngogledd Lloegr, a disgwyliwn i'r partneriaethau hyn ddatblygu ymhellach dros y blynyddoedd nesaf.

Mae gwaith ein tîm allgymorth CMC ar gyfer Gogledd Lloegr yn y maes hwn yn adlewyrchu ein dull gweithredu ar draws y DU. O ganlyniad i'n ffocws ar sicrhau lleisiau amrywiol, roedd ein timau ar draws y DU wedi:

- darparu 200 o weithdai ymgynghori, yr oedd 50% ohonynt yn cynnwys grwpiau ethnig lleiafrifol
- manteisio ar arbenigedd sefydliadau meddygon megis y Ffederasiwn Menywod Meddygol; Cymdeithas Meddygon a Deintyddion Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol, Trawsryweddol, Cwestiyngar ac Eraill; a Chymdeithas Prydain ar gyfer Meddygon o Dras Indiaidd.

Yn 2023, byddwn yn ymgysylltu â'r rhain a gyda phartneriaid eraill er mwyn helpu i weithredu'r canllawiau newydd y maent oll wedi helpu i'w siapio.



# Gogledd Iwerddon

## Cynorthwyo meddygon a myfyrwyr meddygol gyda'u defnydd o gyfryngau cymdeithasol

Nid yw'r safonau a ddisgwylir gan feddygon yn newid oherwydd eu bod yn cyfathrebu trwy gyfryngau cymdeithasol yn hytrach na wyneb yn wyneb neu trwy gyfryngau traddodiadol, ond gall sialensiau newydd godi. Dyma pam ein bod yn cynnig canllaw am ddefnydd meddygon o gyfryngau cymdeithasol hefyd fel rhan o'n gwaith.

Er mwyn helpu i weithredu'r canllaw hwn, mae ein timau allgymorth yn ymgysylltu'n rheolaidd â meddygon a myfyrwyr meddygol, gan gynnig sesiynau rhyngweithiol rhith neu wyneb yn wyneb sy'n rhoi sylw i faterion megis:

- defnyddio negeseuon gwib
- cleifion yn recordio ymgynghoriadau ac yn eu rhannu ar gyfryngau cymdeithasol
- mynegi barn ar gyfryngau cymdeithasol
- cynnal terfynau proffesiynol
- diogelu cyfrinachedd cleifion.

Mae'n bwysig hefyd bod myfyrwyr meddygol, fel meddygon yfory, yn ymwybodol o'r manteision a'r peryglon sy'n gysylltiedig â defnyddio cyfryngau cymdeithasol. Mae hyn yn berthnasol i waith meddygol yn gyffredinol ond hefyd, mae'n ymwneud â'u rôl fel myfyrwyr.

Gwelwyd yr angen am ganllawiau clir ynghylch defnyddio cyfryngau cymdeithasol i fyfyrwyr pan gysylltodd Prifysgol y Frenhines Belfast â'n tîm allgymorth yng Ngogledd Iwerddon gan ofyn iddynt ddarparu canllawiau i'w myfyrwyr am y pwnc.

Gan ymateb, cyflwynodd un o'n cynghorwyr cyswllt sesiwn ryngweithiol am ein canllaw i fyfyrwyr trydedd blwyddyn y brifysgol, gan dargedu'r garfan hon gan eu bod ar fin cychwyn ar eu lleoliadau clinigol cyntaf. Rhoddwyd sylw i sawl sefyllfa yn y sesiwn, gan gynnwys:

- sut i ddelio â chleifion sy'n dymuno cysylltu dros gyfryngau cymdeithasol
- cyngor ynghylch rhannu ffotograffau y gallent gynnwys manylion cleifion ar apiau negeseua a chyfryngau cymdeithasol yn ddiofal
- ymdopi gyda beirniadaeth ar gyfer meddygon neu weithwyr meddygol proffesiynol eraill ar gyfryngau cymdeithasol
- pwysigrwydd cynnal hyder cleifion a'r cyhoedd yn y proffesiwn meddygol wrth bostio ar gyfryngau cymdeithasol.







Bu'r adborth gan fyfyrwyr a staff y brifysgol yn gadarnhaol iawn. Roeddent yn teimlo bod yr astudiaethau achos a gyflwynwyd yn berthnasol iawn, a bod y trafodaethau ynghylch sut i reoli'r sefyllfaoedd hyn yn paratoi myfyrwyr yn dda ar gyfer arfer clinigol.

Darparir y sesiwn newydd a rhyngweithiol hon fel rhan safonol o'n gweithgarwch ymgysylltu gyda myfyrwyr meddygol yng Ngogledd Iwerddon nawr, gan ychwanegu at y cymorth yr ydym yn ei ddarparu i feddygon a myfyrwyr meddygol ar draws y DU ynghylch defnyddio'r offerynnau cyfathrebu hefyd. Yn ogystal, rydym yn aml yn cyfeirio myfyrwyr meddygol at ein cyngor ynghylch defnyddio cyfryngau cymdeithasol trwy gyfrwng sianelau cyfathrebu eraill, gan gynnwys e-gylchlythyrau a deunydd a gaiff ei bostio ar gyfryngau cymdeithasol, a thema ein cystadleuaeth proffesiynoldeb myfyrwyr flynyddol oedd 'Sut i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol mewn ffordd ddiogel a phroffesiynol.'

# Yr Alban

## Cynorthwyo partneriaid gyda chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Ers i ni gyflwyno targedau penodol ynghylch cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (ED&I) yn 2021, mae ein timau rheng flaen a pholisi ar draws y DU wedi bod yn gweithio tuag at y nodau hyn, gyda'r nod o gynorthwyo diwylliannau gwaith teg a chynhwysol.

Mae anghydraddoldebau ac allgáu yn faterion systemig fel arfer, felly mae cryn dipyn o'n gwaith wedi canolbwyntio ar gynorthwyo partneriaid ar draws systemau gofal iechyd y DU i roi sylw i broblemau o'r fath.

Fel rhan o hyn, yn 2022, bu ein tîm yn yr Alban:

- yn rhannu data am ED&I gyda Llywodraeth yr Alban, cyrff addysg a sefydliadau cynrychioliadol meddygol, er mwyn helpu i gyfrannu at a siapio penderfyniadau polisi
- daethant ynghyd gyda Fforwm Lleiafrifoedd Ethnig Cenedlaethol GIG a Fforwm Cydraddoldebau Hil BMA Yr Alban i greu Gweithgor ar y Cyd Diwylliannau Gwaith Tecach Yr Alban. Mae'r Grŵp yn canolbwyntio ar wella tegwch hyfforddiant gofal iechyd ac amgylcheddau gwaith i feddygon a GMRhion o leiafrifoedd ethnig yn Yr Alban.

Ac eithrio gwaith ar draws y system, mae ein timau allgymorth ar draws y DU yn darparu ymyriadau wedi'u targedu hefyd.

Er enghraifft, mewn un achos, hysbyswyd ein swyddfa yn yr Alban o achos lle'r oedd myfyrwyr meddygol Du ac o Leiafrifoedd Ethnig (BME) yn wynebu gwahaniaethu yn ystod eu lleoliadau clinigol mewn Bwrdd Iechyd yn yr Alban. Mae hyn yn annerbyniol, felly gan ymateb, penderfynodd ein tîm allgymorth droi at yr Hyrwyddwr ED&I yn y Bwrdd er mwyn cynnig cymorth i'w gwaith er mwyn rhoi sylw i broblemau diwylliannol ymhlith y staff. Daeth y cymorth ar ffurf ein cynghorwyr cyswllt yn darparu cyfres o sesiynau i fyfyrwyr, hyfforddeion, ymgynghorwyr a grwpiau cydraddoldebau yn y Bwrdd, gan ddelio â phynciau a oedd yn ymwneud â rhoi sylw i broblemau diwylliannol, er enghraifft mynegi pryderon ac arfer myfyriol ar gyfer tîm. Yn ogystal, darparodd y tîm sesiynau ynghylch gweithredu argymhellion ymchwil *Teg cyfeirio?* a gomisiynwyd gennym ynghylch anghymesuredd mewn cyfeiriadau i CMC ar sail cefndir ethnig.

Fel rhan o'n dull gweithredu ar gyfer gwerthuso, cyn ac ar ôl y sesiynau, gofynnwyd i gyfranogwyr nodi a oeddent yn teimlo'n obeithiol am y ffaith y byddai sylw yn cael ei roi i gyfeirio anghymesur meddygon BME a GMRh.



Fel arfer, gwelwyd cynnydd yng nghanran y rhai a ddywedodd eu bod yn obeithiol ar ôl y sesiynau hyn. Er enghraifft, mewn un achos, dim ond 12% oedd yn cytuno cyn y sesiwn, o'i gymharu â 45% ar ddiwedd y sesiwn. Mewn achos arall, gwelwyd y ganran a oedd yn cytuno yn codi o 25% i 78%.

Ers hynny, mae'r sesiynau hyn wedi cael eu cynnwys yng ngwaith ED&I y Bwrdd, a bydd ein tîm allgymorth yn parhau i'w cynorthwyo nhw ac unrhyw un arall gyda'u gwaith ED&I wrth symud ymlaen. Yn ogystal, rhannwyd gwybodaeth am y gwaith hwn a'i effaith gyda thimau Allgymorth eraill ar draws y DU, fel y gallant ddefnyddio'r hyn a ddysgont o'r gweithgareddau hyn mewn gweithgareddau ymgysylltu yn eu hardaloedd nhw, fel rhan o'n gwaith ED&I cyffredinol.




# Cymru

## Cynorthwyo myfyrwyr meddygol ac addysgwyr yng ngogledd Cymru

Ar hyn o bryd, nid oes ysgolion meddygol yng ngogledd Cymru, ac yn draddodiadol, mae darpar fyfyrwyr o'r ardal wedi gorfod teithio neu symud i ardaloedd eraill i astudio meddygaeth – er enghraifft i Brifysgol Caerdydd neu Brifysgol Abertawe.

Er 2019, fodd bynnag, mae rhaglen astudio benodedig o'r enw C21 wedi cynnig y dewis i fyfyrwyr meddygol ym Mhrifysgol Caerdydd i astudio pedair blynedd o'u gradd MBBCh yn yr Ysgol Gwyddorau Meddygol ym Mhrifysgol Bangor yng ngogledd Cymru. Yn y cyfamser, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid gan gynnwys Prifysgol Bangor, Prifysgol Caerdydd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i sefydlu ysgol feddygol newydd yn y rhanbarth, a disgwylir i hon agor yn 2024.

Er mwyn paratoi ar gyfer a chynorthwyo'r datblygiadau hyn, yn ystod 2022, bu ein cynghorydd cyswllt ar gyfer gogledd Cymru yn gweithio gyda Phrifysgol Bangor i ddarparu sesiynau rhyngweithiol wedi'u teilwra i fyfyrwyr ar raglen C21 a oedd yn ystyried pynciau amrywiol, megis ein rôl fel rheolydd; ein safonau, ein harweinyddiaeth a'n rheolaeth; a mythau a'r realiti ynghylch ein gwaith addasrwydd i ymarfer.

Bu'r sesiynau yn gam allweddol cyntaf mewn cyfres o ymdrechion i feithrin a datblygu perthnasoedd cryf gyda myfyrwyr meddygol a staff addysg feddygol yn y rhanbarth, a chawsant adborth cadarnhaol iawn.

Byddwn yn parhau i weithio gydag Ysgol Gwyddorau Meddygol Bangor a gydag addysgwyr





a myfyrwyr yng ngogledd Cymru ar raglen C21, gan gynnwys ar y broses ymgeisio. Yn ogystal, byddwn yn parhau i gynnig ein cyngor a'n harbenigedd er mwyn helpu'r ysgol wrth iddi bontio i sicrhau statws ysgol feddygol lawn, a fydd yn caniatáu i fyfyrwyr gwblhau gradd feddygol gyflawn yng Ngogledd Cymru.



“Diolch o galon am yr addysgu a ddarparoch ddoe i'r myfyrwyr C21NW. Cyfarfûm â'r myfyrwyr fore heddiw ac roeddent o'r farn y bu'r sesiwn yn ddefnyddiol ac yn ddiddorol iawn.”

**Dr Nia Jones, Uwch-ddarlithydd Clinigol mewn Addysg Feddygol (Gofal Sylfaenol ac Arweinydd Blwyddyn 5), Prifysgol Bangor.**

# Cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol



# Cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol

Rydym yn ymdrechu i fod yn sefydliad cymdeithasol gyfrifol. Rydym yn dymuno ymwreiddio cynaladwyedd, effaith gymdeithasol a moeseg ym mhopeth a wnawn. O fentrau unigol i weithgareddau bob dydd, byddwn yn ceisio cyflawni ein gwaith mewn ffordd sy'n cynnig budd i'r amgylchedd ac i gymdeithas.

Yn 2022, llwyddom i sicrhau cynnydd gyda'n hagenda cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol (CSR) mewn sawl ffordd.

## Diogelu'r amgylchedd

- O ystyried y ffaith mai ein diben yw diogelu'r cyhoedd, mae'n allweddol ein bod yn cyflawni ein rhan wrth fynd i'r afael â newid hinsawdd hefyd.

Yn 2022, cyhoeddom ein huchelgais i fod yn sefydliad sero net erbyn 2040. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi cymryd sawl cam ar y daith hon, gan gynnwys lansio rhaglen ymgysylltu â'r staff, a gweithio i gyfrifo ein hôl troed carbon.

Mae'n bwysig nodi bod cyfrifo ein hôl troed carbon wedi caniatáu i ni ddatblygu cynllun sero net ar gyfer y sefydliad. Mae'r cynllun yn nodi'r hyn y byddwn yn ei wneud dros y blynyddoedd nesaf i gyrraedd allyriadau sero net a mynd i'r afael â newid hinsawdd. Mae'n nodi targedau er mwyn lleihau ein hôl troed carbon, gan waredu allyriadau cwmpas 1 a 2 erbyn 2030, a chwmpas 3 erbyn 2040.

Bydd gan bawb yn y sefydliad rôl i'w chyflawni wrth ein helpu i sicrhau sero net, ac edrychwn ymlaen i weithio gyda chydweithwyr ac eraill er mwyn ein helpu i wireddu'r nod bwysig hon.

# Cynorthwyo'r gymuned

- Buom yn gweithio mewn partneriaeth â Chynllun Cyfeillio y Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol. Mae cyfeillachwyr gwirfoddol yn gwneud galwadau ffôn wythnosol i bobl sydd mewn perygl o fod yn unig neu'n ynysig. Mae'r cynllun yn cynnig cymorth amhrisiadwy i bobl oedrannus, ac mae nifer o'n gwirfoddolwyr wedi meithrin cysylltiadau hirhoedlog. Gan bod y rhaglen wedi bod mor llwyddiannus, bwriadwn ei hymestyn a chynyddu nifer ein gwirfoddolwyr dros y flwyddyn nesaf.

> "Gall galwad syml wneud cymaint o wahaniaeth i ddiwrnod rhywun. Rydw i wrth fy modd fy mod yn gallu rhoi gwên ar wyneb rhywun."
>
> **Salma, Cyfreithiwr dan Hyfforddiant a chyfeillachwr gwirfoddol**

- Mae nifer o'n cydweithwyr wedi parhau i gymryd rhan yn ein cynllun darllen gwirfoddol. Mae'r gwirfoddolwyr yn treulio amser ddwywaith yr wythnos yn darllen gyda myfyrwyr uwchradd y mae angen cymorth ychwanegol arnynt gyda llythrennedd. Rydym wedi gweld canlyniadau trawiadol ymhlith cyfranogwyr y rhaglen, wrth i rai myfyrwyr ddangos gwelliannau yn eu hoedran darllen o hyd at saith mlynedd.
- Yn ogystal, gweithiom mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Llythrennedd Cenedlaethol, a drefnodd ac a gydlynodd tri digwyddiad darllen llyfrau mewn ysgolion cynradd mewn ardaloedd difreintiedig ym Manceinion Fawr. Croesawyd y rhain hefyd, ac mae rhai gwirfoddolwyr CMC o'r digwyddiadau hyn wedi parhau eu rôl gwirfoddoli yn eu hamser eu hunain.

## Hyrwyddo symudedd cymdeithasol

- Fel rhan o'n hymrwymiad i CSR a chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, ehangom ein cynnig prentisiaethau. Mae prentisiaethau yn cynnig cyfleoedd gyrfa cyffrous ac amrywiol i'r rhai nad ydynt wedi cael mynediad i addysg bellach efallai neu y byddent yn cael budd arbennig o gael hyfforddiant yn y swydd. O 2023, byddwn yn recriwtio 20 o brentisiaid newydd neu fwy bob blwyddyn ar draws adrannau lluosog, a bydd o leiaf 50% o'r rhain yn dod o grwpiau ethnig lleiafrifol.

> “Mae rhaglen CMC wedi bod yn gymaint o help i mi. Mae'r cymorth a gefais ar bob cam o'r daith wedi fy mharatoi am weddill fy oes.”

**Oliver, Peiriannydd Cymorth Darparu ac Awtomeiddio**

- Mae ehangu cyfranogiad mewn addysg feddygol yn parhau i fod yn flaenoriaeth i ni. Rydym yn dymuno i bobl ifanc gael siawns deg a chyfartal o fod yn feddygon y dyfodol. Felly, rydym yn gweithio gyda sefydliadau sy'n cynorthwyo pobl ifanc o gefndiroedd llai breintiedig. Yn ystod yr haf, gweithiom gyda'n partneriaid yn y Sefydliad Symudedd Cymdeithasol i gynnal digwyddiadau wedi'u hanelu at ddarpar feddygon y dyfodol. Cafwyd adborth cadarnhaol am y rhaglen gan y sawl a fynychodd.

> “Roeddwn yn gallu gweld yr hyn y gallwn fod yn y dyfodol a chael syniad mwy clir o'r rheswm pam bod cymaint o bobl yn rhan o'r maes meddygol. Mwynheais wrando ar y cymrawd clinigol a fu'n sôn am ei phrofiad fel anesthetydd hefyd, gan fy mod teimlo yr hoffwn i fod yn union fel hi.”

**Cyfranogydd mewn digwyddiad y Sefydliad Symudedd Cymdeithasol**

## Meincnodi a gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo CSR

- Rydym yn parhau i weithio gyda Busnes yn y Gymuned, gan ddefnyddio eu cyfleuster Olrhain Busnes i feincnodi ein gwaith CSR. Mae'r cyfleuster olrhain yn caniatáu i ni fesur ein cynnydd o'i gymharu â sefydliadau eraill.

- Yn ogystal, sefydlom grŵp CSR ar draws rheoleiddwyr, sy'n cynnwys y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, y Cyngor Fferyllol Cyffredinol, y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal, a Gofal Cymdeithasol Lloegr. Cyfarfu'r grŵp ddwywaith yn ystod y flwyddyn, gan drafod materion amgylcheddol a datblygiad polisïau i gyflawni targedau sero net.



# Ein strwythur, ein trefniadau llywodraethu a'n gweithgarwch rheoli

## Y Cyngor a grwpiau llywodraethu eraill

Y Cyngor yw ein corff llywodraethu. Mae'n cynnig cyfeiriad strategol, yn sicrhau bod y swyddogion gweithredol yn atebol, ac mae'n gwneud penderfyniadau polisi mawr ar lefel uchel. Mae'n cynnwys deuddeg aelod o bedair gwlad y DU. Mae chwech ohonynt yn aelodau meddygol a chwech ohonynt yn aelodau lleyg.

Rydym yn elusen gofrestredig ac mae aelodau ein Cyngor yn ymddiriedolwyr y sefydliad hefyd.

Fe'u penodir i gyd yn annibynnol gan y Cyfrin Gyngor, trwy gyfrwng proses sy'n dilyn canllawiau'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ynghylch gwneud penodiadau i gyrff rheoliadol gweithwyr proffesiynol gofal iechyd.

Yr ymddiriedolwyr rhwng 1 Ionawr 2022 a 31 Rhagfyr 2022 oedd:

- Mr Steve Burnett
- Dr Vanessa Davies
- Athro Anthony Harnden
- Y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Hunt o Kings Heath PC
- Athro Paul Knight
- Athro Bonesig Carrie MacEwen
- Athro Deepa Mann-Kler
- Dr Raj Patel
- Miss Suzanne Shale
- Miss Alison Wright.*

Bu Bonesig Carrie MacEwen yn Gadeirydd Dros Dro y Cyngor rhwng mis Ionawr a mis Mai 2022, ar ôl iddi gael ei phenodi i'r rôl ar ôl i Bonesig Clare Marx ymddiswyddo oherwydd afiechyd ym mis Gorffennaf 2021. Yn dilyn proses recriwtio agored, ym mis Mai 2022, penodwyd Bonesig Carrie yn Gadeirydd, ac mae hi wedi bod yn arwain y Cyngor ers hynny.

Ym mis Tachwedd 2022, bu farw Bonesig Clare Marx o ganser y pancreas yn ei chartref yn Suffolk. Bu'n eiriolwr diflino dros yr arweinyddiaeth sy'n ofynnol er mwyn sicrhau newid yn ein gwasanaethau iechyd, a hi oedd y fenyw gyntaf i fod yn Gadeirydd y Cyngor ers y sefydlwyd CMC ym 1858. Cyn ymgymryd â'r rôl, hi oedd Llywydd benywaidd cyntaf Cymdeithas Orthopedig Prydain (2008-09) a Choleg Brenhinol Llawfeddygon Lloegr (2014-17) ac roedd yn Gadeirydd y Gyfadran Arweinyddiaeth a Rheolaeth Feddygol tan ddiwedd 2018, lle y cyflawnodd rôl allweddol wrth sefydlu menter y cymrodyr clinigol cenedlaethol.

Bu effaith Bonesig Clare yn sylweddol ar draws y proffesiwn meddygol a'r gwasanaethau iechyd ehangach. Roedd ei harweinyddiaeth, ei doethineb a'r pwys yr oedd yn ei roi ar ddangos caredigrwydd mewn gwaith meddygol dydd-i-ddydd wedi cyffwrdd nifer yn y sector gofal iechyd ac o fewn CMC, a theimlwyd ei cholled yn ddirfawr.

* Ar ddiwedd 2022, roedd gan y Cyngor ddwy sedd wag, un am aelod lleyg ac un am aelod sy'n gofrestrai. Cychwynnwyd ar y broses recriwtio ar gyfer y seddau hyn ym mis Tachwedd 2022 a chynhaliwyd y cyfweliadau terfynol ym mis Mawrth 2023, gan arwain at benodi Mr Douglas Millican yn aelod lleyg a Dr Rajiv Wijesuriya yn aelod sy'n gofrestrai.

Fel ffordd o gydnabod ei harweinyddiaeth a'i chyflawniadau, o 2022 ymlaen, gelwir y cymrodyr clinigol a fydd yn ymuno â charfan CMC yn gymrodyr clinigol Marx.

Gofynnir i holl aelodau'r Cyngor ddatgelu unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau hefyd. Rhestrir y rhain mewn cofrestr buddiannau a gyhoeddir ar ein gwefan.

Yn ogystal, mae holl aelodau'r Cyngor yn cymryd rhan mewn adolygiadau arfarnu, ac mewn proses adborth 360 gradd a gynhelir bob dwy flynedd. Mae'r broses yn cynnwys ystyried unrhyw anghenion dysgu a datblygu ac ailystyried gwrthdaro go iawn rhwng buddiannau neu wrthdaro tybiedig rhwng buddiannau er mwyn sicrhau bod modd rheoli unrhyw achosion o wrthdaro a nodir.

Fel elusen, rydym yn ystyried y saith egwyddor a nodir yn y Cod Llywodraethu Elusen (2020), a gallwn ddangos sut yr ydym yn defnyddio'r egwyddorion hyn er mwyn tywys ein gwaith ar sail 'defnyddio neu esbonio'.

Ceir dau eithriad i'r Cod, y byddwn yn eu hesbonio yn hytrach na'u gweithredu. Yn gyntaf, mae'n Cyngor a'n pwyllgorau yn gweithredu heb is-gadeirydd neu ddirprwy gadeirydd a benodir yn ffurfiol. Fodd bynnag, gwneir darpariaethau yn y *Llawlyfr Llywodraethu* i gadeiryddion enwebu dirprwy i gynorthwyo yn ystod absenoldebau, a weithredwyd yn 2022. Yn ail, gan bod ein proses benodi yn sefydledig ac yn drylwyr, ac yn cael ei goruchwylio gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol, ni farnir bod pwyllgor enwebiadau yn angenrheidiol.

Y *Llawlyfr Llywodraethu* yw dogfen lywodraethu y sefydliad. Fe'i adolygom yn 2022 yn dilyn gwaith archwilio mewnol er mwyn adlewyrchu diweddariadau i'r broses ar gyfer penodi cofrestryddion cynorthwyol, ac er mwyn adolygu'r gofrestr awdurdod (neu gynllun dirprwyo gan y Cyngor). Caiff mân ddiwygiadau eu gwneud yn barhaus ar ôl sicrhau cymeradwyaeth y Cyngor, er enghraifft i aelodaeth pwyllgorau.

Mae gofyn i'n tîm Llywodraethu Corfforaethol gynorthwyo'r Cyngor i gynnal safonau uchel o ran gweithgarwch llywodraethu, ar sail 'defnyddio neu esbonio', yn unol â'r arfer da a nodir yn y Cod Llywodraethu Elusen. Mae'r tîm yn darparu hyfforddiant a chyngor i'r sefydliad hefyd ynghylch materion llywodraethu. Mae pob pwyllgor yn atebol i'r Cyngor trwy gyfrwng adroddiad ffurfiol, ac mae'r Cyngor a phob pwyllgor yn cynnal adolygiad o effeithiolrwydd y pwyllgor wrth gyflawni ei ddatganiad o ddiben, a adolygir bob blwyddyn.

Mae'r diagram ar y dudalen nesaf yn dangos y gwahanol grwpiau llywodraethu sy'n cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei gyfrifoldebau mewn ffordd effeithiol. Mae'r Cyngor wedi cytuno ar y rhain i gyd. Disgrifir rolau a gweithgareddau'r grwpiau hyn ar y tudalennau sy'n dilyn.

Cynhelir busnes y Cyngor mewn ffordd agored a thryloyw, a chyhoeddir yr agenda a'r papurau ar gyfer pob cyfarfod ar ein gwefan.

Mae'r Cyngor yn cyfarfod chwe gwaith y flwyddyn fel arfer. Yn unol â'n hymrwymiadau i weithio ar draws y 4 gwlad a lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd, bydd yn cyfarfod ddwywaith yn Llundain, unwaith ym Manceinion ac unwaith yn Belfast, Caerdydd neu Gaeredin. Bydd y ddau gyfarfod sy'n weddill yn gyfarfodydd rhith.


Llywodraethu y Cyngor
Cyngor
Pwyllgor Risg ac Archwilio
Pwyllgor Tâl
Pwyllgor Buddsoddi
Pwyllgor MPTS
Grŵp Cyswllt CMC/MPTS
Llywodraethu Gweithredol
Bwrdd Gweithredol
Cynlluniau gwaith cyfarwyddiaeth
Ymgysylltu Ffurfiol
Fforymau Cynghori
Yr Alban
Cymru
Gogledd Iwerddon
Addysg
Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
Grwpiau Cyswllt
Grwpiau Gorchwyl a Gorffen

## Pwyllgor Risg ac Archwilio

Cadeiriwyd y Pwyllgor Risg ac Archwilio gan Paul Knight yn ystod 2022. Ei aelodau cyfetholedig allanol oedd Jon Hayes a Kenneth Gill.

Mae'r Pwyllgor yn cyflawni rôl allweddol yn ein trefniadau llywodraethu, gan gynnig sicrwydd annibynnol i'r Cygnor ynghylch:

- uniondeb ein datganiadau ariannol
- effeithiolrwydd rheolaeth fewnol, llywodraethu a systemau rheoli risg
- darpariaeth gwasanaethau archwilio mewnol ac allanol.

Cyfarfu'r Pwyllgor bum gwaith yn ystod 2022 ac mae'n adrodd i'r Cyngor ddwy waith y flwyddyn. Gallwch gael gwybod mwy am ei rôl a'i waith yn adran Adroddiad y Pwyllgor Risg ac Archwilio yn yr adroddiad hwn (gweler tudalen 53).

## Pwyllgor Tâl

Cadeiriwyd y Pwyllgor Tâl gan Anthony Harnden yn ystod 2022. Mae'r Pwyllgor yn cynghori'r Cyngor ynghylch tâl, amodau gwasanaeth a'r polisi treuliau ar gyfer aelodau'r Cyngor, gan gynnwys y Cadeirydd. Mae'n goruchwylio'r broses o recriwtio'r Cadeirydd ac aelodau'r Cyngor cyn iddynt gael eu penodi gan y Cyfrin Gyngor. Mae'n pennu'r broses benodi ar gyfer y Prif Weithredwr a Chadeirydd Gwasanaeth y Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol (MPTS), ynghyd â thâl, buddion ac amodau gwasanaeth y Prif Weithredwr, y cyfarwyddwyr, Cadeirydd MPTS ac aelodau Pwyllgor MPTS.

Yn ystod 2022, bu'r pwyllgor yn ymwneud â'r broses o recriwtio Cadeirydd newydd i'r Cyngor a Chadeirydd newydd ar gyfer MPTS.

A bu'n goruchwylio cychwyn y broses o recriwtio dau aelod i'r Cyngor. Yn ogystal, mae'n gyfrifol am sicrhau bod y gwaith o asesu a mesur perfformiad, ac asesu gweithgarwch recriwtio a chynllunio ar gyfer olyniaeth, yn digwydd o fewn fframwaith priodol ar gyfer y rolau rheoli uwch o fewn ei gylch gwaith. Cyfarfu'r Pwyllgor ddwy waith yn 2022 ac mae'n adrodd i'r Cyngor bob blwyddyn.

## Pwyllgor Buddsoddi

Cadeiriwyd y Pwyllgor Buddsoddi gan Steve Burnett yn ystod 2022. Ei aelodau cyfetholedig allanol yn ystod y flwyddyn oedd Keith MacKay a Mike Jennings.

Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am:

- weithredu ac adolygu ein polisi buddsoddi
- sicrhau bod y broses o reoli asedau yn cyd-fynd â'r polisi
- penodi a rheoli rheolwyr cronfa
- monitro perfformiad.

Yn ogystal, mae'n gyfrifol am oruchwylio buddsoddiad CMC yng Ngwasanaethau Rhyngwladol CMC Cyfyngedig (GMCSI), gan gynnwys sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisi Buddsoddi CMC, a chraffu cynllun busnes GMCSI, ac asesu lefelau posibl risg ac elw buddsoddiad. Mae'r Pwyllgor yn adrodd am berfformiad buddsoddi i'r Cyngor trwy gyfrwng cylchlythyrau yn dilyn cyfarfodydd. Mae'n adrodd am berfformiad y portffolio i'r Cyngor yn uniongyrchol bob blwyddyn. Cyfarfu bump gwaith yn ystod 2022.

## Gwasanaethau Rhyngwladol CMC

Sefydlwyd Gwasanaethau Rhyngwladol CMC Cyfyngedig (GMCSI) gan y Cyngor yn 2016 fel is-gwmni masnachol ym mherchnogaeth lwyr CMC. Ei brif amcan yw cynnig cymorth ac arbenigedd CMC i wledydd a sefydliadau sy’n gweithio i wella safonau gofal iechyd, y mae ganddynt lai o brofiad wrth reoleiddio gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ac addysg feddygol. Mae trefniadau llywodraethu cadarn ac effeithiol mewn grym er mwyn sicrhau y caiff ein buddiannau eu diogelu ac y rheolir ein perthynas gyda GMCSI mewn ffordd effeithiol.

Er bod y Cyngor yn meddu ar y cyfrifoldeb cyffredinol dros GMCSI, mae'r Pwyllgor Risg ac Archwilio yn ystyried y risgiau i CMC gan weithrediad GMCSI, gan gynnal gweithgarwch mewnol cyson ac archwiliadau ar hap pan fo hynny'n briodol.

Cadeiriwyd Bwrdd GMCSI gan Andrew McCulloch yn ystod 2022. Tan fis Hydref 2022, roedd y Bwrdd yn cynnwys (yn ogystal â'r Cadeirydd) Paul Reynolds, Anthony Harnden, Alison Wright, a Colin Melville. Ymddiswyddodd Anthony Harnden fel aelod o’r Bwrdd ym mis Hydref 2022. Caiff ei ddisodli gan aelod Cyngor newydd yn ystod 2023.

## Bwrdd yr Ymddiriedolwyr Pensiwn

Rheolir a gweinyddir cynllun pensiwn staff CMC â buddion wedi'u diffinio gan fwrdd o ymddiriedolwyr yn unol â rheolau a gweithred ymddiriedolaeth y cynllun. Mae'r ymddiriedolaeth yn sicrhau y cedwir asedau'r cynllun pensiwn ar wahân i asedau'r cyflogwr.

Mae ymddiriedolwyr y cynllun yn gyfrifol am redeg y cynllun yn gywir, gan gynnwys casglu cyfraniadau, buddsoddi asedau a thalu ymrwymiadau budd pensiwn a wnaethpwyd gan y cyflogwr.

Cadeiriwyd y Bwrdd gan Deirdre Kelly yn ystod 2022. Mae Deirdre, Steve Burnett, Raj Patel a Vanessa Davies yn ymddiriedolwyr a enwebwyd gan y cyflogwr. Mae Danny Dubois, John Foley, Paula Robblee a Martin Hart yn ymddiriedolwyr a enwebwyd gan yr aelodau.

## Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol

Rhan allweddol o’r strwythur llywodraethu yw’r Pwyllgor MPTS statudol. Cadeiriwyd y Pwyllgor gan Bonesig Caroline Swift yn 2022, a daeth ei chyfnod yn y rôl i ben ar 31 Rhagfyr 2022. Mae'r Pwyllgor yn goruchwylio darpariaeth y gwasanaeth gwrandawiadau i feddygon, gan sicrhau bod y gwasanaeth yn cyflawni ei gyfrifoldebau dan Ddeddf Meddygol 1983.

Mae Grŵp Cyswllt MPTS/CMC yn rhan greiddiol o'n fframwaith llywodraethu. Caiff ei gadeirio gan Gadeirydd y Cyngor. Mae’n goruchwylio’r berthynas waith rhwng MPTS a swyddogaethau CMC y mae’n rhyngweithio â nhw.

Yn ystod 2022, cynhaliwyd proses recriwtio i geisio olynydd ar gyfer Bonesig Caroline fel Cadeirydd MPTS. Ymgymerodd Ei Hanrhydedd Barnwr Deborah Taylor â’r swydd ym mis Mawrth 2023.

## Bwrdd Gweithredol

Y Bwrdd Gweithredol yw'r fforwm uwch ar gyfer gwneud penderfyniadau a goruchwylio a sefydlwyd er mwyn cynnig cyfeiriad strategol, gweithgarwch craffu ac adrodd i'r Cyngor gan dîm rheoli uwch CMC ynghylch materion arwyddocaol sy'n ymwneud â pholisi, strategaeth, cyllid, perfformiad, darpariaeth weithredol a rheoli adnoddau. Mae'n sicrhau bod CMC yn rheolydd ystwyth ac sy'n sicrhau perfformiad uchel, a'i fod yn deall ei gofrestreion, y systemau gofal iechyd y mae'n gweithredu ynddynt a safbwyntiau ei brif randdeiliaid.

Mae'r Bwrdd yn cyfarfod bob mis (ac eithrio mis Awst) ac mae'n adrodd i bob cyfarfod o'r Cyngor trwy adroddiad y Prif Weithredwr a hefyd, trwy gyfrwng adroddiad blynyddol ar wahân.

## Fforymau Cynghori y DU

Mae gennym raglen sefydledig o Fforymau Cynghori sy'n cyfarfod yng Nghymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Mae'r Fforymau yn sicrhau ein bod yn ymgysylltu ac yn ymgynghori mewn ffordd effeithiol gyda grwpiau diddordeb a bod ein polisïau yn addas i bob rhan o'r DU. Mae'r aelodaeth wahoddedig yn amrywio o wlad i wlad, gan adlewyrchu ystod amrywiol y rhai sydd â diddordeb ac arbenigedd yn y meysydd yr ydym yn eu rheoleiddio ar draws y DU. Mae'r Fforymau yn adrodd am eu gwaith i'r Bwrdd Gweithredol ddwywaith y flwyddyn.

## Fforwm Cynghori Addysg

Cychwynnodd y Fforwm Cynghori Addysg ar ei waith ym mis Chwefror 2019. Mae'r Fforwm yn ymgysylltu'n eang ac mewn ffordd effeithiol gyda'n grwpiau diddordeb allweddol ynghylch materion addysg, hyfforddiant ac asesu, gan sicrhau ein bod yn gallu datblygu a hyrwyddo dull gweithredu strategol at y gwaith hwn yn y ffordd orau ar draws holl wledydd y DU.

Cadeirir y Fforwm gan Colin Melville, Cyfarwyddwr Meddygol a Chyfarwyddwr Addysg a Safonau ac mae'r aelodaeth a wahoddwyd yn adlewyrchu amrediad amrywiol y rhai sydd â diddordeb ac arbenigedd ym maes addysg, hyfforddiant ac asesu meddygol ar draws y DU. Adroddir am waith y Fforwm i'r Prif Weithredwr ac i'r Cyngor trwy adroddiad y Prif Weithredwr.

## Fforwm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Mae ein Fforwm Strategol Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (ED&I) yn ein helpu i sicrhau bod ein gweithgareddau yn ymateb i anghenion grwpiau amrywiol o feddygon. Mae'r fforwm yn cynnwys sefydliadau sy'n cynrychioli meddygon y mae ganddynt nodweddion gwarchodedig a rennir. Mae'n ein helpu i gyflawni ein hamcanion ED&I trwy ddarparu adborth a chyngor am ein polisïau a'n strategaethau, a mynegi materion a phryderon y mae gofyn i ni roi sylw iddynt mewn perthynas ag ED&I. Yn ystod 2022, bu'r fforwm yn trafod:

- ein targedau ED&I newydd
- tegwch a thryloywder
- bwlio, aflonyddu a gwahaniaethu
- ein hadolygiad o *Arfer meddygol da*, ac
- ailgynllunio ein prosesau fel rhan o'n rhaglen diwygio rheoliadaol.

## Presenoldeb aelodau yng nghyfarfodydd y Cyngor, Byrddau a Phwyllgorau yn ystod 2022*

| Aelod | Presenoldeb yn y Cyngor† | Presenoldeb mewn pwyllgorau |
|---|---|---|
| Steve Burnett | 7/7 | 10/10 |
| Vanessa Davies | 7/7 | 5/7 |
| Anthony Harnden | 7/7 | 5/5 |
| Philip Hunt | 7/7 | 7/7 |
| Paul Knight | 6/7 | 5/5 |
| Caroline MacEwen | 7/7 | 5/5 |
| Deepa Mann-Kler | 7/7 | 5/7 |
| Rajesh Patel | 7/7 | 10/10 |
| Suzanne Shale | 7/7 | 5/5 |
| Alison Wright | 6/7 | 6/6 |
| | | |
| Ken Gill (aelod cyfetholedig PRA) | amh | 5/5 |
| Jon Hayes (aelod cyfetholedig PRA) | amh | 5/5 |
| | | |
| Michael Jennings Jennings (aelod cyfetholedig PB) | amh | 5/5 |
| Keith Mackay Jennings (aelod cyfetholedig PB) | amh | 5/5 |

## Rheolaeth

Yn ystod 2022, roedd ein staff dan reolaeth y Prif Weithredwr, Charlie Massey. Caiff ei gynorthwyo gan dîm o gyfarwyddwyr, ac roedd aelodau'r tîm hwn fel a ganlyn ar 31 Rhagfyr 2022:

- Shaun Gallagher, Cyfarwyddwr Strategaeth a Pholisi
- Una Lane, Cyfarwyddwr Cofrestru ac Ailddilysu
- Colin Melville, Cyfarwyddwr Meddygol a Chyfarwyddwr Addysg a Safonau
- Anthony Omo, Cwnsler Cyffredinol a Chyfarwyddwr Addasrwydd i Ymarfer
- Paul Reynolds, Cyfarwyddwr Ymgysylltu a Chyfathrebu Strategol
- Neil Roberts, Cyfarwyddwr Adnoddau.

* Mae'r presenoldeb yn adlewyrchu nifer y cyfarfodydd y bu modd eu mynychu.

† Mae'n cynnwys chwe chyfarfod y Cyngor ac un diwrnod cwrdd i ffwrdd strategol.

## Personél rheoli allweddol: polisi tâl

Mae'r Pwyllgor Tâl yn gyfrifol am bennu tâl, buddion ac amodau gwasanaeth y Prif Weithredwr, Cadeirydd MPTS a'r cyfarwyddwyr. Mae'r Pwyllgor yn pennu pob agwedd ar gyflogau neu honoraria, darpariaeth unrhyw fuddion eraill, ynghyd ag unrhyw amodau cytundebol neu drefniadau eraill ar gyfer y grŵp hwn o staff.

Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylem ddarparu tâl a gwobrwyon a fydd yn denu ac yn cadw'r staff o ansawdd uchel sy'n angenrheidiol er mwyn ein galluogi i gyflawni ein cylch gwaith statudol a'n hamcanion strategol.

Wrth bennu'r tâl sylfaenol ar gyfer swyddi unigol, bydd y Pwyllgor yn cael cyngor allanol am rolau o fewn ei gylch gwaith, gan sicrhau bod cyflogau'n cyd-fynd â chyfradd y farchnad sy'n briodol, yn unol ag ystyriaethau ynghylch adnoddau.

Ystyrir dyfarniad cyflog cyfunedig wrth gyfeirio at lefel berfformio y sefydliad, goblygiadau ariannol unrhyw ddyfarniad, y dyfarniad a gytunwyd ar gyfer cyflogeion eraill CMC a thueddiadau ehangach yn y farchnad. Ystyrir elfen anghyfunol amrywiol flynyddol, gan adlewyrchu perfformiad personol, gyda'r un ystyriaethau a weithredir ar gyfer unrhyw ddyfarniad cyfunedig. Byddwn yn adolygu effeithiolrwydd y trefniadau hyn bob blwyddyn.

Fel arfer, bydd staff yng nghylch gwaith y Pwyllgor Tâl yn gymwys i gael y pecyn buddion sydd ar gael i holl gyflogeion CMC yn unol â'r un amodau. Mae'r Pwyllgor yn cadw'r gallu i dynnu yn ôl, addasu neu newid unrhyw fuddion i staff yn ei gylch gwaith, yn unol ag unrhyw ofynion ymgynghori a chytundebol. Mae'r Pwyllgor yn ystyried unrhyw fuddion ychwanegol mewn nwyddau (megis taliadau adleoli) fesul achos.

Caiff staff allanol newydd a benodir o fewn cylch gwaith y Pwyllgor eu cofrestru yn ein cynllun pensiwn â chyfraniadau wedi'u diffinio, yn awtomatig. Pan fydd gan gyflogeion drefniadau pensiwn cytunedig sy'n bodoli eisoes, megis aelodaeth o'n cynllun â buddion wedi'u diffinio, byddant yn cadw hwn yn ystod cyfnod eu cyflogaeth, yn unol ag unrhyw newidiadau i'r rheolau y bydd ymddiriedolwyr a'r cyflogwr yn cytuno arnynt.

Mae'r Pwyllgor yn sicrhau bod goblygiadau'r polisi tâl a phenderfyniadau cysylltiedig ar gydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu hystyried mewn ffordd briodol. Yn benodol, mae’n sicrhau:

- y cefnogir unrhyw wahanrediadau cyflog gan werthusiad swydd ffurfiol neu gyngor annibynnol o'r farchnad allanol
- y cefnogir unrhyw benderfyniadau sy'n ymwneud â thâl amrywiol gan asesiad gwrthrychol o berfformiad
- na fydd unrhyw addasiad neu newidiadau i drefniadau tâl yn gwahaniaethu mewn ffordd anghyfreithlon.

Cefnogir penderfyniadau eraill sy'n ymwneud ag amodau gwasanaeth gan gyngor priodol ynghylch unrhyw oblygiadau o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth.

# Adolygiad ariannol 2022

Paratowyd y cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2022 yn unol â'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer Elusennau (FRS 102).

## Cyfanswm ein hincwm a'n gwariant yn 2022

Yn ystod 2022, gwelwyd effaith pandemig y coronafeirws ar ein gweithgareddau busnes o ddydd i ddydd yn lleihau, wrth i'r rhan fwyaf o'n gwasanaethau craidd i gynorthwyo meddygon a chleifion ddychwelyd i'r normau gweithredol a welwyd cyn y pandemig i raddau helaeth.

Yn 2022, sicrhaom incwm anghyfyngedig o £132.7 miliwn, a oedd £13.0 miliwn yn uwch na'r swm a sicrhawyd yn 2021. Roedd hyn oherwydd y cynnydd ym maint y gofrestr feddygol ac effaith cynnal rhagor o brofion y Bwrdd Asesiadau Proffesiynol ac Ieithyddol (PLAB) yn 2022 nag y gwnaethom yn 2021, ynghyd â'r cynnydd dilynol yn nifer y ceisiadau i ymuno â'r gofrestr.

Yn ogystal, rydym yn adlewyrchu £2.5 miliwn pellach o incwm cyfyngedig yn ein cyfrifon gan Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) Llywodraeth y DU er mwyn talu'r gost o ddwyn cymdeithion meddygol a chymdeithion anesthesia dan ein gweithgarwch rheoleiddio ni. Gwariwyd y cronfeydd hyn yn llawn yn 2022, ac yn yr un modd â 2021, defnyddiwyd rhywfaint o gyllid i ddatblygu systemau TG. Felly, cyfalafwyd £0.9 miliwn pellach eleni, gyda chyfanswm o £1.8 miliwn ar ffurf ased cyfyngedig yn cael ei ddal ar y fantolen, heb ei ddibrisio eto.

Erydwyd yr elw o £4.9 miliwn a welsom ar ein buddsoddiadau yn 2021 yn ystod 2022, a chofnodwyd colled o £4.8 miliwn ar fuddsoddiadau yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Roedd hyn o ganlyniad i symudiadau cyfnewidiol yn y farchnad i raddau helaeth, gan gynnwys ond heb eu cyfyngu i'r rhyfel yn Wcráin, chwyddiant hanesyddol o uchel a mini-gyllideb Llywodraeth y DU ym mis Medi 2022. Wrth i ni symud i 2023, rydym bellach yn gweld trywydd ar i fyny o ran y buddsoddiadau hyn.

Ein gwariant elusennol digyfyngiad yn 2022 oedd £129.8 miliwn, a oedd yn gynnydd o £11.9 miliwn o'i gymharu â'r sefyllfa yn 2021. Roedd y twf hwn o ran gwariant yn 2022 o'i gymharu â 2021 yn fwriadol. Roedd y costau wedi codi wrth i ni barhau gyda'n cynlluniau adfer a'n hymdrechion i leihau ôl-groniad gwaith, lle y gwelwyd mwy o gapasiti ar gyfer profion PLAB a thribiwnlysoedd trwy gydol y flwyddyn. Fodd bynnag, er bod ein costau wedi codi, nid oedd hyn ar y lefel ddisgwyliedig, ac roedd rhywfaint o amhariad parhaus o ganlyniad i'r pandemig yn cael effaith ar y gwariant, ac yn fwyaf nodedig y ffaith bod arholiadau PLAB wedi cael eu canslo yn gynnar yn 2022.

Cynyddom ein darpariaeth dadfeilio gymaint â £0.3 miliwn er mwyn sicrhau y gellir cyflawni ein rhwymedigaethau dan ein lesoedd adeiladau. Disgwyliwn i'r ddarpariaeth hon gynyddu bob blwyddyn nes yr adeg pan fyddwn yn gadael unrhyw un o'n safleoedd. Ychwanegwyd £1.4 miliwn pellach i'n darpariaeth gyfreithiol hefyd er mwyn adlewyrchu costau ychwanegol posibl y gallent godi o achosion cyfreithiol heb eu cwblhau eto.

Roedd ein gweithgareddau craidd eraill wedi parhau trwy gydol 2022, heb iddynt gael eu amharu rhyw lawer gan effaith barhaus y pandemig, ac roedd ein ffocws wedi newid o weithgarwch adfer i ddarparu ein swyddogaeth statudol graidd mewn ffordd effeithlon. I'r perwyl hwn, rydym wedi gweld arbedion effeithlonrwydd a sicrhawyd o ganlyniad i'r pandemig, gyda phatrymau gwaith newydd a mwy o ddefnydd o fforymau wedi'u galluogi gan TG, yn hytrach na gweithgareddau wyneb yn wyneb. Disgwyliwn i'r rhain barhau yn y dyfodol.

Ni fu gan yr elusen unrhyw weithgareddau codi arian yr oedd gofyn eu datgelu dan A162A Deddf Elusennau 2011.

## Polisi cronfeydd wrth gefn a busnes gweithredol

Adolygir lefel ein cronfeydd wrth gefn a'n polisi cronfeydd wrth gefn bob blwyddyn, a rhoddir sylw i unrhyw oblygiadau ariannol fel rhan o'r broses o osod y gyllideb.

Mae cyfanswm ein cronfeydd wrth gefn yn cynnwys cronfeydd wrth gefn rhydd, cronfeydd wrth gefn a gefnogir gan asedau sefydlog a chronfeydd wrth gefn pensiwn.

Rydym yn dal cronfeydd wrth gefn rhydd:

- i ddarparu cyfalaf gweithio er mwyn cynnal ein gweithgarwch arferol o ddydd i ddydd
- i ddarparu cronfeydd i ddelio ag unrhyw risgiau a fydd yn codi
- i ddarparu cronfeydd i ymateb i fentrau, cyfleoedd a sialensiau newydd sy'n codi
- i ariannu'r cyfnod cyn y teimlir effaith lawn unrhyw newidiadau i lefelau ffioedd.

Cynrychiolir cyfran sylweddol o gyfanswm ein cronfeydd wrth gefn gan asedau sefydlog, nad oes modd eu trosi'n arian yn hawdd, heb i hynny gael effaith niweidiol ar ein gallu i gyflawni ein nodau elusennol a'n rhwymedigaethau statudol. Felly, diystyrir gwerth asedau sefydlog at ddibenion y polisi cronfeydd wrth gefn.

Diystyrir gwerth y cronfeydd pensiwn wrth gefn hefyd at ddibenion y polisi cronfeydd wrth gefn. Caewyd y cynllun â buddion wedi'u diffinio i groniadau yn y dyfodol yn 2018, a gellir rheoli unrhyw ddiffyg neu warged yn y cynllun dros y tymor canolig, felly nid yw'n cael unrhyw effaith ar y cronfeydd wrth gefn rhydd yn y tymor byr.

Ni cheir fformwla safonol y gellir ei ddefnyddio er mwyn cyfrifo lefel ddelfrydol y cronfeydd wrth gefn rhydd. Rydym yn dilyn canllawiau'r Comisiwn Elusennau, gan bennu ystod a dargedir ar sail ein gofynion llif arian ac asesiad o'r risgiau y mae'r sefydliad yn eu hwynebu. Ein nod yw cynnal cronfeydd wrth gefn rhydd ar lefel nad yw'n ormodol, ond nad yw'n peryglu ein solfedd.

Ar sail ein dadansoddiad o lif arian a'r risgiau y mae'r sefydliad yn eu hwynebu, ein polisi yw cynnal cronfeydd wrth gefn rhydd o tua £25 miliwn i £50 miliwn. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod y polisi cronfeydd wrth gefn rhydd yn parhau i adlewyrchu newidiadau ym maint y sefydliad, o 2022 rydym wedi cysylltu'r amrediad targed gyda gwariant yn uniongyrchol, a fynegir fel canran: felly, roedd amrediad targed ein cronfeydd wrth gefn rhydd rhwng 20% a 35% o'r gwariant blynyddol. Cyflawnwyd hyn trwy gydol 2022, ac ar ddiwedd y flwyddyn.

Yn ogystal, byddwn yn parhau i adolygu diben a chwmpas ein polisi cronfeydd wrth gefn bob blwyddyn er mwyn sicrhau bod y trothwyon yn adlewyrchu ein proffil risg presennol, ein gofynion o ran llif arian a'n hamgylchedd gweithredol.

Ein polisi yw cynnal cronfeydd wrth gefn rhydd go iawn yn unol â'r lefel a dargedwyd dros y tymor canolig. Os bydd ein cronfeydd wrth gefn go iawn yn amrywio'n sylweddol o'r ystod darged a nodir yn y polisi cronfeydd wrth gefn, byddwn yn gweithredu i roi sylw i'r amrywiad fel rhan o'r broses flynyddol o osod y gyllideb, er mwyn sicrhau bod y cronfeydd wrth gefn go iawn yn unol â'r disgwyl unwaith eto cyn pen cyfnod rhesymol.

Cyfanswm ein cronfeydd wrth gefn ar ddiwedd 2022 oedd £54.9 miliwn, a oedd yn ostyngiad o £44.9 miliwn o'r swm am y flwyddyn flaenorol. Symudiadau actwaraidd ar y cynllun â buddion wedi'u diffinio oedd

prif ysgogydd y gostyngiad hwn. Yn 2022, roedd y marchnadoedd yn fwy cyfnewidiol yn gyffredinol, ond yn ystod mis Medi a mis Hydref, roedd y symudiadau mewn marchnadoedd bondiau yn ddigynsail ac yn sylweddol, gan arwain at ostyngiad yng ngwerth ein hasedau pensiwn a'n rhwymedigaethau. Fodd bynnag, roedd gwerth asedau wedi gostwng ar raddfa gyflymach na'r rhwymedigaeth pensiwn, ac yn ei dro, roedd ein hased pensiwn wedi gostwng o £36.6 miliwn i rwymedigaeth o £3.2 miliwn. Roedd cronfeydd wrth gefn rhydd yn £39.2 miliwn o'r balans, ac roedd £18.9 miliwn pellach o gronfeydd wrth gefn yn cael eu cynrychioli gan asedau sefydlog.

Fel rhan o'n strategaeth, rydym wedi bwriadu cyfyngu ar dwf y gwariant yn 2023 er mwyn sicrhau ein bod yn gweithredu mewn ffordd effeithlon ac effeithiol, a bod gennym gronfeydd digonol i ymateb i unrhyw alwadau annisgwyl, sy'n deillio o fentrau y buddsoddwyd ynddynt yn ystod y flwyddyn eleni. Disgwyliwn y bydd y cronfeydd wrth gefn ar ddiwedd 2023 o fewn paramedrau ein polisi cronfeydd wrth gefn.

Daw mwyafrif ein hincwm o'r ffioedd cofrestru a delir gan feddygon. Rhaid i bob meddyg gofrestru gyda ni er mwyn gwneud gwaith meddygol yn y DU, felly mae'n hincwm yn gymharol sicr. Mae'r ymddiriedolwyr yn parhau i fod o'r farn bod CMC yn fusnes gweithredol hyd y gellir rhagweld, felly maent wedi paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol.

Nid oes unrhyw ansicrwydd o bwys sy'n gysylltiedig â digwyddiadau neu amodau sy'n bwrw amheuaeth sylweddol ar ein sefydlogrwydd ariannol hyd y gellir rhagweld.

## Polisi buddsoddi

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am bennu ac adolygu'r polisi buddsoddi cyffredinol, yr amcanion, y parodrwydd i dderbyn risg a'r elw a dargedir.

Mae wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb dros weithredu'r polisi buddsoddi, penodi a rheoli rheolwyr cronfa, a monitro perfformiad i'r Pwyllgor Buddsoddi, sy'n adrodd i'r Cyngor yn rheolaidd.

Mae'n polisi buddsoddi yn rhannu ein cronfeydd yn bedwar categori:

- y rhai hynny sy'n ofynnol fel cyfalaf gweithio ar gyfer gweithrediad arferol y busnes o ddydd i ddydd
- y rhai y byddwn yn eu buddsoddi dan reolaeth efallai
- y rhai y byddwn yn penderfynu eu buddsoddi mewn is-gwmni masnachu efallai
- unrhyw falans ariannol sy'n weddill.

Rydym yn dal isafswm o £15 miliwn fel cyfalaf gweithio, at ddibenion llif arian arferol. Caiff hwn ei ddal mewn cyfrifon banc mynediad syth ac mae'n cynnig digon o hyblygrwydd er mwyn gallu osgoi benthyca dros dro a/neu'r angen i fanteisio ar fuddsoddiadau er mwyn delio ag amrywiadau tymor byr mewn incwm a gwariant gweithredol.

Cynyddom ein buddsoddiad dan reolaeth i £50 miliwn ym mis Mehefin 2019. Ein cyfradd elw a dargedir ar gronfeydd a fuddsoddwyd dan reolaeth yw chwyddiant (CPI) a 2% dros gyfnod treigl pum mlynedd. Mae hyn yn adlewyrchu ein hymagwedd gymharol ofalus tuag at risg. Rydym yn dymuno diogelu rhag chwyddiant; sicrhau incwm cymedrol; ac amrywio ein cronfeydd er mwyn lleihau'r risg o golli cyfalaf a/neu refeniw.

Rydym wedi mabwysiadu dull gweithredu buddsoddi moesegol cynhwysfawr tuag at fuddsoddiadau. Credwn y byddai buddsoddi mewn cwmnïau neu sectorau penodol yn gwrthdaro â'n nodau elusennol yn ein barn ni, neu y gallent beri niwed i'n henw da. Nid ydym yn dymuno elwa'n uniongyrchol gan neu ddarparu cyfalaf ar gyfer gweithgareddau nad ydynt yn cyd-fynd â'n nodau elusennol, felly rydym yn

gwahardd yn benodol buddsoddiad mewn cwmnïau sy'n sicrhau dros 10% o'u refeniw gan dybaco, alcohol, gamblo, pornograffi, benthyca ar gyfradd llog uchel, arfau rhyfel a ffrwydron tir, a chloddio am lo thermol neu dywodydd olew. Nid ydym yn buddsoddi mewn cwmnïau sy'n destun ymchwiliadau neu y'u canfuwyd yn euog o efadu trethi neu wyngalchu arian dros y dair blynedd ddiwethaf. Oherwydd y byddwn yn dilyn polisi buddsoddi mewnol ein rheolwyr cronfa, wrth eu dethol, byddwn yn sicrhau bod y ddau bolisi yn hollol gydnaws â'i gilydd. Er mai'r uchafswm refeniw o 10% y cyfeiriwyd ato uchod yw'r uchafswm ar gyfer ein polisi ni, mae ein cronfeydd presennol a fuddsoddir yn destun goddefiadau is ynghylch glo thermol a thywodydd olew (5%) ac arfau rhyfel a ffrwydron tir (0%), ar sail polisi ein rheolwr cronfa presennol.

Dewisom CCLA Investment Management (CCLA) i reoli ein buddsoddiadau oherwydd eu profiad cadarn a'u safonau uchel ym maes buddsoddi moesegol. Mae CCLA yn buddsoddi mewn ffordd sy'n rhoi blaenoriaeth i ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu, gan weithio gyda chwmnïau i'w hannog i ymrwymo i gynhyrchu cynhyrchion iachach, sy'n fwy hygyrch ac yn fwy fforddiadwy. Efallai y byddwn yn buddsoddi mewn cwmnïau y mae eu gweithgareddau yn cyd-fynd â'n nodau elusennol neu y mae'n eu cefnogi. Disgwyliwn i gwmnïau y byddwn yn buddsoddi ynddynt ddangos arferion cyflogaeth a llywodraethu corfforaethol cyfrifol, gan fod yn gydwybodol mewn perthynas â materion amgylcheddol a chymdeithasol, a chan ddelio â chwsmeriaid a'r cymunedau y maent yn gweithredu ynddynt mewn ffordd deg. Yn ogystal, efallai y byddwn yn defnyddio ein sefyllfa fel buddsoddwr er mwyn dylanwadu ar ac ymgysylltu ag ymddygiad corfforaethol y cwmnïau hynny yr ydym yn buddsoddi ynddynt mewn ffordd weithredol.

Dim ond trwy reolwyr cronfa sy'n dangos y cymwysterau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu cryfaf y byddwn yn buddsoddi. Wrth benodi rheolwyr cronfa, byddwn yn ystyried sut y maent yn cynnwys asesiad o berfformiad cwmnïau ynghylch materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu yn eu proses er mwyn dethol stoc.

Ar ddiwedd 2022, barnwyd bod ein cronfeydd dan reolaeth yn werth £56.6 miliwn o'i gymharu â £61.6 miliwn ar ddechrau'r flwyddyn, ac mae hyn yn adlewyrchu natur gyfnewidiol y farchnad a lefelau chwyddiant hanesyddol a welwyd yn ystod 2022. Ers i ni gynyddu ein buddsoddiad ym mis Mehefin 2019, rydym wedi sicrhau elw ar gyfradd twf cyfansawdd o 3.6%.

Caiff unrhyw arian parod dros ben na chaiff ei ddal fel cyfalaf gweithio neu ei fuddsoddi, ei ddal mewn cyfrifon cadw tymor canolig a/neu gyfrifon sy'n cynnig llog. Sicrhaom llog o £0.5 miliwn ar ein balansau ariannol, sy'n cyfateb â chyfradd elw flynyddol gyfartalog o 1.15%. Dangosir arian parod sy'n cael ei ddal fel cyfalaf gweithio, ynghyd ag unrhyw arian parod dros ben, yn ein mantolen o fewn asedau cyfredol.

# Gwasanaethau Rhyngwladol CMC Cyfyngedig

Corfforwyd yr is-gwmni masnachol fel cwmni preifat cyfyngedig gan gyfranddaliadau ar 16 Rhagfyr 2016. Mae'n is-gwmni ym mherchnogaeth lwyr CMC ac mae'n defnyddio gwybodaeth a gaiff ei sicrhau gan weithgareddau craidd CMC i ddarparu gwasanaethau masnachol, gan gynnwys gwasanaethau ymgynghori, hyfforddi ac achredu. Caiff unrhyw elw sy'n deillio o'r gweithgareddau ei gyflwyno'n ôl i CMC at ddibenion cyflawni nodau elusennol CMC.

Buddsoddodd CMC £0.6 miliwn ar ffurf cyfalaf cyfrannau yn GMCSI. Yn ystod ei flynyddoedd cynnar, roedd GMCSI wedi gwneud colledion

net, ond mae wedi gallu sicrhau elw cymharol fach yn ddiweddar. Yn 2022, roedd GMCSI wedi sicrhau elw net o £26,077 ac ar ddiwedd y flwyddyn, roedd ganddo asedau net o £256,523. Ni ddychwelwyd unrhyw elw i CMC ar ffurf rhodd cymorth yn ystod 2022. Rhagamcanir y bydd GMCSI yn sicrhau elw dros y tymor canolig.

Mae'r cyfrifon a gyflwynir yma yn gyfrifon grŵp cyfunol sy'n cynnwys ein his-gwmni masnachol, GMCSI. Mae'r datganiad materion ariannol yn dangos sefyllfa gyfunol CMC a GMCSI. Mae'r fantolen yn dangos colofnau ar wahân sy'n nodi sefyllfa'r grŵp (CMC a GMCSI gyda'i gilydd) a sefyllfa'r elusen rhiant (CMC). Paratowyd cyfrifon cwmni ar wahân ar gyfer GMCSI.

## Cyfrifoldebau ymddiriedolwyr dros y datganiadau ariannol

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am baratoi adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol ac Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol y Deyrnas Unedig (Safonau Cyfrifyddu y Deyrnas Unedig). Mae'r gyfraith sy'n berthnasol i elusennau yng Nghymru, Lloegr a'r Alban yn mynnu bod yr ymddiriedolwyr yn paratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n cynnig darlun cywir a theg o sefyllfa'r elusen a'r grŵp a'r adnoddau sy'n dod i mewn a'r defnydd o adnoddau'r grŵp ar gyfer y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae gofyn i'r ymddiriedolwyr:

- ddewis polisïau cyfrifyddu addas a'u gweithredu mewn ffordd gyson
- arsylwi'r dulliau a'r egwyddorion yn y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir (SORP) ar gyfer Elusennau
- ffurfio barnau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn ddoeth
- nodi a ddilynwyd safonau cyfrifyddu perthnasol, yn unol ag unrhyw achosion o wyro o bwys yn cael eu datgelu a'u hesbonio yn y datganiadau ariannol
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol oni bai ei bod yn amhriodol cymryd y bydd yr elusen yn parhau mewn busnes.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu digonol sy'n dangos ac yn esbonio trafodion yr elusen ac sy'n datgelu sefyllfa ariannol yr elusen gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg, ac sy'n eu galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Elusennau 2011, Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008, Charities and Trustee Investment (Scotland) Act 2005, Charities Accounts (Scotland) Regulations 2006 (fel y'u diwygiwyd), Cyfarwyddiadau'r Cyfrin Gyngor a gyhoeddwyd dan Ddeddf Meddygol 1983 a darpariaethau cyfansoddiad yr elusen. Yn ogystal, maent yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r elusen a'r grŵp ac felly, cymryd camau rhesymol i atal a darganfod twyll ac afreoleidd-dra arall.

## Trafodion partïon cysylltiedig

Rhaid i bob ymddiriedolwr ac uwch reolwr ddatgelu manylion unrhyw sefydliadau y maen nhw (ac aelodau teuluol agos a phartneriaid busnes) yn cyflawni rôl o awdurdod ynddynt neu y mae ganddynt fudd perthnasol arall ynddynt, ac y gallai eu busnes arwain at sefyllfa lle y byddent yn cael cyswllt ariannol â CMC. Rhaid datgelu manylion unrhyw drafodion go iawn rhwng CMC a phartïon cysylltiedig yn ystod y flwyddyn hefyd. Yn ogystal, rydym yn cyhoeddi cofrestr buddiannau ar ein gwefan.

Yn ystod 2022, gwnaethpwyd yr holl ddatgeliadau ac nid oedd unrhyw faterion a oedd yn peri pryder.

# Adroddiad y Pwyllgor Risg ac Archwilio

Mae Pwyllgor Risg ac Archwilio ein Cygnor yn cyflawni rôl allweddol yn ein strwythur llywodraethu. Mae'r Pwyllgor yn cynnig sicrwydd annibynnol i'r Cyngor ynghylch:

- uniondeb ein datganiadau ariannol
- effeithiolrwydd y systemau rheolaeth fewnol, llywodraethu a rheoli risg
- darpariaeth y gwasanaethau archwilio mewnol ac allanol.

Yn ogystal, mae'n monitro ein polisïau gwrth-dwyll ac unrhyw risgiau sy'n ymwneud â'r *Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data*, ac mae'n adolygu'r trefniadau er mwyn mynegi pryderon.

Mae'r Pwyllgor yn seilio'i gyngor a'i benderfyniadau ar ganllawiau a gyhoeddir gan y Cyngor Adrodd Ariannol, y Comisiwn Elusennau, Swyddfa Rheolydd Elusennau yr Alban a phan fo hynny'n briodol, ar gyngor allanol annibynnol.

Mae gan y Pwyllgor chwe aelod – pedwar aelod o'r Cyngor a dau aelod cyfetholedig. Mae aelodau, yn rhai cyfetholedig neu annibynnol, yn datblygu gwaith y Pwyllgor trwy ddwyn sgiliau a phrofiad ychwanegol gwerthfawr i'r gwaith craffu a herio annibynnol ynghylch cyllid, risg a llywodraethu. Mae holl aelodau'r Pwyllgor yn cymryd rhan mewn proses arfarnu flynyddol.

Yn 2022, cyfarfu'r Pwyllgor bum gwaith a chyflwynodd ddau adroddiad ffurfiol am ei waith a'i ganfyddiadau i'r Cyngor. Yn ogystal, cafodd aelodau'r Pwyllgor y cyfle i ddysgu mwy am feysydd penodol o'r busnes a'u risgiau, a'u craffu, yn ystod tair sesiwn seminar a diwrnod a dreuliwyd yn arsylwi gweithrediadau yn y Gwasanaethau Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol (MPTS) ac yn ein canolfan alwadau.

Mae'r Pwyllgor yn seilio'i raglen waith flynyddol ar risg ac mae ein Cofrestr Risg a Chyfleoedd Corfforaethol yn adlewyrchu'r prif risgiau strategol yr ydym yn eu rheoli. Mae gweithgarwch goruchwylio a chraffu y Pwyllgor yn cyflawni rôl gwerthfawr wrth sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli a bod cyfleoedd yn cael eu hymestyn trwy gyfrwng systemau llywodraethu, rheolaeth fewnol a threfniadau rheoli risg effeithiol.

## Gweithgareddau allweddol yn ystod 2022

Yn ystod 2022, dilynodd y Pwyllgor raglen o waith archwilio mewnol a gynlluniwyd. Bu'n craffu 19 o adroddiadau archwilio, a oedd yn cynnwys ystyried sut y mae'r sefydliad yn parhau i ymateb i ffyrdd newydd o weithio ar ôl y pandemig. Yn benodol, bu'r Pwyllgor yn archwilio'r cynnydd a sicrhawyd ar gynlluniau er mwyn adfer yn sgil y gwaith sydd wedi cronni yn ein hadran Addasrwydd i Ymarfer ac o fewn MPTS, a chwblhaodd adolygiadau cynnydd rheolaidd gyda'n gwaith i gynorthwyo rhaglen diwygio rheoliadol y Llywodraeth. Tuag at ddiwedd y flwyddyn, roedd y Pwyllgor wedi troi ei olygon at gydnerthedd sefydliadol ehangach, gan adlewyrchu'r risgiau a oedd yn dod i'r amlwg yn sgil yr argyfwng ariannol byd-eang a'r potensial o ddioddef prinder tanwydd.

Yn ystod pob un o'i gyfarfodydd, roedd y Pwyllgor wedi:

- trafod ystod eang o risgiau strategol er mwyn cynnig cefndir pwysig i'w ddealltwriaeth o'r sialensiau a'r cyfleoedd yr oedd CMC yn eu hwynebu
- ystyried y sicrwydd a oedd ganddo o ran y ffordd yr oedd y sefydliad yn ymateb i fygythiadau a chyfleoedd a oedd yn dod i'r amlwg
- herio ein Cofrestr Cyfleoedd Corfforaethol a Risg
- craffu canfyddiadau archwilio a'r adolygiad

dysgu er mwyn teimlo'n fodlon bod y camau yr oeddent yn cael eu cymryd yn briodol

- monitro gweithrediad argymhellion a wnaethpwyd mewn adroddiadau archwilio blaenorol er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu rheoli mewn ffordd effeithiol
- adolygu unrhyw ganfyddiadau a gwersi a ddysgwyd o waith a gynhaliwyd mewn perthynas â digwyddiadau niweidiol arwyddocaol.

Roedd gweithgareddau allweddol eraill yn ystod 2022 yn cynnwys:

- cynnal ymarfer caffael archwilio mewnol
- craffu Adroddiad blynyddol a chyfrifon 2021
- adolygu adroddiad blynyddol a barn y Pennaeth Archwilio Mewnol a oedd yn cynnig sicrwydd sylweddol bod y systemau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol a weithredwyd yn ystod 2022 wedi cael eu cynllunio'n dda ar y cyfan a'u bod yn gweithio mewn ffordd effeithiol er mwyn sicrhau bod amcanion CMC yn cael eu cyflawni
- craffu prawf annibynnol o'n trefniadau rheoli seiberddiogelwch
- adolygu pryderon a fynegwyd i'n Gwarcheidwad Rhyddid i Godi Llais (FTSU), fel yr adroddwyd yn ei Adroddiad Blynyddol 2021
- cynnal seminar er mwyn deall sut yr ydym yn rhoi sylw i'n hagenda cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol
- craffu'r egwyddorion y seiliwyd datblygiad model profi straen ariannol arnynt er mwyn cryfhau ymarferion cynllunio sefyllfaoedd ariannol.

Yn ogystal, treuliodd y Pwyllgor ddiwrnod yn ein swyddfeydd ym Manceinion yn arsylwi gwrandawiad MPTS, yn cysgodi galwadau ffôn a wnaethpwyd i'r Ganolfan Gyswllt ac yn arsylwi rhan o arholiad PLAB y Ganolfan Asesu Clinigol.

Cyn adolygu'r Cyfrifon a'r Adroddiad Blynyddol, cynhaliodd y Pwyllgor seminar adrodd ariannol.

## Rheoli risg yn 2022

Mae rheoli risg yn parhau i fod yn rhan annatod o drafodaethau a gweithrediadau ar bob lefel yn y busnes ac mae'n rhan annatod o waith y Pwyllgor. Mae trafodaeth agored am risg ar dechrau pob cyfarfod yn cynnig y cyfle i ystyried y risgiau presennol y mae CMC yn eu hwynebu a meysydd sy'n dod i'r amlwg yn yr amgylchedd allanol ehangach. Mae gennym set aeddfed o drefniadau rheoli risg sydd wedi'u hymwreiddio yn ein gweithgareddau o ddydd i ddydd a defnyddir cofrestrau risg fel offeryn er mwyn nodi, cyfleu, monitro a rheoli risgiau gweithredol a risgiau prosiect, er mwyn gwella'r ffordd y rheolir y busnes. Mae ein Cofrestr Risg a Chyfleoedd Corfforaethol ar gael fel rhan o bapurau'r Cyngor a'r Bwrdd Gweithredol a gyhoeddir ar ein gwefan, a chaiff ei ddiweddaru'n rheolaidd.

Trwy gydol 2022, roedd y cyd-destun ehangach wedi parhau i fod yn gythryblus. Fel rhan o'i waith, bu'r Pwyllgor yn ystyried yn brydlon effaith yr argyfyngau economaidd ac ynni a oedd yn esblygu yn ystod y flwyddyn, gan anelu'n benodol at asesu a gwella cydnerthedd sefydliadol. Roedd hyn yn cynnwys myfyrio am y risgiau gweithredol, ariannol, gwleidyddol ac i'n henw da y gallem eu hwynebu yn y dyfodol pe na bai'r sefydliad yn barod i reoli'r sialensiau a fydd yn codi.

Roedd gweithgarwch rheoli risgiau mewn perthynas â meysydd gweithgarwch allweddol eraill yn cynnwys:

- gofynion a goblygiadau diwygio rheoliadol
- rheoli paratoadau ar gyfer effaith Brexit
- paratoi ar gyfer cyflwyno'r Asesiad Trwyddedu Meddygol yn 2024
- ffocws parhaus ar waith y sefydliad ynghylch tegwch rheoliadol, gwaredu patrymau anghymesur o ran cyfeiriadau pryderon addasrwydd i ymarfer ar sail ethnigrwydd a lleoliad sicrhau cymhwyster meddygon, a gwaredu gwahaniaethu, anfantais, ac annhegwch mewn addysg a hyfforddiant meddygol israddedig ac ôl-raddedig
- ymateb i amrediad o ymchwiliadau ac ymholiadau cyhoeddus.

Yn ogystal, roedd y sefydliad wedi rheoli ac ymateb i faterion arwyddocaol wrth iddynt godi. Mae achos llys Zholia Alemi ym mis Chwefror 2023, a arweiniodd at ddedfryd o garchar am ffugio ei chymwysterau meddygol (yr honnwyd eu bod o Seland Newydd) ym 1995, gan sicrhau swyddi fel seiciatrydd ysbyty mewn ffordd dwyllodrus dros gyfnod o 20 mlynedd, yn ein hatgoffa o bwysigrwydd rôl rheoliadol CMC, gan gynnwys cofrestru meddygon o wledydd tramor.

Bellach, caiff yr holl gymwysterau a gyflwynir gyda chais i gofrestru eu dilysu gyda'r ffynhonnell sylfaenol (gan gynnwys ar gyfer meddygon sydd â chymwysterau AEE) ac rydym yn hyderus na fyddai cais o'r fath a fyddai'n ein cyrraedd heddiw yn llwyddo i basio ein prosesau adolygu a rheoli llym.

## Dysgu gan ddigwyddiadau a materion

Mae gan CMC ddiwylliant cryf o ddysgu a sicrhau gwelliant parhaus. Mae hyn yn cynnwys dull gweithredu cadarn tuag at gynnal adolygiadau dysgu ac adolygiadau o ddigwyddiadau arwyddocaol (SERs) er mwyn nodi cyfleoedd i wella. Ystyr digwyddiad arwyddocaol yw pan fydd digwyddiad wedi cael effaith niweidiol o bwys ar y sefydliad, neu roedd ganddo y potensial i gael effaith niweidiol o bwys ar y sefydliad. Mae cynnal SERs yn caniatáu i'r sefydliad nodi sut y mae digwyddiadau yn digwydd a defnyddir yr hyn a ddysgir i gryfhau'r trefniadau rheoli ar gyfer y dyfodol pan fo hynny'n briodol. Mae gweithgarwch cynllunio archwilio a sicrhau risg y sefydliad yn cynnig arweiniad, cymorth, her, cynlluniau gweithredu a sicrwydd ansawdd annibynnol ar gyfer SERs a'u canfyddiadau.

Cynhaliwyd chwech SER yn ystod 2022.

- Roedd pedwar yn ymwneud â cheisiadau cofrestru twyllodrus gan feddygon.
- Roedd un yn ymwneud ag oedi a oedd wedi digwydd rhwng cyfeirio achos ar gyfer paratoadau cyfreithiol a rhestru gwrandawiad tribiwnlys.
- Roedd un yn ymwneud â'r ffaith bod y drwydded nawdd a roddir gan y Swyddfa Gartref, sy'n galluogi CMC i noddi gweithwyr medrus o wledydd tramor i weithio yn y DU, wedi dod i ben.

Craffwyd pob un o'r rhain gan y Pwyllgor Risg ac Archwilio ac fe'u hadolygwyd yn unol â'r polisi er mwyn adrodd i'r Comisiwn Elusennau. Barnodd yr ymddiriedolwyr nad oedd y digwyddiadau hyn wedi cyrraedd y trothwy ar gyfer adrodd

am ddigwyddiadau difrifol. Er hyn, roedd canfyddiadau pob adolygiad wedi cynnig cyfle a groesawyd i fyfyrio am brosesau a systemau ac i wneud gwelliannau pan gawsant eu nodi.

Yn ogystal, bu'r pwyllgor yn trafod materion a oedd wedi codi ynghylch y ffordd y deliwyd ag achos addasrwydd i ymarfer yn achos meddyg a oedd wedi wynebu sancsiynau, a oedd wedi cael eu gwyrdroi yn ddiweddarach. Roedd canlyniad yr achos wedi arwain at bryderon am brosesau a gweithgarwch penderfynu CMC, gan gynnwys a oedd tuedd wedi cyflawni unrhyw ran.

Gan ymateb i'r pryderon hyn, comisiynodd CMC adolygiad dysgu annibynnol, a gadeiriwyd ar y cyd gan Athro Iqbal Singh CBE a Martin Forde KC, er mwyn nodi a oedd unrhyw wersi i'w dysgu o'r achos. Er na chanfu'r adolygiad unrhyw dystiolaeth glir neu bendant i awgrymu bod tuedd wedi effeithio ar yr achos, canfu bod CMC wedi colli sawl cyfle i asesu a oedd yr honiadau wrth wraidd yr achos yn ddigon difrifol i gael eu cyfeirio at dribiwnlys, ac ymddiheurodd y sefydliad am hynny. Yn ogystal, pwysleisiodd yr adolygiad bod angen i CMC wneud mwy i ymwreiddio diwylliant o chwilfrydedd proffesiynol a diwylliannol ac o godi llais, a'i bod yn hanfodol ei fod yn parhau i chwilio am unrhyw duedd mewn ffordd ragweithiol.

Roedd y canfyddiadau hyn wedi cynnig momentwm pellach i CMC ganlyn ei uchelgais mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (ED&I) a'r targedau a osodwyd gan y Cyngor am hyn yn 2021. Mae'r targedau yn cynnig ffordd o sicrhau bod y sefydliad yn atebol am gyflawni rôl wrth sicrhau newid. Maent yn dangos ymrwymiad hefyd i ddylanwadu ar a gweithio gyda sefydliadau eraill yn y system sy'n gallu gwneud gwahaniaeth

## Ein gwaith ystod 2023

Yn 2023, bydd y Pwyllgor yn parhau i ganolbwyntio ar risgiau mewn perthynas â meysydd gweithrediadau allweddol a sicrwydd ynghylch y rhaglenni newid sefydliadol y buom yn gweithio arnynt yn ystod 2022, gan gynnwys:

- paratoi ar gyfer gweithrediad rheoleiddio cymdeithion meddygol a chymdeithion anesthesia
- camau terfynol y cyfnod pontio ar ôl Brexit
- y newidiadau deddfwriaethol yr ydym wedi bod yn eu ceisio trwy gyfrwng diwygio rheoliadol.

Bydd yn ceisio sicrwydd hefyd bod newidiadau gweithredol cadarnhaol sydd wedi digwydd ar ôl y pandemig, megis manteisio i'r eithaf ar y budd o gynnal gwrandawiadau tribiwnlys rhith a chyflwyno archwiliadau adnabod digidol ar gyfer meddygon sy'n dymuno ymuno â'r gofrestr, yn cael eu gwireddu.

Cymeradwywyd gan yr ymddiriedolwyr ar 15 Mehefin 2023 ac fe'u llofnodwyd ar eu rhan gan:



Bonesig Carrie MacEwen

# Adroddiad yr archwilwyr annibynnol i ymddiriedolwyr CMC

## Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol y Cyngor Meddygol Cyffredinol ('y cwmni elusennol') a'i is-gwmni ('y grŵp') ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2022, sy'n cynnwys y Datganiad Cyfunol o Weithgareddau Ariannol, y Fantolen Gyfunol, y Datganiad Llif Arian Cyfunol a'r nodiadau i'r datganiadau ariannol, gan gynnwys polisïau cyfrifyddu arwyddocaol. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu y Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102, y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU ac yng Ngweriniaeth Iwerddon (Arfer Cyfrifyddu y Deyrnas Unedig a Dderbynnir yn Gyffredinol).

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn cynnig darlun cywir a theg o gyflwr materion y grŵp a'r cwmni elusennol ar 31 Rhagfyr 2022 ac o incwm a gwariant y grŵp ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar yr adeg honno;
- wedi cael eu paratoi yn gywir yn unol ag Arfer Cyfrifyddu y Deyrnas Unedig a Dderbynnir yn Gyffredinol; ac
- wedi cael eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006 a Charities and Trustee Investment (Scotland) Act 2005 a Rheoliadau 6 ac 8 Charities Accounts (Scotland) Regulations 2006 (diwygiwyd).

## Sail dros y farn

Cynhaliom ein harchwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) (ISAs (DU)) a'r gyfraith berthnasol. Rhoddir disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau dan y safonau hynny yn adran cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio datganiadau ariannol yn ein hadroddiad. Rydym yn annibynnol ar y cwmni elusennol yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Moesegol FRC, ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credwn bod y dystiolaeth archwilio a sicrhawyd gennym yn ddigonol ac yn briodol er mwyn cynnig sail dros ein barn.

## Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rydym wedi dod i'r casgliad bod defnydd yr ymddiriedolwr o sail cyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Ar sail y gwaith a gyflawnom, nid ydym wedi nodi unrhyw ansicrwydd o bwys sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau y gallent, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth ar allu y grŵp neu'r cwmni elusennol i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r adeg pan awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Disgrifir ein cyfrifoldebau ni a chyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

# Gwybodaeth arall

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth sy'n ymddangos yn yr adroddiad blynyddol, ac eithrio'r datganiadau ariannol ac adroddiad ein harchwilydd amdanynt. Nid yw'n barn am y datganiadau ariannol yn cynnwys y wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau y mynegir hynny yn glir yn ein hadroddiad, nid ydym yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sy'n cynnig sicrwydd amdanynt.

Ein cyfrifoldeb ni yw darllen y wybodaeth arall, a thrwy wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth yn anghyson â'r datganiadau ariannol mewn ffordd o bwys neu ei bod yn ymddangos bod ein gwybodaeth ni a sicrhawyd yn yr archwiliad neu fel arall wedi cael ei chamfynegi mewn ffordd o bwys. Os byddwn yn nodi anghysondebau o bwys o'r fath neu gamfynegiadau o bwys amlwg, mae gofyn i ni benderfynu a yw hyn yn cyfateb â chamfynegi o bwys yn y datganiadau ariannol eu hunain. Ar sail y gwaith a gyflawnwyd gennym, os byddwn yn dod i'r casgliad bod camfynegi o bwys o ran y wybodaeth arall hon, mae gofyn i ni adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

# Barn am faterion eraill a ragnodir gan Ddeddf Cwmnïau 2006

Yn ein barn ni, ar sail y gwaith a gynhaliwyd yn ystod ein harchwiliad

- mae'r wybodaeth a roddir yn adroddiad yr ymddiriedolwyr, sy'n cynnwys adroddiad y cyfarwyddwyr a'r adroddiad strategol a baratowyd at ddibenion cyfraith cwmnïau, ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer, yn cyd-fynd â'r datganiadau ariannol; ac
- mae'r adroddiad strategol ac adroddiad y cyfarwyddwyr a gynhwyswyd yn adroddiad yr ymddiriedolwyr wedi cael eu paratoi yn unol â gofynion cyfreithiol perthnasol.

# Materion y mae gofyn i ni adrodd amdanynt trwy eithriad

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth o'r grŵp a'r cwmni elusennol a'u hamgylchedd a sicrhawyd yn ystod yr archwiliad, nid ydym wedi nodi camddatganiadau o bwys yn yr adroddiad strategol nac yn adroddiad y cyfarwyddwyr a gynhwysir yn adroddiad yr ymddiriedolwyr.

Nid oes gennym unrhyw beth i’w adrodd mewn perthynas â’r materion canlynol lle y mae Deddf Cwmnïau 2006 a Charities Accounts (Scotland) Regulations 2006 yn mynnu ein bod yn adrodd i chi:

- os na chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol a chywir yn ein barn ni; neu

- os nad yw'r datganiadau ariannol yn cytuno gyda'r adroddiadau a'r cofnodion cyfrifyddu yn ein barn ni; neu
- os na wneir datgeliadau penodol am dâl ymddiriedolwyr yn ein barn ni, y mae'r gyfraith yn nodi bod gofyn iddynt gael eu gwneud; neu
- os nad ydym wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau y mae gofyn i ni eu cael ar gyfer ein harchwiliad.

## Cyfrifoldebau ymddiriedolwyr

Fel yr esbonnir yn llawnach yn natganiad cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr a nodir ar dudalen 52, mae'r ymddiriedolwyr (y maent yn gyfarwyddwyr y cwmni elusennol at ddibenion cyfraith cwmnïau hefyd) yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am deimlo'n fodlon eu bod yn cynnig darlun cywir a theg, ac am reolaeth fewnol o'r fath ag sy'n angenrheidiol ym marn yr ymddiriedolwyr er mwyn galluogi gweithgarwch i baratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd rhag camfynegi o bwys, boed hynny o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu y cwmni elusennol i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, pan fo hynny'n briodol, materion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod yr ymddiriedolwyr yn bwriadu dirwyn y cwmni elusennol i ben neu orffen gweithrediadau, neu os nad oes ganddynt ddewis amgen realistig ond gwneud hynny.

## Cyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol

Fe'n penodwyd yn archwilydd dan adran 44(1)(c) Charities and Trustee Investment (Scotland) Act 2005 a than Ddeddf Cwmnïau 2006 ac rydym yn adrodd yn unol â'r Deddfau a rheoliadau perthnasol a wnaethpwyd oddi tanynt neu sy'n cael effaith oddi tanynt.

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol fel cyfanwaith yn rhydd rhag camfynegi o bwys, boed hynny o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn cynnig lefel uchel o ran sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhaliwyd yn unol ag ISAs (DU) wastad yn canfod camfynegi o bwys pan fydd yn bodoli. Gall achosion o gamfynegi ddeillio o dwyll neu gamgymeriad, ac fe'u hystyrir yn achosion o bwys pe byddai'n rhesymol disgwyl y byddent, ar eu pen eu hunain neu ar y cyd, yn dylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Isod, nodir manylion y graddau yr ystyriwyd bod yr archwiliad yn gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll a diffyg cydymffurfiaeth gyda chyfreithiau a rheoliadau.

Mae modd gweld disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau ar gyfer yr archwiliad o'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol sef: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'n hadroddiad archwilydd.

## Y graddau yr ystyriwyd bod yr archwiliad yn gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth gyda chyfreithiau a rheoliadau. Nodom ac asesom risgiau camddatgan o bwys mewn perthynas â'r datganiadau ariannol oherwydd afreoleidd-dra, boed hynny o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad, a thrafodwyd y rhain rhwng aelodau ein tîm archwilio. Yna, cynlluniom a chyflawnom weithdrefnau archwilio a oedd yn ymateb i'r risgiau hynny, gan gynnwys sicrhau tystiolaeth archwilio sy'n ddigonol ac yn briodol er mwyn cynnig sail ar gyfer ein barn.

Sicrhaom ddealltwriaeth o'r fframweithiau cyfreithiol a rheoliadol y mae'r grŵp a'r cwmni elusennol yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny sy'n cael effaith uniongyrchol ar ddyfarnu datgeliadau a symiau o bwys yn y datganiadau ariannol. Y cyfreithiau a'r rheoliadau a ystyriom yn y cyd-destun hwn oedd Deddf Cwmnïau 2006, Deddf Meddygol 1983 a Charities and Trustee Investment (Scotland) Act 2005, ynghyd â'r SORP Elusennau (FRS102). Asesom y cydymffurfiaeth gofynnol gyda'r rheoliadau a'r cyfreithiau hyn fel rhan o'n gweithdrefnau archwilio ar gyfer yr eitemau cysylltiedig yn y datganiad ariannol.

Yn ogystal, ystyriom ddarpariaethau cyfreithiau a rheoliadau eraill nad ydynt yn cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol ond gallai cydymffurfiaeth â nhw fod yn hollbwysig i allu y grŵp a'r cwmni elusennol i weithredu neu i osgoi cosb o bwys. Yn ogystal, ystyriom y cyfleoedd a'r cymhellion y gallent fodoli yn y grŵp a'r cwmni elusennol mewn perthynas â thwyll. Y cyfreithiau a'r rheoliadau a ystyriom yn y cyd-destun hwn ar gyfer gweithrediadau'r DU oedd y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), a deddfwriaeth cyflogaeth.

Mae safonau archwilio yn cyfyngu ar y gweithdrefnau archwilio gofynnol i nodi diffyg cydymffurfiaeth gyda'r cyfreithiau a'r rheoliadau hyn i ymholi'r ymddiriedolwyr a rheolwyr eraill ac archwilio gohebiaeth gyfreithiol a rheoliadol, os o gwbl.

Nodom risg fwyaf effaith o bwys ar y datganiadau ariannol gan afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, i fod o fewn amseru cydnabod incwm, amcangyfrifon ynghylch darpariaethau cyfreithiol, dadfeiliadau a'r rheolwyr yn anwybyddu trefniadau rheoli. Roedd ein gweithdrefnau archwilio er mwyn ymateb i'r risgiau hyn yn cynnwys gwneud ymholiadau gyda'r rheolwyr, archwilio mewnol, cyngor cyfreithiol a'r Pwyllgor Risg ac Archwilio ynghylch eu gweithgarwch nhw i adnabod ac asesu risgiau afreoleidd-dra, profi samplau ynghylch postio cyfnodolion, adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu am duedd, adolygu gohebiaeth reoliadol gyda'r Comisiwn Elusennau, profi incwm MAPS o gytundeb cyllid sylfaenol gyda'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol o'r datganiadau ariannol a darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu.

Oherwydd cyfyngiadau anochel archwiliad, ceir risg na ellir ei osgoi nad ydym wedi darganfod rhai camddatganiadau o bwys yn y datganiadau ariannol efallai, er ein bod wedi cynllunio a chyflawni ein harchwiliad yn gywir yn unol â safonau archwilio. Er enghraifft, y pellaf y mae diffyg cydymffurfiaeth gyda chyfreithiau a

rheoliadau (afreoleidd-dra) o'r digwyddiadau a'r trafodion a adlewyrchir yn y datganiadau ariannol, y lleiaf tebygol y byddai'r gweithdrefnau y mae'n anochel eu bod yn gyfyngedig ac sy'n ofynnol gan safonau archwilio, yn ei nodi. Yn ogystal, yn yr un modd ag unrhyw archwiliad, roedd risg uwch o hyd o fethu darganfod afreoleidd-dra, oherwydd y gallai hyn gynnwys cydgynllwynio, ffugio, hepgoriadau bwriadol, camliwio, neu anwybyddu trefniadau rheoli mewnol. Nid ydym yn gyfrifol am atal diffyg cydymffurfiaeth ac ni ellir disgwyl i ni ganfod diffyg cydymffurfiaeth gyda'r holl gyfreithiau a rheoliadau.

## Defnydd o'n hadroddiad

Cyflwynir yr adroddiad hwn i ymddiriedolwyr yr elusen yn unig, fel corff, yn unol â Phennod 3 rhan 16 Deddf Cwmnïau 2006, ac i ymddiriedolwyr y cwmni elusennol, fel corff, yn unol â Rheoliad 10 Charities Accounts (Scotland) Regulations 2006. Cynhaliwyd ein gwaith archwilio fel y gallwn ddatgan i aelodau ac ymddiriedolwyr y cwmni elusennol y materion hynny y mae gofyn i ni eu datgan iddynt mewn adroddiad archwilydd a hynny heb fod am unrhyw ddiben arall. I'r graddau llawnaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un ac eithrio'r cwmni elusennol, aelodau'r cwmni elusennol fel corff ac ymddiriedolwyr y cwmni elusennol fel corff, dros ein gwaith archwilio, dros yr adroddiad hwn, neu'r barnau yr ydym wedi'u ffurfio.



Naziar Hashemi
Archwilydd Statudol Uwch
Dros ac ar ran
Crowe U.K. LLP
Archwilydd Statudol
55 Ludgate Hill
Lludain
EC4M 7JW

Dyddiad: 27th Mehefin 2023

# Datganiad cyfunol o'r gweithgareddau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2022

| | Nodyn | Cronfeydd anghyfyngedig £'000 | Cronfeydd cyfyngedig £'000 | **Cyfanswm 2022 £'000** | Cyfanswm 2021 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Incwm** | | | | | |
| **O weithgareddau elusennol** | | | | | |
| Cofrestru | 2 | 125,851 | - | **125,851** | 114,545 |
| Cofrestriadau arbenigol a Meddygon Teulu | 2 | 4,714 | - | **4,714** | 4,047 |
| Ailddilysu | 2 | 182 | - | **182** | 107 |
| **Gweithgareddau masnachu eraill** | 3 | 159 | - | **159** | 337 |
| **Gweithrediadau masnachu masnachol** | 3 | 351 | - | **351** | 239 |
| **Buddsoddiadau** | 3 | 1,236 | - | **1,236** | 154 |
| **Cyllid gan yr adran Iechyd - MAPS*** | 3 | - | 2,506 | **2,506** | 2,605 |
| **Arall** | 3 | 214 | - | **214** | 308 |
| **Cyfanswm yr adnoddau sy'n dod i mewn** | | 132,707 | 2,506 | **135,213** | 122,342 |
| **Gwariant** | | | | | |
| **Codi arian** | | | | | |
| Gweithgareddau masnachu masnachol | 4 | 325 | - | **325** | 246 |
| Costau rheoli buddsoddiadau | 4 | 209 | - | **209** | 249 |
| | | 534 | - | **534** | 495 |
| **Gweithgareddau elusennol** | | | | | |
| Addasrwydd i ymarfer | 4 | 47,633 | - | **47,633** | 46,882 |
| Cofrestru ac ailddilysu | 4 | 37,122 | - | **37,122** | 29,803 |
| Perthnasoedd allanol | 4 | 16,760 | - | **16,760** | 15,319 |
| Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol | 4 | 14,875 | - | **14,875** | 14,012 |
| Addysg | 4 | 11,308 | - | **11,308** | 9,941 |
| Safonau | 4 | 2,060 | - | **2,060** | 1,920 |
| Cyllid gan yr adran Iechyd - MAPS | 4 | - | 1,551 | **1,551** | 1,749 |
| | | 129,758 | 1,551 | **131,309** | 119,626 |
| **Gwariant arall** | | | | | |
| Darpariaeth gyfreithiol | 11 | 1,398 | - | **1,398** | 144 |
| Darpariaeth dadfeiliadau | 11 | 286 | - | **286** | 1,882 |
| | | 1,684 | - | **1,684** | 2,026 |
| **Cyfanswm y gwariant** | 4 | 131,976 | 1,551 | **133,527** | 122,147 |
| **Gwarged gweithredol** | | 731 | 955 | **1,686** | 195 |
| Enillion/(colledion) net ar fuddsoddiadau | 8 | (4,846) | - | **(4,846)** | 4,879 |
| **Incwm net/(Colled net)** | | (4,115) | 955 | **(3,160)** | 5,074 |
| **Enillion a cholledion cydnabyddedig eraill** | | | | | |
| (Colled)/ennill actiwaraidd ar y cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio | 16 | (41,785) | - | **(41,785)** | 30,143 |
| **Symud net mewn cronfeydd** | | (45,900) | 955 | **(44,945)** | 35,217 |
| Cyfanswm y cronfeydd a ddygwyd ymlaen | | 98,942 | 856 | **99,798** | 64,581 |
| **Cyfanswm y cronfeydd a gariwyd ymlaen** | | 53,042 | 1,811 | **54,853** | 99,798 |

Corfforodd y Cyngor Meddygol Cyffredinol is-gwmni masnachol yn ei lwyr berchnogaeth ar 16 Rhagfyr 2016, gyda'r diben o ddarparu gwasanaethau masnachol gan gynnwys gwasanaethau ymgynghori, hyfforddiant ac achredu. Mae'r Elusen wedi manteisio ar eithriad rhag cyflwyno'i chyfrif elw a cholled anghyfunol. Y symudiad cronfeydd ar gyfer yr Elusen yn ystod y flwyddyn yw (£45,900,000).

* Darparodd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) gyllid yn ystod 2022 er mwyn parhau gyda'r gwaith o sicrhau bod cymdeithion meddygol a chymdeithion anesthesia yn cael eu rheoleiddio gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol. Roedd natur y cyllid yn gyfyngedig, ac fe'i wariwyd yn llawn yn ystod y flwyddyn. Talodd cyfran o'r arian am Ddatblygiad y System TG, sydd wedi creu ased yn y fantolen. Yr effaith net ar gronfeydd wrth gefn CMC yw £955,000.  Bydd balans y cronfeydd wrth gefn yn lleihau pan gaiff yr ased ei amorteiddio yn y dyfodol.

# Mantolen

| | | 2022 | | 2021 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Grŵp | Elusen | Grŵp | Elusen |
| | Nodyn | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Asedau sefydlog** | | | | | |
| Asedau anniriaethol sefydlog | 6 | 14,524 | 14,524 | 11,702 | 11,702 |
| Asedau diriaethol sefydlog | 7 | 4,423 | 4,423 | 6,305 | 6,305 |
| Buddsoddiadau | 8 | 56,593 | 56,849 | 61,649 | 61,879 |
| | | **75,540** | **75,796** | **79,656** | **79,886** |
| **Asedau cyfredol** | | | | | |
| Dyledwyr a rhagdaliadau | 9 | 27,057 | 27,101 | 24,041 | 24,096 |
| Balansau banc ac arian | | 51,112 | 50,750 | 46,821 | 46,502 |
| | | **78,169** | **77,851** | **70,862** | **70,598** |
| **Rhwymedigaethau** | | | | | |
| Credydwyr: symiau sy'n ddyledus cyn pen blwyddyn | 10 | (87,181) | (87,119) | (80,538) | (80,504) |
| Rhwymedigaethau cyfredol net | | (9,012) | (9,268) | (9,676) | (9,906) |
| **Cyfanswm yr asedau yn llai rhwymedigaethau cyfredol** | | **66,528** | **66,528** | **69,980** | **69,980** |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau | 11 | (8,427) | (8,427) | (6,743) | (6,743) |
| **Asedau net heb gynnwys ased/(rhwymedigaeth) y cynllun pensiwn** | | **58,101** | **58,101** | **63,237** | **63,237** |
| Ased/(rhwymedigaeth) cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio | 16 | (3,248) | (3,248) | 36,561 | 36,561 |
| **Cyfanswm yr asedau net** | | **54,853** | **54,853** | **99,798** | **99,798** |
| Cronfeydd incwm anghyfyngedig | | 56,290 | 56,290 | 62,381 | 62,381 |
| Cronfeydd incwm cyfyngedig | | 1,811 | 1,811 | 856 | 856 |
| Cronfa wrth gefn pensiynau | | (3,248) | (3,248) | 36,561 | 36,561 |
| **Cyfanswm y cronfeydd** | 12, 13 | **54,853** | **54,853** | **99,798** | **99,798** |

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan yr ymddiriedolwyr ac fe'u hawdurdodwyd i'w cyhoeddi ar 15 Mehefin 2023.
Fe'u llofnodwyd ar ran yr ymddiriedolwyr gan:



**Bonesig Carrie MacEwen**
Cadeirydd y Cyngor

# Datganiad llif arian cyfunol

| | 2022 | | 2021 | |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | £'000 | £'000 |
| **Llif arian o weithgareddau gweithredol:** | | | | |
| **Arian net a ddarparwyd gan/(defnyddiwyd mewn) gweithgareddau gweithredol (nodyn i isod)** | | 12,290 | | 16,902 |
| **Llif arian o weithgareddau buddsoddi:** | | | | |
| Difidendau, llog a rhenti gan fuddsoddiadau | 522 | | 84 | |
| Prynu eiddo, cyfarpar, offer ac eitemau annirweddol | (8,521) | | (8,293) | |
| **Arian net a ddefnyddiwyd mewn gweithgareddau buddsoddi** | | **(7,999)** | | **(8,209)** |
| **Newid mewn arian a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod (nodyn ii isod)** | | **4,291** | | **8,693** |

**Nodyn (i)**

| **Llif arian o weithgareddau gweithredol** | 2022 | 2021 |
|---|---|---|
| Adnoddau net sy'n dod i mewn/(mynd allan) | (3,160) | 5,074 |
| Incwm buddsoddi a llog | (1,236) | (154) |
| Symud buddsoddi net | 5,056 | (4,629) |
| Eitemau anariannol – dibrisiant ac amorteiddio | 7,581 | 8,165 |
| Eitemau anariannol – asedau a ddilëwyd | - | 1 |
| Cost a byrhad pensiwn am y gwasanaeth a roddwyd | 100 | - |
| Cost gwasanaeth cyfredol y cynllun pensiwn | (1,362) | (2,360) |
| Cyfraniad i'r cynllun pensiwn | (3,016) | (692) |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn dyledwyr | 8,327 | 11,497 |
| **Arian net a ddarparwyd gan/(defnyddiwyd mewn) gweithgareddau gweithredol** | **12,290** | **16,902** |

**Nodyn (ii)**

| **Arian a chyfwerthoedd** | **Arian yn y banc ac mewn llaw £'000** | **Cyfanswm £'000** |
|---|---|---|
| Balansau ar 1 Ionawr 2022 | 46,821 | **46,821** |
| Cynnydd net mewn arian a chyfwerthoedd arian | 4,291 | **4,291** |
| **Balansau ar 31 Rhagfyr 2022** | 51,112 | **51,112** |

# Nodiadau i’r cyfrifon

## Gwybodaeth gyffredinol

Rydym yn gorff statudol a lywodraethir gan Ddeddf Meddygol 1983 ac rydym wedi cofrestru gyda Chomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr (1089278), a gyda Swyddfa Rheolydd Elusennau yr Alban (SC037750).

## 1. Prif bolisïau cyfrifyddu

### (i) Confensiwn cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol er mwyn cynnig darlun 'cywir a theg' ac maent wedi gwyro o Reoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 dim ond i'r graddau sy'n ofynnol er mwyn darparu darlun 'cywir a theg'. Mae'r gwyriad hwn wedi cynnwys dilyn y SORP Elusennau (FRS 102) a gyhoeddwyd ar 16 Gorffennaf 2014, ac a ddiweddarwyd ar 1 Hydref 2019.

Paratowyd ein datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol ac yn unol â'r Datganiad Elusennau o'r Arfer a Argymhellir (FRS 102) – a ddaeth i rym ar 1 Hydref 2019, sy'n berthnasol i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon, Deddf Elusennau 2011, Charities and Trustee Investment (Scotland) 2005, Charities Accounts (Scotland) Regulations 2006 a'r Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y DU fel y mae’n berthnasol o 1 Hydref 2019. Mae CMC yn bodloni diffiniad endid er budd y cyhoedd dan FRS 102.

**(ii)** Ar 16 Rhagfyr 2016, corfforodd CMC is-gwmni masnachol, Gwasanaethau Rhyngwladol CMC Ltd, rhif cwmni 10530157, sy'n eiddo i'r Cyngor Meddygol Cyffredinol yn llwyr ar ffurf cyfalaf cyfrannau.

**(iii)** Mae’r prif bolisïau cyfrifyddu a fabwysiadwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol, a weithredwyd mewn ffordd gyson, fel a ganlyn:

#### Adnoddau sy’n dod i mewn

Caiff incwm ei gynnwys yn y datganiad o'r gweithgareddau ariannol pan fodlonir yr holl feini prawf canlynol:

- Hawl – rheolaeth dros yr hawliau neu fynediad arall er budd economaidd wedi'i drosglwyddo i CMC
- Tebygolrwydd – mae'n fwy tebygol na pheidio y bydd y buddion economaidd yn llifo i CMC
- Mesur – mae modd mesur y gwerth mewn ffordd ddibynadwy.

Mae’r polisïau penodol canlynol yn weithredol:

- Mae taliadau cadw blynyddol yn ymwneud â gwasanaethau i'w darparu dros gyfnod o 12 mis. Caiff incwm ei ohirio a'i ryddhau i'r datganiad gweithgareddau ariannol ar sail llinell syth dros y cyfnod y mae'r incwm yn ymwneud ag ef.
- Caiff ffioedd cofrestru, gan gynnwys ffioedd cofrestru amodol, eu cydnabod pan ddyfarnir cofrestriad.
- Caiff ffioedd y Bwrdd Asesiadau Ieithyddol a Phroffesiynol (PLAB) eu cydnabod pan fydd arholiadau'n cael eu sefyll.
- Caiff incwm gan fuddsoddiadau a chronfeydd a gedwir ar adnau ei gydnabod pan fydd yn dderbyniadwy ac mae modd mesur y swm yn fanwl.

Cydnabyddir yr holl incwm fel incwm gros.

### Y sail ar gyfer cydnabod rhwymedigaethau

Mae gwariant yn cynnwys costau staffio, costau swyddfa, costau pwyllgor, costau cyfreithiol, costau llety, prynu asedau a chostau ariannol, actiwaraidd a phroffesiynol.

Caiff adnoddau a ddefnyddiwyd eu cynnwys yn y datganiad o'r gweithgareddau ariannol ar sail groniadol. Cydnabyddir yr holl rwymedigaethau cyn gynted ag y bydd rhwymedigaeth gyfreithiol neu ymarferol yn ymrwymo'r elusen i'r gwariant.

### Y sail ar gyfer neilltuo adnoddau i'w defnyddio

Caiff mwyafrif ein hadnoddau eu gwario yn uniongyrchol wrth ganlyn ein nodau elusennol, ac fe'u nodir felly yn y datganiad o weithgareddau ariannol.

Caiff costau llety, costau llywodraethu a chostau cymorth eraill eu dosbarthu i weithgareddau elusennol ar sail cyfrifiad o'r staff ar draws y sefydliad.

### TAW anadferadwy

Caiff unrhyw TAW anadferadwy ei godi ar y datganiad o'r gweithgareddau ariannol fel rhan o eitem berthnasol y gwariant, neu caiff ei gyfalafu fel rhan o gost yr ased cysylltiedig pan fo hynny'n briodol.

### Treth

Gallwn fanteisio ar yr eithriadau rhag treth ar incwm ac enillion sydd ar gael i elusennau, felly ni chaiff unrhyw dreth ei thalu ar yr adnoddau net sy'n dod i mewn.

### Dyledwyr

Fel arfer, caiff dyledwyr masnachol a dyledwyr eraill eu cydnabod yn unol â'r swm setlo sy'n ddyledus ar ôl unrhyw ostyngiad masnachu a gynigir. Fel arfer, caiff rhagdaliadau eu prisio yn unol â'r swm a ragdalwyd sy'n net o unrhyw ostyngiadau masnach sy'n ddyledus.

### Credydwyr a darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau

Caiff credydwyr a darpariaethau eu cydnabod pan fydd gan yr elusen rwymedigaeth gyfreithiol neu ymarferol gyfredol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol. Fe'u cydnabyddir pan fydd hi'n debygol y bydd gofyn trosglwyddo budd economaidd er mwyn setlo'r rhwymedigaeth a phan fydd modd gwneud amcangyfrif dibynadwy o swm y rhwymedigaeth. Fel arfer, caiff credydwyr a darpariaethau eu cydnabod yn unol â'u swm setlo ar ôl ystyried unrhyw ostyngiadau masnach sy'n ddyledus.

### Barnau cyfrifyddu allweddol a ffynonellau allweddol ansicrwydd wrth amcangyfrif

Mae ffynonellau allweddol ansicrwydd wrth amcangyfrif sy'n cael effaith sylweddol ar y symiau a gydnabyddir yn y datganiadau ariannol fel a ganlyn:

- Adolygir yr holl hawliadau am gostau cyfreithiol a wneir yn erbyn CMC, ac nad ydynt wedi cael eu setlo, fesul achos ar ddiwedd y flwyddyn. Caiff darpariaethau eu seilio ar brofiad hanesyddol ac asesiad manwl o fanylion penodol achosion cyfredol. Mae setliad terfynol achosion yn ddibynnol ar nifer o ffactorau, felly mae cywirdeb y ddarpariaeth yn destun swm sylweddol o ansicrwydd.
- Caiff darpariaethau ar gyfer costau dadfeilio eu gwneud ar gyfer yr holl adeiladau sy’n cael eu lesio. Fe’u hasesir fesul achos, gan adlewyrchu gwahanol gyfluniadau adeiladau sy’n cael eu lesio a’r gost o’u hadfer i’w cyflwr gwreiddiol.
- Mae darpariaethau ar gyfer tâl gwyliau yn seiliedig ar lefel go iawn y diwrnodau cronedig a chyflogau pob aelod o staff.

### Asedau diriaethol sefydlog

Caiff asedau diriaethol sefydlog eu datgan yn ôl y gost, net o ddibrisiant ac unrhyw ddarpariaeth ar gyfer amhariad.  Dim ond pan fo cost yr ased neu grŵp yr asedau a gaffaelwyd yn uwch na £5,000 y caiff gwariant ei gyfalafu.

### Asedau anniraethol sefydlog

Mae asedau anniriaethol sefydlog yn cynnwys meddalwedd gyfrifiadurol. Fe'u nodir yn ôl eu cost, net o ddibrisiant ac unrhyw ddarpariaeth ar gyfer amhariad.  Dim ond pan fo cost yr ased neu grŵp yr asedau a gaffaelwyd yn uwch na £5,000 y caiff gwariant ei gyfalafu.

### Dibrisiant

Darparir dibrisiant er mwyn dileu cost, yn llai gwerth gweddilliol amcangyfrifedig yr asedau mewn ffordd gyfartal dros eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig.

Mae'r oes ddefnyddiol amcangyfrifedig fel a ganlyn:

- Adeiladau lesddaliadol a gwelliannau lesddaliadol – pum mlynedd neu gyfnod y brydles sy'n weddill, pa un bynnag yw'r lleiaf.
- Dodrefn, ffitiadau a gosodiadau swyddfa – pum mlynedd neu gyfnod y brydles sy'n weddill, pa un bynnag yw'r lleiaf.
- Offer Technoleg Gwybodaeth (TG) – tair blynedd.
- Asedau anniriaethol:  (meddalwedd TG) – tair blynedd.
- Offer swyddfa arall – tair blynedd ar gyfer eitemau sy'n gysylltiedig â TG a phum mlynedd ar gyfer yr holl eitemau eraill.

Adolygir cyfraddau dibrisiant yn rheolaidd, gan gymharu hyd oes go iawn asedau gyda'r cyfraddau yn y polisi cyfrifyddu.

### Meddalwedd TG trwyddedig

Caiff costau datblygu ar gyfer gweithredu systemau TG newydd eu cyfalafu a'u disbrisio dros 3 blynedd neu oes ddefnyddiol yr ased, pa un bynnag yw'r lleiaf. Caiff costau trwydded y flwyddyn gyntaf eu cyfalafu gan eu bod yn angenrheidiol er mwyn defnyddio'r ased, a chaiff costau trwydded blynyddoedd dilynol eu trin fel gwariant gweithredol.

### Prydlesi gweithredol

Codir y rhent sy'n daladwy dan brydlesi gweithredol ar y datganiad o'r gweithgareddau ariannol ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles.

### Offerynnau ariannol

Mae gan yr elusen asedau a rhwymedigaethau ariannol o fath sy'n eu gwneud yn gymwys fel offerynnau ariannol sylfaenol. Caiff offerynnau ariannol sylfaenol eu cydnabod yn ôl eu gwerth trafod yn y lle cyntaf a'u mesur yn ôl y gost wedi'u hamorteiddio wedi hyn. Mae asedau ariannol sy'n cael eu dal yn ôl y gost wedi'i hamorteiddio yn cynnwys arian a balansau yn y banc, adneuon tymor byr (datganiad llif arian), buddsoddiadau sy'n cael eu dal mewn adneuon arian (nodyn 8), ynghyd â masnach a dyledwyr eraill (nodyn 9). Mae rhwymedigaethau ariannol sy'n cael eu dal yn ôl y gost wedi'i hamorteiddio yn cynnwys masnach a chredydwyr eraill, credydwyr nawdd cymdeithasol a threth a chroniadau (nodyn 10).

### Buddsoddiadau

Mae ein polisi buddsoddi yn gwahanu ein cronfeydd i bedwar categori: y rhai sy'n ofynnol fel cyfalaf gweithio ar gyfer gweithrediad dydd i ddydd arferol y busnes;  y rhai yr ydym yn eu buddsoddi dan reolaeth; y rhai y byddwn yn penderfynu eu buddsoddi mewn is-gwmni masnachu efallai; a'r balans ariannol sy'n weddill, sy'n amrywio yn ystod y flwyddyn.

Dangosir y cronfeydd sy’n cael eu dal fel arian ar gyfer gweithrediad dydd i ddydd arferol y busnes ym mantolen CMC o fewn asedau cyfredol, a dangosir y cronfeydd sy’n cael eu dal am y tymor hwy fel buddsoddiadau.

### Pensiynau

Mae gennym gynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio ar gyfer cyflogeion parhaol. Caewyd y cynllun i aelodau newydd ar 30 Mehefin 2013, ac ar gyfer croniadau yn y dyfodol i aelodau presennol ar 31 Mawrth 2018, ac fe'i ddisodlwyd gan gynllun â chyfraniadau wedi'u diffinio. Caiff gwarged neu ddiffyg y cynllun â buddion wedi'u diffinio ei gydnabod ar y fantolen.  Caiff newidiadau i asedau a rhwymedigaethau'r cynllun eu datgelu a'u neilltuo fel a ganlyn:

- Caiff taliadau sy'n ymwneud â chostau gwasanaeth cyfredol neu yn y gorffennol, ac enillion a cholledion ar setliadau a chwtogiadau, eu cynnwys yn y costau staff ac fe'u codir ar y datganiad o weithgareddau ariannol

- Dangosir llog ar rwymedigaeth/ased buddion wedi'u diffinio net fel swm net o gostau cyllid eraill neu fel adnodd sy'n dod i mewn law yn llaw gydag incwm a llog buddsoddi. Caiff enillion a cholledion actiwaraidd eu cydnabod ar unwaith mewn enillion a cholledion cydnabyddedig eraill ar fuddsoddiadau.

- Caiff yr asedau, y rhwymedigaethau a'r symudiadau yng ngwarged neu ddiffyg y cynllun eu cyfrifo gan actiwarïaid annibynnol cymwys fel diweddariad i'r prisiad actiwaraidd llawn diweddaraf. Dangosir manylion asedau, rhwymedigaethau a phrif dybiaethau'r cynllun â buddion wedi'u diffinio yn y nodiadau i'r cyfrifon.

- Sefydlwyd ein cynllun pensiwn â chyfraniadau wedi'u diffinio ar 1 Gorffennaf 2013. Cofnodir cyfraniadau i'r cynllun yn y datganiad gweithgareddau ariannol yn ystod y flwyddyn y maent yn daladwy i'r cynllun.

- Mae 1 aelod o staff a drosglwyddodd i CMC wrth uno â'r Bwrdd Addysg a Hyfforddiant Meddygol Ôl-raddedig (PMETB) yn cyfrannu at gynllun aml-gyflogwr GIG a chofnodir cyfraniadau i'r cynllun yn y datganiad gweithgareddau ariannol yn ystod y flwyddyn y maent yn daladwy i'r cynllun.

### Cronfeydd a chronfeydd wrth gefn

Mae'r rhan fwyaf o'n cronfeydd yn anghyfyngedig, felly mae modd eu gwario yn unol â disgresiwn yr ymddiriedolwyr, er mwyn canlyn ein nodau elusennol. Caiff cronfeydd cyfyngedig eu gwario yn unol â diben y cyllid.

### Taliadau terfynu

Rhoddir cyfrif am daliadau terfynu cyn gynted ag y bydd y sefydliad yn ymwybodol o'r rhwymedigaeth i dalu'r taliad.

# 2. Incwm gan weithgareddau elusennol

| | Cronfeydd anghyfyngedig | **Cyfanswm 2022 £'000** | Cronfeydd anghyfyngedig | **Cyfanswm 2021 £'000** |
|---|---|---|---|---|
| **Cofrestru** | | | | |
| Ffioedd cadw blynyddol | 104,494 | **104,494** | 99,025 | **99,025** |
| Ffioedd cofrestru | 4,722 | **4,722** | 4,630 | **4,630** |
| Ffioedd cofrestru amodol | 455 | **455** | 416 | **416** |
| Ffioedd PLAB | 16,103 | **16,103** | 10,388 | **10,388** |
| Ffioedd eraill | 77 | **77** | 86 | **86** |
| | 125,851 | **125,851** | 114,545 | **114,545** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cofrestriadau Meddygon Teulu ac Arbenigol** | | | | |
| Ffioedd Tystysgrifau Cwblhau Hyfforddiant | 3,197 | **3,197** | 2,949 | **2,949** |
| Tystysgrif Cymhwystra ar gyfer Cofrestriad Arbenigol/Tystysgrif Cymhwystra ar gyfer ffioedd Cofrestru Meddygon Teulu | 1,476 | **1,476** | 1,072 | **1,072** |
| Ffioedd eraill | 41 | **41** | 26 | **26** |
| | 4,714 | **4,714** | 4,047 | **4,047** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Aliddilysu** | | | | |
| Datganiad blynyddol ailddilysu | 114 | **114** | 98 | **98** |
| Asesiad ailddilysu | 68 | **68** | 9 | **9** |
| | 182 | **182** | 107 | **107** |

# 3. Incwm gan gronfeydd a gynhyrchir

| | Cronfeydd anghyfyngedig | Cronfeydd cyfyngedig | **Cyfanswm 2022 £'000** | Cronfeydd anghyfyngedig | Cronfeydd cyfyngedig | Cyfanswm 2021 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gweithgareddau er mwyn cynhyrchu cronfeydd** | | | | | | |
| Gweithgareddau masnachu eraill* | | - | **159** | 337 | - | 337 |
| Gweithrediadau masnachu masnachol† | | - | **351** | 239 | - | 239 |
| Arall‡ | | - | **214** | 308 | - | 308 |
| | 724 | - | **724** | 884 | - | 884 |
| **Incwm buddsoddi** | | | | | | |
| Incwm cyllid arall – cynllun pensiwn (nodyn 16) | 714 | - | **714** | 70 | - | 70 |
| Llog banc | | - | **522** | 84 | - | 84 |
| | 1,236 | - | **1,236** | 154 | - | 154 |
| **Cyllid gan yr adran Iechyd** | | | | | | |
| Cyllid er mwyn talu gwariant ar Reoleiddio Cymdeithion Meddygol Proffesiynol¶ | - | 2,506 | **2,506** | - | 2,605 | 2,605 |

* Mae gweithgareddau masnachu eraill yn cynnwys ad-dalu costau ymweld ag ysgolion meddygol tramor ac ad-dalu costau staff wedi'u secondio i gyrff allanol.

† Mae incwm o weithrediadau masnachu masnachol yn deillio o Wasanaethau Rhyngwladol CMC Ltd, is-gwmni ym mherchnogaeth lwyr CMC, sy'n darparu gwasanaethau masnachol gan gynnwys gwasanaethau ymgynghori, hyfforddiant ac achredu.

‡ Mae incwm arall yn cynnwys ad-dalu ffioedd cyfreithiol o apeliadau a ffioedd trafodion a gynhyrchir trwy wneud newidiadau i statws cofrestru.

¶ Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi darparu cyllid i'r Cyngor Meddygol Cyffredinol gychwyn ar y gwaith gweithredol er mwyn sicrhau bod cymdeithion meddygol a chymdeithion anesthesia yn cael eu rheoleiddio gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo a disgwylir i'r ddeddfwriaeth fod mewn grym er mwyn i'r gwaith rheoleiddio gychwyn heb fod cyn 2024.

## 4. Cyfanswm y gwariant

### Gweithgarwch elusennol a chynorthwyo dynodi costau

| | **Costau staffio uniongyrchol** | **Costau uniongyrchol** | **Costau dynodedig** | **Cyfanswm 2022** | Costau staffio uniongyrchol | Costau uniongyrchol | Costau dynodedig | Cyfanswm 2021 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwariant ar:** | | | | | | | | |
| Gweithrediadau masnachu masnachol | 287 | 38 | - | **325** | 216 | 30 | - | 246 |
| Costau rheoli buddsoddiad | - | 209 | - | **209** | - | 249 | - | 249 |
| **Cyfanswm y gwariant ar gynhyrchu cronfeydd** | 287 | 247 | - | **534** | 216 | 279 | - | 495 |
| Addasrwydd i ymarfer | 21,792 | 6,944 | 18,897 | **47,633** | 21,354 | 6,774 | 18,754 | 46,882 |
| Cofrestru ac ailddilysu | 14,065 | 9,308 | 13,749 | **37,122** | 12,077 | 5,915 | 11,811 | 29,803 |
| Perthnasoedd allanol* | 9,733 | 691 | 6,336 | **16,760** | 8,948 | 602 | 5,769 | 15,319 |
| Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol | 5,089 | 5,199 | 4,587 | **14,875** | 4,782 | 4,972 | 4,258 | 14,012 |
| Addysg | 6,883 | 245 | 4,180 | **11,308** | 5,841 | 345 | 3,755 | 9,941 |
| Safonau | 1,219 | 7 | 834 | **2,060** | 1,109 | 13 | 798 | 1,920 |
| Cyllid yr Adran Iechyd - MAPS | 1,049 | 502 | - | **1,551** | 1,196 | 553 | - | 1,749 |
| **Cyfanswm y gwariant elusennol** | 59,830 | 22,896 | 48,583 | **131,309** | 55,307 | 19,174 | 45,145 | 119,626 |
| Gwariant arall – darpariaeth gyfreithiol | - | 1,398 | - | **1,398** | - | 144 | - | 144 |
| Gwariant arall – darpariaeth dadfeilio | - | 286 | - | **286** | - | 1,882 | - | 1,882 |
| **Cyfanswm y gwariant grŵp** | 60,117 | 24,827 | 48,583 | **133,527** | 55,523 | 21,479 | 45,145 | 122,147 |

* Mae perthnasoedd allanol yn cynnwys y gwaith a wneir gan ein Gwasanaeth Cyswllt Rhanbarthol, perthnasoedd strategol, ein swyddfeydd datganoledig, a'n gweithgareddau datblygu rhyngwladol ac Ewropeaidd.

### Costau cymorth sy'n cael eu neilltuo i weithgareddau elusennol

| | **Rheoli** | **TG** | **Adnoddau dynol** | **Cyllid** | **Caffael** | **Cyfleusterau** | **Llywodraethu** | **Cyfanswm 2022** | **Rheoli** | **TG** | **Adnoddau dynol** | **Cyllid** | **Caffael** | **Cyfleusterau** | **Llywodraethu** | **Cyfanswm 2021** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Addasrwydd i ymarfer | 3,416 | 5,852 | 2,495 | 886 | 163 | 4,651 | 1,434 | **18,897** | 3,249 | 6,066 | 2,367 | 875 | 161 | 4,678 | 1,358 | **18,754** |
| Cofrestru ac ailddilysu | 2,485 | 4,259 | 1,815 | 645 | 119 | 3,383 | 1,043 | **13,749** | 2,046 | 3,820 | 1,490 | 551 | 102 | 2,946 | 856 | **11,811** |
| Perthnasoedd allanol* | 1,145 | 1,963 | 836 | 297 | 55 | 1,559 | 481 | **6,336** | 999 | 1,866 | 728 | 269 | 50 | 1,439 | 418 | **5,769** |
| Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol | 829 | 1,421 | 605 | 215 | 40 | 1,129 | 348 | **4,587** | 738 | 1,377 | 537 | 199 | 37 | 1,062 | 308 | **4,258** |
| Addysg | 756 | 1,295 | 552 | 196 | 36 | 1,029 | 317 | **4,181** | 650 | 1,215 | 474 | 175 | 32 | 937 | 272 | **3,755** |
| Safonau | 151 | 258 | 110 | 39 | 7 | 205 | 63 | **833** | 138 | 258 | 101 | 37 | 7 | 199 | 58 | **798** |
| **Cyfanswm y gwariant elusennol** | 8,782 | 15,048 | 6,413 | 2,278 | 420 | 11,956 | 3,686 | **48,583** | 7,820 | 14,602 | 5,697 | 2,106 | 389 | 11,261 | 3,270 | **45,145** |

Caiff costau cymorth eu neilltuo i weithgareddau elusennol ar sail nifer y staff ar draws y sefydliad.

Ailgodwyd taliadau cymorth i'r is-gwmni masnachol, GMCSI, a phrosiect MAPS trwy gydol y flwyddyn ar sail uniongyrchol, felly cânt eu trin ar wahân i'r dynodiad ar ddiwedd y flwyddyn.

## Gwariant grŵp fesul math

| | **Gweithgareddau elusennol 2022** | **Gwariant ar gynhyrchu cronfeydd 2022** | **Cyllid gan yr Adran Iechyd - MAPS 2022** | **Gwariant arall 2022** | **Cyfanswm 2022** | Gweithgareddau elusennol 2021 | Gwariant ar gynhyrchu cronfeydd 2021 | Cyllid gan yr Adran Iechyd - MAPS 2021 | Gwariant arall 2021 | Cyfanswm 2021 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Costau staffio | 82,261 | 288 | 1,049 | - | **83,598** | 74,880 | 216 | 1,196 | - | 76,292 |
| Costau swyddfa | 1,781 | 24 | 444 | - | **2,249** | 1,412 | 24 | 530 | - | 1,966 |
| Costau'r cyngor a phwyllgorau | 407 | - | - | - | **407** | 359 | - | - | - | 359 |
| Costau panel ac asesu | 16,770 | - | 28 | - | **16,798** | 13,220 | - | - | - | 13,220 |
| Costau cyfreithiol | 4,706 | - | - | 1,398 | **6,104** | 4,408 | - | - | 144 | 4,552 |
| Costau llety | 7,637 | - | - | 286 | **7,923** | 7,016 | - | - | 1,882 | 8,898 |
| Costau ariannol, actiwaraidd a phroffesiynol | 4,028 | 222 | 30 | - | **4,280** | 4,115 | 255 | 23 | - | 4,393 |
| Prynu asedau – fe'u codir ar refeniw | 4,587 | - | - | - | **4,587** | 4,301 | - | - | - | 4,301 |
| Asedau a ddilëwyd | - | - | - | - | **-** | 1 | - | - | - | 1 |
| Dibrisiant | 2,595 | - | - | - | **2,595** | 3,163 | - | - | - | 3,163 |
| Amorteiddio | 4,986 | - | - | - | **4,986** | 5,002 | - | - | - | 5,002 |
| | 129,758 | 534 | 1,551 | 1,684 | **133,527** | 117,877 | 495 | 1,749 | 2,026 | 122,147 |

**Mae cyfanswm yr adnoddau a wariwyd yn cynnwys:**

| | **2022** | 2021 |
|---|---|---|
| Costau prydlesi gweithredol: offer ac eiddo lesddaliadol | 3,669 | 3,639 |
| Ffioedd archwilio | 48 | 43 |

# 5. Staff

| | 2022<br>£'000 | 2021<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Cyfanswm y costau ar gyfer yr holl staff** | | |
| Cyflogau | **63,993** | 59,022 |
| Costau nawdd cymdeithasol | **6,992** | 6,189 |
| Costau pensiwn – cynllun â buddion wedi'u diffinio | **100** | - |
| Costau pensiwn – cynllun â chyfraniadau wedi'u diffinio | **9,082** | 8,487 |
| Costau dileu swydd | **80** | 202 |
| Costau staffio eraill | **3,351** | 2,392 |
| | **83,598** | 76,292 |

Yn ystod y flwyddyn, talodd y Cyngor Meddygol Cyffredinol daliadau terfynu o £236,000 (2021: £40,000), a oedd yn cynnwys £162,000 a oedd yn ymwneud gyda phenderfyniadau a wnaethpwyd ac a oedd wedi cronni yn ystod 2021. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd taliadau o £6,000 yn daladwy (2021: £162,000).

| | 2022 | 2021 |
|---|---|---|
| **Niferoedd cyfartalog y staff yn ystod y flwyddyn fesul categori** | | |
| Addasrwydd i ymarfer | **465** | 478 |
| Cofrestru ac ailddilysu | **338** | 301 |
| Perthnasoedd allanol | **156** | 147 |
| Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol | **113** | 109 |
| Addysg | **103** | 96 |
| Safonau | **20** | 20 |
| Llywodraethu a Rheoli | **165** | 154 |
| Adnoddau | **226** | 217 |
| | **1,586** | 1,522 |
| Gwasanaethau Rhyngwladol CMC Ltd | **1** | 1 |
| | **1,587** | 1,523 |

Roedd nifer y staff yr oedd cyfanswm eu buddion fel cyflogeion (ac eithrio cyfraniadau i bensiwn cyflogwr) yn perthyn i fandiau cyflog uwch fel a ganlyn:

| | **2022** | 2021 |
|---|---|---|
| **CMC** | | |
| £60,000-£70,000 | 59 | 52 |
| £70,001-£80,000 | 50 | 57 |
| £80,001-£90,000 | 46 | 28 |
| £90,001-£100,000 | 12 | 14 |
| £100,001-£110,000 | 11 | 7 |
| £110,001-£120,000 | 10 | 11 |
| £120,001-£130,000 | 7 | 9 |
| £130,001-£140,000 | 3 | 3 |
| £140,001-£150,000 | 4 | 4 |
| £150,001-£160,000 | 2 | 1 |
| £200,001-£210,000 | - | 6 |
| £210,001-£220,000 | 6 | - |
| £250,001-£260,000 | - | 1 |
| £260,001-£270,000 | 1 | - |
| | 211 | 193 |
| **MPTS** | | |
| £60,000–£70,000 | 2 | 2 |
| £70,001–£80,000 | - | 1 |
| £80,001–£90,000 | 2 | 2 |
| £90,001–£100,000 | 2 | 1 |
| £110,001–£120,000 | 1 | 1 |
| | 7 | 7 |
| **Cyfanswm** | 218 | 200 |

| | 2022 | 2021 |
|---|---|---|
| **Nifer y staff a gafodd eu cynnwys uchod, y mae buddion ymddeol yn cronni ar eu cyfer** | | |
| Cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio CMC | 217 | 197 |
| Cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio GIG | - | 1 |
| Heb fod mewn cynllun | 1 | 2 |
| | 218 | 200 |

Roedd y tîm rheoli uwch yn cynnwys y Prif Weithredwr a chwe chyfarwyddwr parhaol yn 2022. Cyfanswm buddion cyflogeion (gan gynnwys cyfraniadau i bensiwn cyflogwr) y tîm rheoli uwch oedd £1,759,804 yn 2022. Y ffigwr cyfatebol yn ystod 2021 oedd £1,705,118.

| **Tâl y tîm rheoli uwch** | **Cyflog sylfaenol 2022** | **Cyflog sylfaenol 2021** |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Charlie Massey – Prif Weithredwr | 255 | 248 |
| Shaun Gallagher – Cyfarwyddwr Strategaeth a Pholisi | 208 | 202 |
| Una Lane – Cyfarfwyddwr Cofrestru ac Ailddilysu | 208 | 203 |
| Colin Melville – Cyfarwyddwr Addysg a Safonau | 208 | 203 |
| Anthony Omo – Cyfarwyddwr Addasrwydd i Ymarfer | 208 | 203 |
| Paul Reynolds – Cyfarwyddwr Cyfathrebu Strategol ac Ymgysylltu | 208 | 203 |
| Neil Roberts – Cyfarwyddwr Adnoddau | 208 | 203 |

Mae holl staff CMC, gan gynnwys y tîm rheoli uwch, yn gymwys i hawlio cyfraniadau pensiwn o 15% o'u cyflog i Gynllun Pensiwn Personol Grŵp CMC a gallant gyfnewid cyfraniadau am gyflog.

Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr yn cael cyflog anghyfunol. Yn 2022, roedd y taliadau yn is na 3% o'r cyflog sylfaenol ar gyfer holl aelodau'r tîm rheoli uwch. Ni wnaethpwyd unrhyw daliadau yn 2021.

Mae gan holl staff CMC, gan gynnwys y tîm rheoli uwch, yr hawl i brynu a gwerthu gwyliau a manteisio ar fudd trethadwy yswiriant meddygol preifat. Ni chaiff y costau a'r buddion hyn eu cynnwys yn y tabl uchod.

Mae cyflog y Prif Weithredwr 7.57 gwaith (2021: 7.67) yn uwch na'r cyflog canolrifol a 12.8 gwaith (2021: 13.2) yn uwch na'r cyflog isaf.

Nid oedd unrhyw drafodion parti cysylltiedig yn ystod y flwyddyn, y mae gofyn eu datgelu, ac eithrio'r taliadau a wnaethpwyd i Ymddiriedolwyr fel y datgelwyd yn nodiadau 17 ac 18.

# 6. Asedau anniriaethol sefydlog

## Grŵp ac elusen

| | Meddalwedd gyfrifiadurol a datblygiad systemau £'000 |
|---|---|
| **Cost** | |
| Balans ar 1 Ionawr 2022 | **30,949** |
| Ychwanegiadau | **7,808** |
| Gwarediadau | **(3,924)** |
| **Balans ar 31 Rhagfyr 2022** | **34,833** |
| **Amorteiddio** | |
| Balans ar 1 Ionawr 2022 | **19,247** |
| Tâl amorteiddio am y flwyddyn | **4,986** |
| Gwarediadau | **(3,924)** |
| **Balans ar 31 Rhagfyr 2022** | **20,309** |
| Balans ar 1 Ionawr 2022 | **11,702** |
| **Gwerth net ar y llyfrau ar 31 Rhagfyr 2022** | **14,524** |

Mae asedau anniriaethol yn cynnwys yr holl gostau datblygu meddalwedd TG gan gynnwys, ond heb ei gyfyngu i, ddatblygiad ein cymwysiadau strategol, Siebel, Livelink ac Agresso, datblygiad systemau diogelwch TG, systemau rheoli cyfleusterau a'r wefan. Mae asedau anniriaethol yn cynnwys y systemau er mwyn cynorthwyo gweithio gartref a chymwysiadau symudol hefyd.

# 7. Asedau diriaethol sefydlog

## Grŵp ac elusen

| | Adeiladau | Gosodiadau, dodrefn ac offer | Offer TG | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cost** | | | | |
| Balans ar 1 Ionawr 2022 | 2,188 | 14,532 | 8,072 | **24,792** |
| Ychwanegiadau | - | 147 | 566 | **713** |
| Gwarediadau | - | (57) | (1,255) | **(1,312)** |
| **Balans ar 31 Rhagfyr 2022** | 2,188 | 14,622 | 7,383 | **24,193** |
| **Dibrisiant** | | | | |
| Balans ar 1 Ionawr 2022 | 2,000 | 10,070 | 6,417 | **18,487** |
| Tâl dibrisiant ar gyfer y flwyddyn | 74 | 1,524 | 997 | **2,595** |
| Gwarediadau | - | (57) | (1,255) | **(1,312)** |
| **Balans ar 31 Rhagfyr 2022** | 2,074 | 11,537 | 6,159 | **19,770** |
| Gwerth llyfr net ar 1 Ionawr 2022 | 188 | 4,462 | 1,655 | **6,305** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Rhagfyr 2022** | 114 | 3,085 | 1,224 | **4,423** |

# 8. Buddsoddiadau

| Cronfeydd a reolir | Grŵp | | Elusen | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Buddsoddiadau rhestredig | Cyfanswm | Buddsoddiadau rhestredig | Buddsoddiad Ecwiti mewn Ymgymeriadau Grŵp | Cyfanswm |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Roedd y prisiad ar ddiwedd y flwyddyn yn cynnwys: | | | | | |
| Ar 1 Ionawr 2022 | 61,649 | **61,649** | 61,649 | 230 | **61,879** |
| Ychwanegiadau | 18,789 | **18,789** | 18,789 | - | **18,789** |
| Gwarediadau | (18,999) | **(18,999)** | (18,999) | - | **(18,999)** |
| Enillion ar fuddsoddiadau | (4,846) | **(4,846)** | (4,846) | - | **(4,846)** |
| Dadwneud amhariad* | - | **-** | - | 26 | **26** |
| **Balans ar 31 Rhagfyr 2022** | **56,593** | **56,593** | **56,593** | **256** | **56,849** |

* Corfforodd y Cyngor Meddygol Cyffredinol is-gwmni masnachol yn ei lwyr berchnogaeth ar 16 Rhagfyr 2016. Ar ôl dioddef amhariad o £370,000 yn flaenorol o ganlyniad i golledion masnachu, rydym wedi dadwneud amhariad y buddsoddiad gymaint â £26,000 yn 2022 o ganlyniad i'r elw a wnaethpwyd gan y cwmni, gan gynyddu ei asedau net.

Rheolir buddsoddiadau rhestredig gan CCLA Investment Management Ltd. Bu ffioedd rheoli buddsoddiad o £209,170 (2021: £249,422).

# 9. Dyledwyr

| | **2022** | | 2021 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Grŵp** | **Elusen** | Grŵp | Elusen |
| | **£'000** | **£'000** | £'000 | £'000 |
| **Symiau sy'n ddyledus cyn pen blwyddyn** | | | | |
| Dyledwyr cofrestru | **20,935** | **20,935** | 18,810 | 18,810 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronnus | **5,785** | **5,849** | 5,054 | 5,121 |
| Dyledwyr eraill | **337** | **317** | 177 | 165 |
| | **27,057** | **27,101** | 24,041 | 24,096 |

# 10. Credydwyr

| | **2022** | | 2021 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Grŵp** | **Elusen** | Grŵp | Elusen |
| | **£'000** | **£'000** | £'000 | £'000 |
| **Symiau sy'n ddyledus cyn pen blwyddyn** | | | | |
| Credydwyr masnachol | **1,427** | **1,420** | 877 | 872 |
| Treth a nawdd cymdeithasol | **1,945** | **1,933** | 1,829 | 1,825 |
| Tâl gwyliau | **1,107** | **1,107** | 1,106 | 1,106 |
| Croniadau | **8,404** | **8,361** | 9,050 | 9,025 |
| Incwm gohiriedig | **74,298** | **74,298** | 67,676 | 67,676 |
| | **87,181** | **87,119** | 80,538 | 80,504 |

## Incwm elusennol gohiriedig

Caiff incwm gan ffioedd cadw blynyddol ei ohirio a'i ryddhau i'r datganiad gweithgareddau ariannol ar sail llinell syth dros gyfnod o 12 mis o'r dyddiad adnewyddu. Caiff yr holl incwm gohiriedig sy'n cael ei ddwyn ymlaen o'r flwyddyn flaenorol ei ryddhau yn awtomatig i'r datganiad o weithgareddau ariannol yn ystod y flwyddyn ddilynol. Caiff ffioedd y Bwrdd Asesiadau Proffesiynol ac Ieithyddol (PLAB) eu gohirio tan y dyddiad pan fydd rhywun yn sefyll yr arholiad.

| | **Ffioedd cadw blynyddol** | **Ffioedd PLAB** | **Ffioedd cofrestru arbenigol a meddygon teulu** | **Ffioedd asesu ailddilysu** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Incwm gohiriedig ar 1 Ionawr 2022 | 57,356 | 10,222 | 57 | 41 | **67,676** |
| Adnoddau a ohiriwyd yn ystod y flwyddyn | 61,800 | 12,433 | 24 | 42 | **74,299** |
| Symiau a ryddhawyd o flynyddoedd blaenorol | (57,356) | (10,222) | (57) | (41) | **(67,676)** |
| **Incwm gohiriedig ar 31 Rhagfyr 2022** | **61,800** | **12,433** | **24** | **42** | **74,299** |

# 11. Darpariaethau

## Grŵp ac elusen

| | **2022** | 2021 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Dadfeiliadau | **3,141** | 2,855 |
| Hawliadau cyfreithiol | **5,286** | 3,888 |
| | **8,427** | 6,743 |

Dadfeiliadau – bob blwyddyn, byddwn yn adolygu ein prydlesi eiddo ac yn gwneud darpariaeth ar gyfer dadfeiliadau, lle y mae modd amcangyfrif y gost mewn ffordd resymol.

Hawliadau cyfreithiol – bob blwyddyn, byddwn yn gwneud darpariaeth ar gyfer costau posibl sy'n gysylltiedig gydag achosion cyfreithiol sy'n mynd rhagddynt. O fewn y ddarpariaeth hon, rydym yn dal amcangyfrif o'r symiau ychwanegol sy'n ddyledus i grŵp ehangach o unigolion ond sy'n codi o benderfyniad un tribiwnlys cyflogaeth. Nid yw goblygiadau ariannol llawn yr achos cyfreithiol hwn wedi cael eu pennu eto, felly nid yw'r symiau wedi cael eu setlo o hyd yn ystod y flwyddyn gyfredol. Rydym yn dewis peidio datgelu gwybodaeth bellach nes y caiff y mater ei setlo yn llawn, fel na fyddwn yn niweidio'r achos.

| | **Dadfeiliadau** | **Hawliadau cyfreithiol** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Darpariaethau ar 1 Ionawr 2022 | 2,855 | 3,888 | **6,743** |
| Darpariaethau a grëwyd yn ystod y flwyddyn | 286 | 1,743 | **2,029** |
| Symiau a ryddhawyd o flynyddoedd blaenorol | - | (345) | **(345)** |
| **Darpariaethau ar 31 Rhagfyr 2022** | **3,141** | **5,286** | **8,427** |

# 12. Symudiadau cronfa grŵp yn ystod y flwyddyn

## Grŵp ac elusen

| | **Cronfeydd anghyfyngedig** | **Cronfeydd cyfyngedig** | **Cronfa bensiwn** | **Cyfanswm 2022** |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Ar 1 Ionawr 2022 | 62,381 | 856 | 36,561 | 99,798 |
| Adnoddau net sy'n dod i mewn / (mynd allan) | (6,091) | 955 | (39,809) | (44,945) |
| **Ar 31 Rhagfyr 2022** | **56,290** | **1,811** | **(3,248)** | **54,853** |

| | Cronfeydd anghyfyngedig | Cronfeydd cyfyngedig | Cronfa bensiwn | Cyfanswm 2021 |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ar 1 Ionawr 2021 | 60,593 | - | 3,988 | 64,581 |
| Adnoddau net sy'n dod i mewn / (mynd allan) | 1,788 | 856 | 32,573 | 35,217 |
| **Ar 31 Rhagfyr 2021** | **62,381** | **856** | **36,561** | **99,798** |

# 13. Asedau net fesul cronfa

## Grŵp ac elusen

### Cynrychiolir balansau cronfa ar 31 Rhagfyr 2022 gan

| | Cronfeydd anghyfyngedig | Cronfeydd asedau sefydlog cyfyngedig | Cronfa bensiwn wrth gefn | Cyfanswm y cronfeydd 2022 |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Asedau anniriaethol sefydlog | 12,713 | 1,811 | - | 14,524 |
| Asedau diriaethol sefydlog | 4,423 | - | - | 4,423 |
| Buddsoddiadau | 56,593 | - | - | 56,593 |
| Asedau cyfredol | 78,169 | - | - | 78,169 |
| Rhwymedigaethau cyfredol | (87,181) | - | - | (87,181) |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau | (8,427) | - | - | (8,427) |
| Ased cynllun pensiwn | - | - | (3,248) | (3,248) |
| **Cyfanswm yr asedau net** | **56,290** | **1,811** | **(3,248)** | **54,853** |

| | Cronfeydd anghyfyngedig | Cronfeydd asedau sefydlog cyfyngedig | Cronfa bensiwn wrth gefn | Cyfanswm y cronfeydd 2021 |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Asedau anniriaethol sefydlog | 10,846 | 856 | - | 11,702 |
| Asedau diriaethol sefydlog | 6,305 | - | - | 6,305 |
| Buddsoddiadau | 61,649 | - | - | 61,649 |
| Asedau cyfredol | 70,862 | - | - | 70,862 |
| Rhwymedigaethau cyfredol | (80,538) | - | - | (80,538) |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau | (6,743) | - | - | (6,743) |
| Ased cynllun pensiwn | - | - | 36,561 | 36,561 |
| **Cyfanswm yr asedau net** | **62,381** | **856** | **36,561** | **99,798** |

# 14. Ymrwymiadau cyfalaf

Cyfanswm y gwariant cyfalaf a gontractiwyd ond heb ei wario ar 31 Rhagfyr 2022 oedd £799,978. Y ffigwr cyfatebol ar gyfer 2021 oedd £63,936

# 15. Ymrwymiadau prydlesi gweithredol

| | Tir ac adeiladau | | Offer | |
|---|---|---|---|---|
| | **2022** | 2021 | **2022** | 2021 |
| **Dyddiad dod i ben** | **£'000** | £'000 | **£'000** | £'000 |
| Cyn pen blwyddyn | **4,580** | **4,557** | **48** | **97** |
| Ym mlynyddoedd dwy i bump | **5,158** | **8,624** | **-** | **48** |
| Ar ôl mwy na phum mlynedd | **1,443** | **2,530** | **-** | **-** |
| | **11,181** | **15,711** | **48** | **145** |

Mae ymrwymiadau yn cynnwys ein rhwymedigaethau dan ein prydlesi adeiladau ac offer. Cânt eu cyfrifo i'r cymal torri prydles cyntaf neu ddiwedd y brydles pan na cheir cymal torri yn y cytundeb. Caiff ymrwymiadau eu cyfrifo ar sail ariannol yn hytrach na chynnwys buddion rhydd rhag rhent.

## 16. Cynlluniau pensiwn

Mae gan CMC dri chynllun pensiwn i'r staff:

### Cynllun Pensiwn Personol Grŵp CMC

Mae hwn yn gynllun pensiwn â chyfraniadau wedi'u diffinio, a sefydlwyd ar 1 Gorffennaf 2013. Cychwynnom ar drefniant cofrestru awtomatig ar 1 Tachwedd 2013. Ar ddiwedd 2022 roedd 1,587 aelod o staff yn cyfrannu at y cynllun hwn. Mae'n bodloni gofynion y llywodraeth ar ôl cyflwyno'r trefniadau cofrestru awtomatig. Gall unigolion ddewis gwneud cyfraniadau ychwanegol trwy ddidynnu symiau o'u cyflog i'r cynllun. Dan amodau FRS102, rhoddir cyfrif o gyfraniadau fel cynllun â chyfraniadau wedi'u diffinio ar sail cyfraniadau go iawn a dalwyd trwy gydol y flwyddyn.

### Cynllun Aml-Gyflogwr GIG

Mae gennym 0 aelod o staff sy'n cyfrannu at gynllun aml-gyflogwr GIG (2021: 1 aelod o staff), sy'n gynllun â buddion wedi'u diffinio. Trosglwyddodd yr aelod o staff i CMC ar ôl i ni uno gyda PMETB. Mae'r cynllun yn gweithredu fel trefniant cyfun, a thelir cyfraniadau ar gyfradd sy'n cael ei chytuno yn ganolog. Ni all yr ymddiriedolwyr gadarnhau cyfran CMC o asedau a rhwymedigaethau sylfaenol cynllun GIG, felly, dan amodau FRS 102, rhoddir cyfrif am gyfraniadau fel pe bai'r cynllun yn gynllun â chyfraniadau wedi'u diffinio ar sail cyfraniadau go iawn a delir trwy gydol y flwyddyn.

### Cynllun Pensiwn Staff CMC

Mae hwn yn gynllun a ariannir o fath cynlluniau â buddion wedi'u diffinio, sy'n darparu buddion ymddeol ar sail y cyflog terfynol. Mae'r trefniant taliadau atodol yn gynllun nas ariannir.

Caewyd y cynllun hwn i aelodau newydd ar 30 Mehefin 2013 ac fe'i ddisodlwyd gan Gynllun Pensiwn Personol Grŵp CMC. Caewyd y cynllun i groniadau yn y dyfodol i aelodau presennol ar 31 Mawrth 2018, felly ar ddiwedd 2018, nid oedd unrhyw aelodau o staff yn cyfrannu i'r cynllun hwn.

Seiliwyd y prisiad FRS 102 ar asesiad llawn o'r rhwymedigaethau ar gyfer y Cynllun ar 31 Rhagfyr 2021. Mesurwyd gwerthoedd presennol y rhwymedigaeth buddion wedi'u diffinio, cost gysylltiedig y gwasanaeth cyfredol ac unrhyw gostau gwasanaeth blaenorol gan ddefnyddio'r dull credyd uned rhagamcanol.

Mae enillion a cholledion actiwaraidd wedi cael eu cydnabod yn ystod y cyfnod y maent yn digwydd ynddo (ond y tu allan i'r cyfrif elw a cholled) trwy'r Incwm Cynhwysfawr Arall (OCI).

Mae CMC yn cydnabod gwargedion yn unol â gofynion Adran 18 FRS 102. Nid oes gan ymddiriedolwyr y Cynllun yr hawl unochrog i gychwyn ar y broses o ddirwyn y Cynllun i ben. Felly, mae CMC yn cymryd y bydd y Cynllun yn parhau i fodoli nes y telir y taliadau budd olaf i aelodau, ac ar yr adeg honno, caiff unrhyw asedau gweddilliol eu dychwelyd i CMC yn unol â rheolau'r Cynllun.

Talod CMC daliad atodol ychwanegol o £1.3m i'r cynllun yn 2022 a bydd hwn yn codi i gyfraniad blynyddol penoddedig o £1.5m bob blwyddyn tan 2031 dan amodau'r cynllun adfer a gytunwyd fel rhan o brisiad tair blynedd 2021. Telir £5.0m pellach hefyd rhwng 2023 a 2025 i'r cynllun pensiwn er mwyn ariannu'r diffyg.

Ymddiriedolwyr y pensiwn sy'n gyfrifol am fuddsoddi asedau'r cynllun pensiwn. Mae Deddf Pensiynau 1995 yn mynnu bod ymddiriedolwyr yn paratoi Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi, gan nodi strategaeth fuddsoddi'r cynllun. Mae gofyn i ymddiriedolwyr pensiwn ymgynghori â'r cyflogwr (CMC) pan fyddant yn llunio'r strategaeth, ond nid oes gofyn iddynt gael cytundeb ffurfiol y cyflogwr. Ar ôl ymgynghori gyda CMC, yn 2014, mabwysiadodd ymddiriedolwyr y pensiwn ddull gweithredu rheoli ymddiriedol tuag at fuddsoddi asedau'r cynllun.

Isod, nodir y prif dybiaethau a ddefnyddiwyd gan yr actiwarïaid cymwys annibynnol i gyfrifo'r rhwymedigaethau dan FRS 102.

### Prif dybiaethau ariannol

| | 31 Rhagfyr 2022 | 31 Rhagfyr 2021 |
|---|---|---|
| | %yf | %yf |
| Chwyddiant Mynegai Prisiau Manwerthu | 3.1 | 3.1 |
| Chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr | 2.7 | 2.7 |
| Cyfradd y cynnydd hirdymor cyffredinol mewn cyflogau | 3.7 | 3.7 |
| Cynnydd mewn pensiwn (tâl-dros-ben dros y pensiwn isaf gwarantedig) | 2.7 | 2.7 |
| Cyfradd y gostyngiad ar gyfer rhwymedigaethau cynllun | 4.6 | 1.9 |

### Tybiaethau marwoldeb

Seilir y tybiaethau marwoldeb ar dablau marwoldeb safonol gyda lwfans ar gyfer gwelliannau o ran marwoldeb yn y dyfodol. Y tybiaethau yw y bydd aelod sy’n 65 oed ar hyn o bryd yn byw ar gyfartaledd am 22.2 mlynedd arall (2021: 22.7 blynedd) os ydynt yn ddyn ac am 24.1 mlynedd arall os ydynt yn fenyw (2021: 24.5 blynedd).

I aelod sy'n ymddeol yn 2042 yn 65 oed, y tybiaethau yw y byddant yn byw ar gyfartaledd am 23.2 mlynedd arall ar ôl ymddeol os ydynt yn ddyn a 25.3 mlynedd arall ar ôl ymddeol os ydynt yn fenyw.

### Neilltuo asedau’r cynllun

| | **31 Rhagfyr 2022** | | 31 Rhagfyr 2021 | |
|---|---|---|---|---|
| | **£’000** | **%** | £’000 | % |
| Gwasanaethau ymgynghori dirprwyedig | **155,728** | **99%** | 327,665 | 99% |
| Arall | **1,256** | **1%** | 1,891 | 1% |
| **Cyfanswm** | **156,984** | **100%** | 329,556 | 100% |

Mae'r Gwasanaeth Ymgynghori Dirprwyedig (DCS) yn ddatrysiad rheoli ymddiriedol sy'n buddsoddi mewn ystod eang o asedau sylfaenol er mwyn bodloni amcanion buddsoddi penodol y Cynllun. Mae neilltuad yr asedau sylfaenol yn newid gydag amser, ar sail safbwyntiau'r rheolwr ymddiriedol o fewn y terfynau cyffredinol a bennwyd gan yr ymddiriedolwyr. Dan y dull gweithredu hwn, buddsoddir y rhan fwyaf o asedau'r cynllun mewn cronfeydd cyfun. Mae gofyn i reolwyr y cronfeydd cyfun feddu ar bolisi ynghylch ystyriaethau cymdeithasol, amgylcheddol a moesegol.

Ni chaiff unrhyw rai o asedau'r Cynllun eu buddsoddi yn offerynnau ariannol y Cwmni neu mewn eiddo y mae CMC yn ei ddefnyddio neu mewn asedau eraill a ddefnyddir gan CMC.

## Cysoni statws wedi'i ariannu i'r fantolen

| | 31 Rhagfyr 2022<br>£'000 | 31 Rhagfyr 2021<br>£'000 |
|---|---|---|
| Gwerth teg asedau | **156,984** | 329,556 |
| Gwerth presennol rhwymedigaethau buddion wedi'u diffinio a ariannwyd | **(159,407)** | (291,864) |
| Statws ariannu | **(2,423)** | 37,692 |
| Gwerth presennol rhwymedigaethau buddion wedi'u diffinio heb ei ariannu | **(825)** | (1,131) |
| **Ased/(rhwymedigaeth) sy'n cael ei gydnabod ar y fantolen** | **(3,248)** | 36,561 |

Mae ymrwymiadau yn cynnwys ein rhwymedigaethau dan ein lesoedd adeiladau ac offer. Cânt eu cyfrifo i'r cymal torri les cyntaf neu ddiwedd y les pan na fydd cymal torri yn y cytundeb. Caiff ymrwymiadau eu cyfrifo ar sail ariannol yn hytrach na chynnwys buddion rhydd rhag rhent.

## Symiau sy'n cael eu cydnabod yn y datganiad incwm

| | 31 Rhagfyr 2022<br>£'000 | 31 Rhagfyr 2021<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Costau gweithredol:** | | |
| **Cost gwasanaeth blaenorol** | **100** | - |
| **Cost ariannu:** | | |
| Llog ar rwymedigaeth/(ased) budd wedi'i ddiffinio net | **(714)** | (70) |
| **Incwm pensiwn a gaiff ei gydnabod yn elw a cholled** | **(614)** | (70) |

## Symiau sy'n cael eu cydnabod mewn Incwm Cynhwysfawr Arall (OCI)

| | 31 Rhagfyr 2022<br>£'000 | 31 Rhagfyr 2021<br>£'000 |
|---|---|---|
| Enillion/(colledion) asedau a gododd yn ystod y flwyddyn | **(175,762)** | 19,325 |
| Enillion/(colledion) rhwymedigaeth a gododd yn ystod y flwyddyn | **133,977** | 10,818 |
| **Enillion/(colledion) actiwaraidd ar y Cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio** | **(41,785)** | 30,143 |

## Newidiadau i werth presennol y rhwymedigaeth budd wedi'i ddiffinio yn ystod y flwyddyn

| | 31 Rhagfyr 2022 | 31 Rhagfyr 2021 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Rhwymedigaeth budd wedi'i ddiffinio (DBO) agoriadol | **292,995** | 302,281 |
| Traul llog ar DBO | **5,525** | 4,213 |
| (Enillion)/colledion actiwaraidd ar rwymedigaethau | **(133,977)** | (10,818) |
| Buddion net a dalwyd | **(4,411)** | (2,681) |
| Cost gwasanaeth blaenorol | **100** | - |
| **Rhwymedigaeth budd wedi'i ddiffinio wrth gloi** | **160,232** | 292,995 |

## Newidiadau i werth teg asedau'r Cynllun yn ystod y flwyddyn

| | 31 Rhagfyr 2022 | 31 Rhagfyr 2021 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Gwerth teg agoriadol asedau'r Cynllun | **329,556** | 306,269 |
| Incwm ar ffurf llog ar asedau'r Cynllun | **6,239** | 4,283 |
| Ennill/(colled) ar asedau'r Cynllun | **(175,762)** | 19,325 |
| Cyfraniadau gan y cwmni | **1,362** | 2,360 |
| Buddion net a dalwyd | **(4,411)** | (2,681) |
| **Gwerth teg asedau'r Cynllun wrth gloi** | **156,984** | 329,556 |

## Elw go iawn ar asedau'r Cynllun

| | 31 Rhagfyr 2022 | 31 Rhagfyr 2021 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Incwm ar ffurf llog ar asedau'r Cynllun | **6,239** | 4,283 |
| Ennill/(colled) ar asedau'r Cynllun | **(175,762)** | 19,325 |
| **Elw go iawn ar asedau'r Cynllun** | **(169,523)** | 23,608 |

# 17. Honoraria

| | 2022 | 2021 |
|---|---|---|
| **Ymddiriedolwyr** | | |
| Bonesig Clare Marx (Cadeirydd)* | - | 64,167 |
| Athro Bonesig Carrie MacEwen (Cadeirydd Dros Dro)† | 97,083 | 41,055 |
| Mr Steve Burnett | 18,000 | 18,000 |
| Dr Vanessa Davies‡ | 18,000 | 18,000 |
| Athro Anthony Harnden | 18,000 | 18,000 |
| Arglwydd Philip Hunt | 18,000 | 18,000 |
| Athro Paul Knight | 18,000 | 18,000 |
| Ms Lara Fielden¶ | - | 12,000 |
| Athro Deepa Mann-Kler‡ | 18,000 | 18,000 |
| Dr Rajesh Patel | 18,000 | 18,000 |
| Dr Suzanne Shale‡ | 18,000 | 18,000 |
| Miss Alison Wright | 18,000 | 18,000 |

* Ymddiswyddodd fel Aelod o'r Cygnor a Chadeirydd ar 31 Gorffennaf 2021.

† Penodwyd yn Aelod o'r Cyngor ym mis Ionawr 2021 ac yn Gadeirydd Dros Dro o 1 Awst 2021 ac fe'i penodwyd yn Gadeirydd o 1 Mai 2022.

‡ Penodwyd yn Aelod o'r Cyngor yn 2021.

¶ Penodwyd yn Aelod o'r Cyngor ym mis Ionawr 2021, bu farw ym mis Awst 2021.

Caniateir taliadau honoraria gan ddogfen lywodraethu y Cyngor Meddygol Cyffredinol, Deddf Meddygol 1983, paragraff 17, atodlen 1.

| Aelodau Pwyllgor y Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol | 2022 | 2021 |
|---|---|---|
| Bonesig Caroline Swift | 97,657 | 93,286 |
| Mrs Joy Hamilton | 3,720 | 3,720 |
| Athro Jacky Hayden | 7,440 | 7,440 |
| Gill Edelman (Gillian Gordon)* | 3,720 | 564 |
| Dr Tushar Vince¶ | 1,166 | 564 |
| Dr Simon Mackenzie† | 1,113 | - |
| Dr Patricia Moultrie‡ | - | 3,156 |
| Mrs Judith Worthington‡ | - | 3,156 |

* Penodwyd yn aelod o Bwyllgor MPTS yn 2021.

† Penodwyd yn aelod o Bwyllgor MPTS yn 2022.

‡ Ymddiswyddodd fel aelod o Bwyllgor MPTS yn 2021.

¶ Penodwyd yn aelod o Bwyllgor MPTS yn 2021 ac ymddiswyddodd ym mis Ebrill 2022.

| Aelodau cyfetholedig y Pwyllgor Risg ac Archwilio | 2022 | 2021 |
|---|---|---|
| Elizabeth Butler* | - | 1,473 |
| Jon Hayes† | 4,030 | 930 |
| Kenneth Gill | 3,255 | 2,945 |

* Ymddiswyddodd fel aelod cyfetholedig o'r PRA yn 2021.

† Penodwyd yn aelod cyfetholedig o'r PRA yn 2021.

| Aelodau cyfetholedig y Pwyllgor Buddsoddi | 2022 | 2021 |
|---|---|---|
| Keith Mackay | 2,945 | 2,170 |
| Tim Scholefield* | - | 620 |
| David Stewart* | - | - |
| Michael Jennings† | 2,480 | 620 |

* Ymddiswyddodd fel aelod cyfetholedig o'r PB yn 2021.

† Penodwyd yn aelod cyfetholedig o'r PB yn 2021.

| GMC Services International Ltd | 2022 | 2021 |
|---|---|---|
| Dr Andrew McCulloch | 310 | - |

# 18. Treuliau teithio a chynhaliaeth a hawliwyd yn ystod 2022

| | 2022 | 2021 |
|---|---|---|
| **Ymddiriedolwyr** | | |
| Bonesig Clare Marx (Cadeirydd)* | - | - |
| Athro Bonesig Carrie MacEwen (Cadeirydd Dros Dro)† | 1,812 | 236 |
| Mr Steve Burnett | 2,840 | 732 |
| Dr Vanessa Davies‡ | 1,395 | 706 |
| Athro Anthony Harnden | 555 | 184 |
| Arglwydd Philip Hunt | 383 | - |
| Athro Paul Knight | 3,127 | 1,689 |
| Ms Lara Fielden¶ | - | - |
| Athro Deepa Mann-Kler‡ ** | 5,133 | 2,878 |
| Dr Rajesh Patel | 1,631 | 942 |
| Dr Suzanne Shale‡ | 431 | - |
| Miss Alison Wright | - | - |

* Ymddiswyddodd fel Aelod o’r Cygngor a Chadeirydd ar 31 Gorffennaf 2021.

† Penodwyd yn Aelod o’r Cyngor ym mis Ionawr 2021 ac yn Gadeirydd Dros Dro o 1 Awst 2021.

‡ Penodwyd yn Aelod o’r Cyngor yn 2021.

¶ Penodwyd yn Aelod o’r Cyngor ym mis Ionawr 2021, bu farw ym mis Awst 2021.

** Athro Mann-Kler yw’r cynrychiolydd yn ein Cyngor o Oglwedd Iwerddon, felly mae ei threuliau teithio a chynhaliaeth hi yn uwch er mwyn iddi allu cyflawni ei chyfrifoldebau fel Aelod o’r Cyngor.

| Aelodau Pwyllgor y Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol | 2022 | 2021 |
|---|---|---|
| Bonesig Caroline Swift | 25 | 463 |
| Mrs Joy Hamilton | - | - |
| Athro Jacky Hayden | 508 | 302 |
| Gill Edelman (Gillian Gordon)[*] | - | 167 |
| Dr Tushar Vince[¶] | - | - |
| Dr Simon Mackenzie[†] | 328 | - |
| Dr Patricia Moultrie[‡] | - | - |
| Mrs Judith Worthington[‡] | - | - |

[*] Penodwyd yn aelod o Bwyllgor MPTS yn 2021

[†] Penodwyd yn aelod o Bwyllgor MPTS yn 2022

[‡] Ymddiswyddodd fel aelod o Bwyllgor MPTS yn 2021

[¶] Penodwyd yn aelod o Bwyllgor MPTS yn 2021 ac ymddiswyddodd ym mis Ebrill 2022

| Aelodau cyfetholedig y Pwyllgor Risg ac Archwilio | 2022 | 2021 |
|---|---|---|
| Elizabeth Butler[*] | - | - |
| Jon Hayes[†] | 278 | 241 |
| Kenneth Gill | 522 | - |

[*] Ymddiswyddodd fel aelod cyfetholedig o'r PRA yn 2021.

[†] Penodwyd yn aelod cyfetholedig o'r PRA yn 2021.

| Aelodau cyfetholedig y Pwyllgor Buddsoddi | 2022 | 2021 |
|---|---|---|
| Keith Mackay | 56 | 74 |
| Tim Scholefield[*] | - | - |
| David Stewart[*] | - | - |
| Michael Jennings[†] | 127 | 26 |

[*] Ymddiswyddodd fel aelod cyfetholedig o'r PB yn 2021.

[†] Penodwyd yn aelod cyfetholedig o'r PB yn 2021.

| GMC Services International Ltd | 2022 | 2021 |
|---|---|---|
| Dr Andrew McCulloch | - | - |

| Tîm rheoli uwch | 2022 | 2021 |
|---|---|---|
| Charlie Massey – Prif Weithredwr | 4,903 | 1,118 |
| Shaun Gallagher – Cyfarwyddwr Strategaeth a Pholisi | 3,982 | 1,355 |
| Una Lane – Cyfarfwyddwr Cofrestru ac Ailddilysu | 2,603 | 971 |
| Colin Melville – Cyfarwyddwr Addysg a Safonau | 3,906 | 392 |
| Anthony Omo – Cyfarwyddwr Addasrwydd i Ymarfer | 3,769 | - |
| Paul Reynolds – Cyfarwyddwr Cyfathrebu Strategol ac Ymgysylltu | 3,697 | 156 |
| Neil Roberts – Cyfarwyddwr Adnoddau | 7,491 | 2,164 |

Mae'r amrywiadau o ran y treuliau yn adlewyrchu'r ffaith bod yr ymddiriedolwyr, aelodau'r pwyllgorau a'r Tîm Rheoli Uwch yn byw mewn gwahanol rannau o'r DU ac mae gofyn iddynt deithio o gwmpas y DU yn cyflawni gwaith CMC, gan gynnwys i'n swyddfeydd yn Llundain, Manceinion, Caeredin, Belfast a Chaerdydd, a thu allan i'r DU o bryd i'w gilydd.

Yn ogystal, gwneir addasiadau ar gyfer y rhai sydd ag anableddau, a allai olygu bod treuliau ychwanegol yn codi ar gyfer teithio a llety yn unol ag anghenion penodol.

# Gwybodaeth weinyddol a chyfeirio

Rydym yn annibynnol ar lywodraeth y DU a'r proffesiwn meddygol ac yn atebol i'r Senedd. Rhoddir ein pwerau i ni gan y Senedd trwy gyfrwng *Deddf Meddygol 1983*.

Rydym wedi cofrestru gyda Chomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr (1089278), a gyda Swyddfa Rheolydd Elusennau yr Alban (SC037750). Nid oes gofyn i ni gofrestru ar wahân gyda Chomisiwn Elusennau Gogledd Iwerddon ar hyn o bryd.

Ein prif fannau busnes yw 3 Hardman Street, Manceinion M3 3AW a Regent's Place, 350 Euston Road, Llundain NW1 3JN. Yn ogystal, mae gennym swyddfeydd yng Nghaerdydd, Caeredin a Belfast; canolfan wrandawiadau, lle y lleolir MPTS, yn St James's Buildings, 79 Oxford Street, Manceinion M1 6FQ; a Chanolfan Asesu Clinigol, yn 3 Hardman Square, Manceinion M3 3EB.

Mae gan ein hymddiriedolwyr ddyletswydd i weithredu mewn ffordd ddiduedd a gwrthrychol, a chymryd camau i osgoi unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau sy'n deillio o'u haelodaeth o unrhyw sefydliad arall neu eu cyswllt ag unrhyw sefydliad neu unigolion eraill. Fel ymddiriedolwyr, mae gan aelodau ddyletswydd i osgoi rhoi eu hunain mewn sefyllfa lle y mae eu buddiannau personol yn gwrthdaro â'u dyletswydd i weithredu er budd yr elusen, oni bai y cânt eu hawdurdodi i wneud hynny. Er mwyn sicrhau bod hyn yn hollol dryloyw, rydym yn cyhoeddi cofrestr o fuddiannau aelodau ar ein gwefan.

Caiff y cyfrifoldeb dros reolaeth y sefydliad o ddydd i ddydd ei ddirprwyo i'r Prif Weithredwr, Charlie Massey. Gallwch ddarllen mwy am ein trefniadau llywodraethu a rheoli o dudalen 40.

Rydym yn gweithio gyda'r Awdurdod Safonau Proffesiynol (PSA), corff annibynnol sy'n atebol i'r Senedd ac sy'n craffu ac yn goruchwylio ein gwaith, ynghyd â chyrff rheoliadol iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol eraill yn y DU.

## Ceisiadau am wybodaeth

Yn 2022, cawsom 407 o geisiadau gwrthrych am wybodaeth dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Roedd hyn yn cynrychioli cynnydd o 1.2% o'i gymharu â'r sefyllfa yn 2021. Nifer y ceisiadau am wybodaeth a gawsom dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOI) yn 2022 oedd 820. Roedd hwn yn ostyngiad o 2.5% o'i gymharu â'r sefyllfa yn 2021.

Llwyddom i sicrhau 82.2% yn erbyn ein targed o ymateb i 80% o geisiadau gwrthrych am wybodaeth o fewn yr amserlen statudol. Llwyddom i sicrhau 85.6% yn erbyn ein targed o ymateb i 90% o geisiadau FOI cyn pen 20 diwrnod gwaith.

## Talu am nwyddau a gwasanaethau

Talom 98% o anfonebau dilys a diamheuol cyn pen 30 diwrnod ac ni wnaethom dalu unrhyw log i gyflenwyr oherwydd ein bod wedi bod dros 30 diwrnod yn hwyr yn talu.

# Cynghorwyr proffesiynol

| | |
|---|---|
| **Bancwyr** | Royal Bank of Scotland<br>250 Bishopsgate<br>Llundain<br>EC2M 4AA |
| **Cyfreithwyr** | Cyflawnir rhan fwyaf ein gwaith cyfreithiol gan ein tîm cyfreithiol mewnol. |
| **Archwilwyr** | Crowe U.K. LLP<br>2il Lawr, 55 Ludgate Hill<br>Llundain<br>EC4M 7JW |
| **Cynghorydd cynllun pensiwn ac actiwari** | Aon<br>Parkside House, Ashley Road<br>Epsom<br>Surrey<br>KT18 5BS |

E-bost: gmc@gmc-uk.org
Gwefan: gmc-uk.org
Ffôn: 0161 923 6602

Ffôn testun: **dylech ddeialu 18001** yna **0161 923 6602** er mwyn defnyddio'r gwasanaeth Cyfleu Testun

I ofyn am y cyhoeddiad hwn mewn ffurf neu iaith arall, ffoniwch ni ar **0161 923 6602** neu anfonwch e-bost atom **publications@gmc-uk.org**.

## Ymunwch â'r sgwrs

@gmcuk
facebook.com/gmcuk
linkd.in/gmcuk
youtube.com/gmcuktv

Cyhoeddwyd Medi 2023
© 2023 Cyngor Meddygol Cyffredinol

Gellir atgynhyrchu'r testun yn y ddogfen hon yn rhad ac am ddim mewn unrhyw ffurf neu gyfrwng, ar yr amod ei fod yn cael ei atgynhyrchu mewn ffordd gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint CMC dros y deunydd a nodir teitl y ddogfen.

Mae CMC yn elusen wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (1089278) a'r Alban (SC037750).
Cod: GMC/AR2022/0923.

ISBN: 978-1-7391680-1-8